Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011

PRINCIPALITY
CYMDEITHAS ADEILADU

Penawdau

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011



Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd	1
Adolygiad y Prif Weithredwr	4
Adolygiad busnes	8
Adroddiad rheoli risgiau	15
Bwrdd y cyfarwyddwyr	21
Adroddiad y cyfarwyddwyr	23
Adroddiad llywodraethu corfforaethol	26
Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	31
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	35
Datganiad cyfunol o'r incwm cynhwysfawr	37
Datganiad cyfunol o gyfanswm yr incwm a'r treuliau cydnabyddedig	37
Datganiad o incwm cynhwysfawr y Gymdeithas	38
Datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig y Gymdeithas	38
Datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol	39
Datganiad o sefyllfa ariannol y Gymdeithas	40
Datganiad llifau arian parod cyfunol	41
Datganiad llifau arian parod y Gymdeithas	42
Nodiadau i'r cyfrifon	43
Datganiad Busnes Blynyddol	93
Rhestr Termau	95
Cyfeiriadau'r canghennau	99

Datganiad y Cadeirydd

Cadeirydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Dyfrig John

Blwyddyn lwyddiannus arall yn y Principality. Rydym wedi sicrhau hyn trwy ymroi ymhellach i'r Stryd Fawr yng Nghymru, gan ddatblygu mwy o gynhyrchion i'n Haelodau a sicrhau, trwy berfformiad cryf a sefyllfa gyfalaf iach, ein bod yn parhau i weithio'r un mor ddiwyd tuag at y nod o ddiwallu anghenion ein Haelodau.

Ni yw seithfed gymdeithas adeiladu fwyaf y DU ac mae gennym asedau o dros £6.4 biliwn a nod allweddol ac eglur o wneud cyfraniad cadarn at economi Cymru trwy ein rhwydwaith o 66 o ganghennau ac asiantaethau.

Yn 2011, serch yr amgylchedd economaidd caled, cawsom ganlyniadau rhagorol gan sicrhau elw o £24.5 miliwn cyn treth (2010: £30.8 miliwn) sy'n cyfnerthu ein sefyllfa gyfalaf ymhellach.

Llwyddiannau allweddol

Ar eich stryd fawr

Mae ein perfformiad ariannol iach wedi ein galluogi i barhau i fuddsoddi'n gryf yn nyfodol y busnes, ac yn enwedig yn ei wasanaethau uniongyrchol ar gyfer y cwsmeriaid. Ym mis Ebrill eleni, agorodd y Gymdeithas ei 52fed cangen, yn Nhrefynwy, gan gynnal parti arbennig ar gyfer y gymuned leol i ddathlu'r lansiad. Mae cangen y Principality yn Nhrefynwy yn cynnig dewis, amrywiaeth a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid ar y stryd fawr. Mae hefyd yn gartref i 'pa black', sef adran eiddo newydd gan asiantaeth dai Peter Alan, ac felly yn cynnig gwasanaeth cyflawn o ran arian ac eiddo. Hefyd, ym mis Medi, agorwyd 14eg cownter asiantaeth y Gymdeithas, yng Nghaernarfon.

Buddsoddi mewn technoleg

Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol a diwallu anghenion parhaus ein Haelodau, rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn technoleg yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at wefan newydd sydd wedi'i dylunio i gynnig un llwyfan rheoli arian y bydd ein Haelodau i gyd yn gallu ei ddefnyddio i adolygu eu cyfrifon Principality i gyd. Cydnabuwyd llwyddiant y wefan yn genedlaethol, wrth iddi ennill dwy wobr fawreddog am 'Wefan Busnes Proffesiynol y Flwyddyn' yng Ngwobrau Sitecore a 'Strategaeth Farchnata Gwasanaethau Ariannol Orau' yng Ngwobrau'r Diwydiant Marchnata.

Cynilion Busnes

Mae adran fasnachol y Principality wedi ehangu ei phortffolio cynhyrchion gan lansio Cynilion Busnes, ac mae wedi treblu adneuon cynilion busnes ers dechrau 2011. Talwyd dros £150 miliwn ar adnau gan fusnesau ledled Cymru a'r DU. Dyma arwydd eglur arall gan ein cwsmeriaid, personol a busnes, ein bod yn cynnig gwerth da am arian a man diogel i'w cyllid.

pa black

Lansiodd Peter Alan, ein his-gwmni asiantaeth dai, wasanaeth newydd ym mis Ionawr 2011, sef 'pa black'. Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i gynorthwyo gyda phrynu a gwerthu eiddo pen uchaf y farchnad yn ne-ddwyrain Cymru. Gan gydnabod y twf mewn galw am eiddo gwerth uwch mewn ardaloedd llewyrchus ym mhob cwr o'r wlad, mae 'pa black' wedi cyfuno gwasanaeth sy'n cael ei yrru gan gysylltiadau a'r dechnoleg fwyaf arloesol ym maes marchnata eiddo, i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i brynwyr a gwerthwyr yn y farchnad hon, sy'n arbenigol ond yn tyfu. Yn 2011, enillodd Peter Alan wobr fawreddog y Sunday Times ar gyfer 'Gwerthwr Tai Canolig Gorau Cymru 2011' a'r Wobr Gwerthwyr Tai ar gyfer 'Asiantaeth Arwerthu'. Mae hwn yn glod rhagorol mewn marchnad anodd iawn, a hoffem longyfarch y tîm yng nghwmni Peter Alan.

Noddwyd gwisg Carfan Rhwyfo Ieuenctid Cymru gan y Principality fel rhan o ymrwymiad parhaus y Gymdeithas i gefnogi cymunedau ledled Cymru

Ein Haelodau

Mae cydfuddiannu yn seiliedig ar egwyddorion partneriaeth ac rydym o'r farn mai gwrando arnoch chi, ein Haelodau, yw conglfaen y broses o wella profiad y cwsmer trwy wella prosesau, datblygu cynhyrchion ac arloesi. Rhan ganolog o gynnal perthynas o ymddiriedaeth yw ymgysylltu â'n Haelodau, gan eich hysbysu am ein cyfeiriad strategol a sicrhau bod cyfarwyddwyr a rheolwyr y Gymdeithas yn atebol.

Yn 2011, parhawyd ein sesiynau 'Member Talkback' - lle gall Aelodau gyfarfod ag aelodau allweddol y Bwrdd, gofyn cwestiynau a thrafod newidiadau rydym yn eu cynllunio. Eleni, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Aelodau yn y gorllewin (Hwlffordd), yn y gogledd (Conwy) ac yn y dwyrain (Brynmawr). Rydym hefyd wedi sefydlu Fforwm Aelodau, sef panel o 12 Aelod sy'n cyfarfod â'r tîm Gweithredol ddwywaith y flwyddyn i gynrychioli safbwyntiau cwsmeriaid. Hoffem ddiolch i'r fforwm eleni am y cyfraniadau gwerthfawr y maent wedi'u gwneud at ein busnes.

Trwy gydol 2011, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n haelodau staff, ein Haelodau a'n cwsmeriaid i ddarganfod mwy am eich barn am y Principality a'r hyn y gallem ei wneud yn ychwanegol i fodloni a rhagori ar eich disgwyliadau. Rydym yn cydnabod yn llawn na fyddai'r Gymdeithas yn bodoli heboch chi, ac rydym yn hynod ddiolchgar am eich holl sylwadau.

Y Gymuned

Mae gan y Gymdeithas hanes hirfaith o gymryd rhan yn y gymuned a rhoi rhywbeth yn ôl i'r rhanbarth. Cyflawnir hyn trwy ei chynllun ymrwymiad cymunedol ar gyfer y canghennau, ei phortffolio noddi a'i pholisi o enwebu Elusen y Flwyddyn. Dewisodd aelodau staff gefnogi gwasanaeth brys Ambiwlans Awyr Cymru fel eu helusen benodol ar gyfer 2011 a dechreuwyd codi arian yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas ym mis Ebrill, wrth i'r Gymdeithas roi £20,000 i'r elusen. Mae aelodau'r staff wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau amrywiol i godi arian, o dorri record y byd ar gyfer 'gornest ddartiau sengl hiraf y byd', i gyfnewid swyddi i fod yn geidwaid sw am y diwrnod yn Sw Mynydd Cymru ym Mae Colwyn a phedalu beic ymarfer ar y trên First Great Western o Abertawe i Paddington Llundain. Rwy'n hynod falch bod ein haelodau staff wedi llwyddo i godi cyfanswm o £31,000.

Mae aelodau staff wedi rhoi eu hamser, eu hegni a'u cefnogaeth i brosiectau cymunedol lleol hefyd, gan gynorthwyo i roi hwb i dimau pêl-droed lleol yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug a helpu Carfan Rhwyfo Ieuenctid Cymru i gyrraedd y Regata Ryngwladol Gartref. I ddathlu agor ein cangen yn Nhrefynwy, rhoddodd y Gymdeithas hwb ariannol i elusen annibynnol Cymru, Bridges, i'w chynorthwyo i ailwampio'r fynedfa i'w chanolfan gymunedol yn Nhŷ Drybridge. Mae hyn wedi creu derbynfa gynnes a chroesawgar i'w ymwelwyr lu.

Mae'r Principality hefyd wedi ehangu ei rhaglen nawdd eang â'r nod o hyrwyddo a chefnogi bywyd cymdeithasol a chymunedol, galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a chefnogi creadigrwydd ac annog goreuon Cymru mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Tyfodd y rhaglen nawdd eleni i gynnwys Clwb Criced Morgannwg, Pencampwriaeth Golff Agored Ieuenctid Cymru ac Only Boys Aloud - menter sydd wedi rhoi cyfle i 200 o fechgyn o gymoedd y de ganu cymysgedd o gerddoriaeth gorawl fodern a thraddodiadol mewn lleoliadau cymunedol ym mhob cwr o Gymru.

Sgriniau digidol arloesol i arddangos eiddo yn pa black

Lansiwyd Only Boys Aloud i hybu hunan-barch, hyder ac uchelgais, a rhoi canolbwynt newydd i fywydau gwŷr ifanc yng nghymoedd y de. Y syniad oedd gwneud gwahaniaeth i unigolion a, thrwy hyn, gyfoethogi eu hysgolion, eu cymunedau ehangach, a bywyd cerddorol Cymru yn y pen draw. Y nod ehangach oedd tyfu gwaith Only Men Aloud, sy'n sefydliad â hanes o arloesi. Mae'r bartneriaeth wedi llwyddo'n rhagorol i harneisio pŵer y celfyddydau i ymgysylltu â phobl ifanc ac fe'i cydnabuwyd yng Ngwobrau Celfyddydau a Busnes Cymru 2011 pan enillwyd y wobr ar gyfer 'Celfyddydau, Busnes a Phobl Ifanc' gan y Principality.

Ar ôl noddi Eisteddfod Genedlaethol Cymru ers deng mlynedd ar hugain, rhoddodd y Gymdeithas gefnogaeth eleni i Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Môn a Sioe Flodau yr Amwythig, ynghyd â'i chefnogaeth hirdymor arall i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru.

Ein Bwrdd

Mae Bwrdd y Principality yn grŵp o unigolion hynod brofiadol sydd wedi sicrhau bod buddiannau ein holl Aelodau yn cael eu hamddiffyn yn dda yn ystod oes economaidd lawn her. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt am yr ymroddiad, yr ymdrech a'r amser ychwanegol sylweddol a roddwyd ganddynt yn ystod 2011. Gadawodd ein Dirprwy Gadeirydd, Christopher Rowlands, y Bwrdd ym mis Medi 2011 i ddilyn cyfleoedd busnes dramor, ond hoffwn ddiolch yn benodol i Chris am y cyfraniad cryf iddo ei wneud at y Bwrdd yn ystod ei amser gyda'r Gymdeithas. Hefyd, ac ar ran y Bwrdd cyfan, hoffwn ddiolch i holl gyflogeion Grŵp y Principality am eu gwaith caled parhaus. Heb eu hymroddiad, ni fyddai'r Principality yn fusnes cryf, sy'n ffynnu fel ag y mae heddiw.

Rhagolygon ar gyfer 2012

Bydd gofyn parhau i fod yn wyliadwrus o heriau presennol a heriau newydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r posibilrwydd o gyfnod llawer caletach yn ein hwynebu gartref ac yn Ewrop – mae'n sicr bod cyflymder yr adferiad wedi arafu. Rydym yn cydnabod bod cyllidebau cartrefi dan fwy o straen nag erioed, ac mae toriadau ar swyddi a gwariant eisoes wedi cael effaith. Mae'n bosibl iawn y bydd y rhagolygon gwan o ran twf yn effeithio ar brisiau eiddo ledled y DU a Chymru, a gallai hyn niweidio lefelau hyder defnyddwyr, sydd eisoes yn isel.

Mae cefndir o'r fath yn gofyn am ddull gofalus a phwyllog o gynnal ein busnes yn 2012. Rwy'n hyderus bod y cryfder o ran cyfalaf a'r profiad rheoli trylwyr gennym i barhau i'ch gwasanaethu chi, ein Haelodau, ac i sicrhau bod y Principality yn parhau i fod yn flaenllaw ym maes gwasanaethau ariannol Cymru. Byddwn yn parhau i fod yn gyfrannwr cryf at economi Cymru felly ac yn ymroddedig i gefnogi ein cymunedau ym mhob cwr o Gymru.

Dyfrig D. J. John
Cadeirydd
31 Ionawr 2012

Adolygiad y Prif Weithredwr

Prif Weithredwr Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Peter Griffiths

Mae hon yn oes gythryblus ac mae'r storm economaidd fyd-eang yn dal i fod yn enbyd. Mae model cyfalafiaeth wedi cael ei brofi i'r eithaf a cheir tystiolaeth eglur bellach o newid arwyddocaol mewn teimladau cymdeithasol wrth i ni ddychwelyd at werthoedd traddodiadol. Mae cymdeithas yn gofyn a yw 'mwy o'r un fath' yn ymateb ddigon da i'r argyfwng economaidd a'i oblygiadau. O ystyried y cefndir hwn, mae llawer o ddefnyddwyr yn dechrau deffro i'r syniad mai'r ffordd gydfuddiannol yw'r ffordd orau. Adeiladwyd eich Cymdeithas chi, a sefydlwyd dros 150 o flynyddoedd yn ôl, ar sylfeini ei gwerthoedd craidd o ddiwydrwydd, cynildeb, darbodaeth, dyfalbarhad, rhagofal a chymedroldeb, ac mae llawer o'r gwerthoedd hyn yn berthnasol dros ben i'r farchnad gyfredol.

Mae eich Cymdeithas wedi perfformio'n gryf yn yr amgylchiadau economaidd presennol, ac mae'n eglur bod ein Haelodau yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o gynhyrchion, y gwasanaethau a'r hyblygrwydd rydym yn eu darparu, yn ogystal â'r ffaith eu bod ar gael yn lleol. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymddiriedaeth a'u ffyddlondeb. Er bod rhai heriau byrdymor sylweddol o'n blaenau, rwyf o'r farn gadarn bod y llwyfan gennym i ffynnu yn y dyfodol ac adeiladu ein busnes ymhellach.

Nid yw'r heriau hynny yn rhai newydd, ac maent yn cynnwys marchnad gynilion a morgeisi lawer llai, ac yn enwedig effaith *CP 11/31 Mortgage Market Review*: *Proposed package of reforms*, a gofynion rheoleiddio uwch o ran cyfalaf a hylifedd. Mae costau cyllido yn parhau i gynyddu wrth i fanciau a chymdeithasau adeiladu gydnabod a chystadlu am y cwsmer stryd fawr sy'n fwy prin ond yn fwy dibynadwy. Mae effaith cyfraddau llog 'is am gyfnodau hirach' yn parhau i achosi pryder i gynilwyr ond mae'n cynnig rhywfaint o ryddhad i fenthycwyr. Rydym yn cydnabod yr holl heriau hyn ac yn ceisio cefnogi ein Haelodau sy'n benthyca ac yn cynilo yn ystod cyfnod o galedi ac ansicrwydd ariannol.

Masnachu 2011

Rwy'n fodlon ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd 2011 yn flwyddyn dda iawn arall o ystyried yr amgylchiadau anodd i ni eu hwynebu. Roedd ein canlyniadau ariannol yn gryf ac mae ein mantolen yn sefydlog ac mewn sefyllfa dda. Rydym yn parhau i edrych ymlaen â hyder ac optimistiaeth bwyllog ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn nyfodol eich Cymdeithas.

Rydym hefyd yn parhau i geisio cydbwyso gofynion ein holl randdeiliaid ac rwy'n hynod falch o allu dweud bod ein sgôr ymhlith y gorau yn y sector gwasanaethau ariannol yn y DU pan fyddwn yn meincnodi parodrwydd ein cwsmeriaid i argymell y Principality. Mae bodlonrwydd aelodau staff ar ei uchaf erioed a cheir lefelau ymddiriedaeth uchel iawn yn ein brand o hyd. Mae hyn oll yn darparu'r sail gadarn ar gyfer datblygu ein busnes ymhellach yn y blynyddoedd sydd i ddod. £1 biliwn oedd y ffigur ar gyfer benthyciadau newydd gros ac roedd darpariaethau ar gyfer dyledion drwg ar lefelau is na'r disgwyl. Mae cyfalaf cadarn a lefelau hylifedd uchel yn nodweddion nodedig ar ein mantolen. Mae'r nodweddion allweddol ar gyfer 2011 yn cynnwys:

- Elw cyn treth o £24.5 miliwn (2010: £30.8 miliwn)
- Lefelau bodlonrwydd rhagorol ymhlith cwsmeriaid
- Cymarebau cyfalaf cadarn, a chymhareb Haen 1 o 13.49% (2010: 13.34%)
- Croesawu dros 38,000 o gwsmeriaid newydd i'r Gymdeithas
- 96.1% (2010: 101.6%) o fenthyciadau wedi'u cyllido gan adneuon cwsmeriaid
- Cymhareb cost/incwm o 52.7% (2010: 48.1%)
- Dyroddiad llwyddiannus Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl o £814.0 miliwn

Aelodau Only Men Aloud a thîm Criced Morgannwg yn torri'r gacen yn agoriad cangen Trefynwy gyda Francis Hayter, Rheolwr y Gangen

Darlun cyffredinol o'r Grŵp

Gostyngodd elw'r Grŵp cyn treth o £30.8 miliwn i £24.5 miliwn, gan adlewyrchu costau cyllido uwch a darpariaeth ar gyfer ardoll ddisgwyliedig o £1.5 miliwn (2010: £0.5 miliwn) i'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol. Cofnodwyd elw gan ein holl fusnesau yn ystod y flwyddyn ac maent i gyd mewn sefyllfa dda i ymdrin â'r adferiad pan y daw. Mae gennym gryfder a dyfnder yn ein tîm gweithredol a'n uwch dîm rheoli ac rydym yn parhau i ddenu'r sgiliau sydd eu hangen i redeg y busnes ac ymdrin â'r heriau arwyddocaol a gyflwynir gan amgylchiadau presennol y farchnad a gofynion rheoleiddio cynyddol.

Mae amgylchiadau'r farchnad wedi gwaethygu ers 2010. Chwalwyd y freuddwyd o adferiad cynnar ac rydym yn parhau i gymryd camau pwyllog trwy dir hynod ansicr. Mae'n anodd dros ben cynllunio dyfodol pendant yn y byd ansicr sydd ohoni. Rydym yn parhau i adolygu ein cynllun strategol yn rheolaidd a dileu risgiau yn ein busnes lle mae hynny'n bosibl. Byddwn yn ceisio gweithredu er lles ein Haelodau bob amser ac nid yw ein hymroddiad i ddyfodol cydfuddiannol wedi lleihau.

Mae rheolau cyfalaf mwy soffistigedig yn gorfodi llawer o gwmnïau i ailasesu eu modelau busnes cyfredol ac ni welwyd eto pa effaith y bydd y diwygiadau i gwmnïau gwasanaethau ariannol a nodir yn Adolygiad y Comisiwn Annibynnol ar Fancio yn ei chael.

Tyfodd y busnes Cymdeithas Adeiladu craidd rhyw fymryn yn ystod y flwyddyn tra bod llawer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn parhau i leihau eu mantolenni mewn ymdrech i fodloni cymarebau mantolenni rheoliadol llymach. Byddwn yn parhau i ddilyn polisi o dwf isel yn ystod 2012 a byddwn yn canolbwyntio mwy ar ein hymdrechion i droi'r gymdeithas adeiladu yn ôl at adeiladu wrth i ni weithio'n agos â llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion arloesol i ddiwallu anghenion tai ledled Cymru.

Er gwaethaf yr ansicrwydd mewn marchnadoedd ariannol, llwyddodd y Gymdeithas i ddyroddi Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl gwerth £814.0 miliwn yn ystod yr hydref, gan ddwyn i mewn £500.0 miliwn o gyllid sy'n cryfhau hylifedd wrth symud i'r dyfodol. Mae gennym dystiolaeth eglur o deimladau cadarnhaol ymhlith buddsoddwyr cyfanwerthu tuag at ein busnes ac, o ganlyniad, nid oes angen i ni geisio sicrhau cynilion manwerthu ymylol â phrisiau uchel. Rydym wedi cynnal ein llyfr cynilion yn unol â lefelau 2010 yn gyffredinol, ac rydym yn parhau i fod yn ochelgar a chyllido ein holl fenthyca bron trwy gynilion Aelodau.

Rydym yn gweithio'n galed i gefnogi benthycwyr sy'n cael trafferthion ariannol ac mae'r strategaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus.

Wrth i'r newid cymdeithasol ymsefydlu, mae'n bwysig ein bod yn parhau i gadw golwg ar deimladau a gofynion Aelodau. Rydym wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn i wneud hynny fel y gallwn gynnig ymateb priodol i anghenion Aelodau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym wedi ymgysylltu'n ymarferol ag Aelodau ledled Cymru ac mae sawl thema allweddol wedi codi o'n gwaith ymchwil, sef:

- Mae Aelodau yn disgwyl i ni fod yn fwy hyblyg yn ystod yr oes eithriadol hon, gan ddeall yr angen i'n dull gwaith fod yn gyson.
- Rydym yn mwynhau ac wedi haeddu lefelau ymddiriedaeth uchel gan ein Haelodau ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn amddiffyn hyn.
- Fe'n gwerthfawrogir am fod yn 'lleol' ac am gefnogi ein cymunedau a'r economi leol.

Yn dilyn y gwaith ymchwil hwn, rydym yn cymryd camau ymarferol i adolygu polisïau, gweithdrefnau a rhai o'n ffioedd a'r taliadau a godwn. Un ymateb a gafwyd ar unwaith fu gostwng nifer o ffioedd yn ogystal â chael gwared ar rai eraill.

Lansio Elusen y Flwyddyn 2011 gyda Bryn Terfel a staff o ogledd Cymru

Rydym yn dal i fod yn bendant bod cyngor wyneb yn wyneb y gellir ymddiried ynddo, ac a ddarperir o'r stryd fawr yn y ffordd draddodiadol, yn ofyniad allweddol i'n Haelodau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod hefyd bod Aelodau yn y DU ehangach yn dymuno cynnal trafodion â ni trwy gyfrwng technoleg ac rydym yn ceisio cynnig cyfuniad o 'friciau a chliciau' i fodloni gofynion ein holl Aelodau.

Mae ein busnes Masnachol yn parhau i wneud elw gyda llyfr benthyca o ansawdd. Mae gwerthoedd eiddo masnachol wedi gostwng ac rydym wedi cydnabod pryderon presennol y farchnad yngly^n â phrisio yn ein ffigurau darpariaeth. Er bod cymarebau benthyciad a gwerth wedi cynyddu rhyw fymryn yn gyffredinol, adeiladwyd ein llwyddiant masnachol ar fodel perthynas traddodiadol. Mae ein benthyca wedi bod yn seiliedig ar fodel llif arian parod a gallu i ad-dalu erioed, yn hytrach na chymarebau benthyciadau a gwerth yn unig. Er nad ydym yn hunanfodlon, rydym o'r farn bod pryderon yngly^n â phrisiadau a'r potensial i ddiffygdalu yn y dyfodol wedi'u cydnabod yn briodol. Rhoddwyd strategaeth fwriadol ar waith yn ystod y flwyddyn i leihau amlygiad y Grw^p yn y busnes Masnachol, ac adlewyrchir hyn yn y gostyngiad mewn balansau. Rydym yn dechrau gweld arwyddion bach ond calonogol o gyfleoedd datblygu yn dod i'r amlwg unwaith eto wrth i hyder ddychwelyd i rai rhannau o'r farchnad fasnachol. Mae ein cynnyrch cynilion masnachol wedi bod yn llwyddiant ysgubol wrth i'r llyfr dreblu o ran maint yn ystod y flwyddyn, i £152.4 miliwn.

Parhaodd ein busnes benthyciadau gwarantedig, Nemo, i berfformio'n dda, gan wneud elw cryf. Roedd y perfformiad masnachu bron yn union yr un fath â 2010. Gostyngodd prisiau tai rhyw fymryn; ond fe wnaeth lefelau diffygdalu wella. Ceir llawer o alw gan ddefnyddwyr am fenthyciadau o'r natur hon o hyd ac mae'r hafaliad risg/enillion yn un deniadol. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom leihau'r llyfr rhyw fymryn, ac mae gwerthiant portffolios benthyciadau i fanc buddsoddi mawr yn dangos hylifedd yn y dosbarth asedau hwn.

Yn dilyn canlyniad yr Adolygiad Barnwrol o ddull arfaethedig yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol o asesu ac unioni cwynion yn ymwneud â gwerthu Yswiriant Diogelu Taliadau, rydym wedi neilltuo darpariaeth ychwanegol o £9.3 miliwn wrth i ni weithio drwy'r broses adfer. Er gwaethaf hyn, cofnodwyd elw cyn treth o £13.3 miliwn gan fusnes Nemo ar ôl darparu ar gyfer y taliadau posibl hyn.

Mae amgylchiadau'r farchnad yn parhau i gyflwyno her i'n hasiantaeth dai, Peter Alan, a chaiff y rhain eu sbarduno'n bennaf gan ansicrwydd defnyddwyr a diffyg cynnyrch morgais ar gyfer y prynwr tro cyntaf yn benodol. Fel ymateb i'r materion hyn, rydym wedi parhau i dyfu ein busnes gosod eiddo yn frwd fel strategaeth gwrth-gylchol ac rydym bellach yn rheoli 1,200 eiddo, sy'n gynnydd o 50% o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r busnes gosod eiddo wedi perfformio'n aruthrol o dda yn ystod y flwyddyn, ac mae gennym gynlluniau i barhau i'w gynyddu'n gryf. Yn y busnes asiantaeth dai, rydym wedi creu'r brand 'pa black' yn ystod y flwyddyn i ehangu ein hôl-troed yn yr adran hon, gan ddarparu brand gwasanaeth premiwm ar gyfer eiddo gwerth uwch.

Rydym wedi cynnal nifer o gynlluniau datblygu eiddo, â chryn lwyddiant, yn ein hystâd ein hunain yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys menter i droi ystafelloedd gwag uwchben canghennau Peter Alan a'r Principality yn fflatiau ar gyfer tenantiaid lleol. Cafodd lloriau un i bedwar Adeiladau'r Principality eu newid yn westy yn ystod 2011, a'u gosod i Travelodge Hotels Limited ym mis Ionawr 2011. Mae hyn wedi bod yn hynod boblogaidd a bydd y cynllun yn parhau yn ystod 2012.

Mae ein busnes Syrfëwyr wedi perfformio yn well na'r cynllun ac mae'r symiau gwaith yn gyson â'n disgwyliadau, ond mae'r ffaith bod y galw am forgeisi yn parhau i fod yn isel yn rhwystro'r busnes hwn rhag gwireddu ei botensial.

Carfan Cymru ar gyfer Pencampwriaeth RBS y 6 Gwlad yn 2012 yng ngwisg Uwch Gynghrair y Principality o ddechrau eu gyrfa

Rhagolygon

Nid yw ein busnes wedi ei ynysu rhag problemau parhaus yn yr economi fyd-eang ac economi'r DU. Mae hyder yn fregus ac mae'r flwyddyn nesaf yn debygol o fod yn un anodd. Byddwn yn disgwyl i lefelau elw gael eu heffeithio yn 2012 wrth i'r pris a delir i sicrhau cyllid manwerthu a chyfanwerthu gynyddu. Er bod hyn yn newyddion da i gynilwyr, mae'n rhaid i fenthycwyr ysgwyddo'r gost a bydd credyd yn parhau i fod yn ddrud ac yn gyfyngedig. Mae hynny wedyn yn awgrymu y bydd galw am fenthyciadau ar draws ein holl fusnesau yn parhau i fod yn isel. Gallai lefelau trafodion tai gymryd rhagor o amser i wella gan olygu goblygiadau yn y tymor byr i'n busnesau asiantaeth dai a Syrfëwyr.

Byddai'n rhesymol disgwyl i brisiau tai ostwng eto rhyw fymryn, a cheir posibilrwydd o rai gostyngiadau mwy mewn ardaloedd daearyddol gwannach. Cyfraddau llog fydd y ffactor allweddol a byddwn yn disgwyl i amgylchedd 'is am gyfnod hirach' barhau yn ystod y flwyddyn nesaf. Byddai unrhyw gynnydd cyflym ac annisgwyl mewn cyfraddau yn arafu marchnad dai sy'n dioddef eisoes, gan arwain at oblygiadau o ran fforddiadwyedd a lleihad mewn gwerth.

Mae'r ffaith fod ein busnes yn un mor amrywiol yn cynnig rhywfaint o gadernid ac yn caniatáu i ni fod yn ofalus optimistig. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y busnes er mwyn sicrhau bod eich Cymdeithas mewn sefyllfa dda at y dyfodol. Byddwn hefyd yn ceisio gwerthuso a buddsoddi mewn cyfleoedd twf a allai ddod i'r amlwg.

Gwerthfawrogir eich ymroddiad chi, ein Haelodau, a thîm y Principality, yn fawr iawn.

Peter L. Griffiths
Prif Weithredwr
31 Ionawr 2012

Adolygiad busnes
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Darlun cyffredinol o'r datganiad incwm cynhwysfawr

Elw'r Grŵp cyn treth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2011 oedd £24.5 miliwn (2010: £30.8 miliwn). Dyma oedd yr elw sylfaenol, ac eithrio eitemau nad ydynt yn rhai masnachu, a all amrywio'n sylweddol o ran eu natur a'u gwerth o flwyddyn i flwyddyn:

	2011 £m	2010 £m
Elw cyn treth	24.5	30.8
Elw wrth ailbrynu rhwymedigaethau isradd	(1.0)	(3.1)
Elw wrth werthu giltiau	(0.8)	(6.3)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau eraill	11.2	17.1
Elw sylfaenol	**33.9**	**38.5**

Elw

Elw llog net

Incwm llog net yw'r swm a enillir ar asedau (cyfuniad o forgeisi manwerthu, morgeisi masnachol ac asedau hylifol) namyn rhwymedigaethau (cynhyrchion cynilo a benthyciadau) wedi'i rannu â chyfanswm cyfartalog yr asedau. Mae elw llog net y Grŵp, sef 1.65% (2010: 1.79%), yn parhau i gael budd o'r elw uwch a enillwyd yn y busnes benthyca personol.

Aethpwyd i'r afael â'r ffaith nad yw cyllid cyfanwerthu uwch nad yw wedi'i warantu ar gael o hyd trwy gyflwyno Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl yn ystod y flwyddyn. Mae cost cyllid manwerthu yn cynyddu a chafodd y lefelau elw eu gwasgu rhywfaint yn ystod y flwyddyn oherwydd ein bod yn meddu ar fwy o warannau sofran sy'n cynnig llai o elw. Gwnaed iawn i ryw raddau am y ffaith fod cost cyllido'n uwch gan yr elw uwch a wnaed ar forgeisi a benthyciadau newydd. Bydd cost uchel cyllido yn parhau i leihau lefelau elw, sy'n dal i fod yn risg allweddol i'r Grŵp, ond yn un y gellir ei rheoli.

Cynyddwyd yr elw llog net yn sgil enillion o £0.8 miliwn (2010: £6.3 miliwn), sy'n cyfateb i 1bps (2010: 6bps) yn deillio o'r elw wrth werthu giltiau.

Incwm arall

Mae incwm y Grŵp nad yw'n dwyn llog, sef £20.6 miliwn (2010: £17.1 miliwn), yn cynnwys incwm yswiriant, incwm asiantaeth dai, incwm gwasanaethau eiddo ac incwm a gynhyrchir drwy nifer o weithgareddau ategol eraill. Gyda'i gilydd, cynhyrchodd y rhain 16.44% (2010: 13.25%) o gyfanswm yr incwm. Mae'r perfformiad o ran gwerthu ac adnewyddu cynhyrchion yswiriant bywyd, buddsoddi a chyffredinol 1.73% yn uwch na'r llynedd ac mae'n cyfrif am 26.04% (2010: 31.42%) o'r incwm arall. Mae incwm rhent eiddo wedi cynyddu 52.61% i £0.8 miliwn o ganlyniad i osod lloriau un i bedwar Adeiladau'r Principality i Travelodge Hotels Limited ddechrau'r flwyddyn. Cafwyd cynnydd ychwanegol mewn incwm ffioedd o'r portffolio benthyca masnachol lle yr ailstrwythurwyd nifer o fenthyciadau ar ôl iddynt aeddfedu.

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd yr is-gwmni benthyciadau personol gwarantedig i werthu portffolios gwerth cyfanswm o £48.1 miliwn gan wneud elw o £1.4 miliwn yn ystod y flwyddyn. Mae'r Grŵp wedi cadw'r hawliau cynnal ar gyfer yr asedau hyn, gan sicrhau ffrydiau incwm yn y dyfodol. Yn gyffredinol, trosglwyddwyd holl risgiau ac enillion yr asedau wrth eu gwerthu. Datgydnabuwyd yr asedau hyn o'r datganiad o sefyllfa ariannol y Grŵp.

Mae incwm gwasanaethau eiddo a gosod eiddo 17.55% yn uwch na'r llynedd wrth i'r asiantaeth dai a'r busnes gosod eiddo berfformio'n dda. Lansiwyd brand 'pa black' yn ystod y flwyddyn gan dargedu gwasanaeth asiantaeth dai premiwm ar gyfer eiddo gwerth uwch. Mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol, wrth i'r brand gynorthwyo i yrru incwm y dyfodol gan fod y mathau hyn o eiddo yn gwneud elw uwch fel rheol.

Treuliau gweinyddol

O ganlyniad i fuddsoddiadau strategol i ehangu galluoedd e-fasnach y Gymdeithas, gan gynnwys gwefan newydd, ynghyd â buddsoddiadau allweddol eraill yn Principality Property Solutions a brand 'pa black', mae'r gymhareb treuliau gweithredu fel canran o gyfanswm yr asedau cymedrig wedi cynyddu i 1.04% (2010: 1.00%). Y gymhareb cost ac incwm oedd 52.7% (2010: 48.1%). Rydym yn gwneud ymdrech ymwybodol i barhau i fuddsoddi'n strategol er mwyn sicrhau bod ein ffrydiau incwm yn fwy amrywiol a chynnig gwerth hirdymor.

Mae effaith y cynnydd mewn TAW o 17.5% i 20.0%, na ellir ei adfer ar y cyfan, wedi cynyddu costau o dros £0.4 miliwn o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Darpariaethau lleihad mewn gwerth ar gyfer colledion ar fenthyciadau a blaensymiau

£24.6 miliwn (2010: £22.2 miliwn) oedd y taliad ar gyfer darpariaethau lleihad mewn gwerth ar gyfer y Grŵp, sef £2.4 miliwn yn uwch na'r llynedd.

	2011 £m	2010 £m
Gwasanaethau ariannol manwerthu	4.3	2.8
Benthyca masnachol	7.0	9.6
Benthyca personol gwarantedig	13.3	9.8
Cyfanswm	**24.6**	**22.2**

Er bod cyfanswm y taliad lleihad mewn gwerth ar fenthyciadau preswyl yn y gwasanaethau ariannol manwerthu a benthyca personol gwarantedig £5.0 miliwn yn uwch na'r llynedd, mae cyfraddau ôl-ddyledion yn sefydlog a symiau'r dyledion a ddilëwyd yn gyffredinol debyg. Tybiaethau lleihad mewn gwerth mwy pesimistaidd yw'r rheswm am y cynnydd hwn, a hynny'n ymwneud â gostyngiadau yn sgil gwerthu gorfodol a phrisiau tai is gan adlewyrchu'r amgylchedd economaidd cyfredol. Adolygwyd cyfrifon sy'n destun gweithgarwch ymatal rhag blaen-gau ar wahân i'w cynnwys mewn cyfrifiadau lleihad mewn gwerth am y tro cyntaf, gan gydnabod darpariaeth ychwanegol o £0.5 miliwn. Mae'r gymhareb gyfartalog rhwng benthyciad a gwerth (LTV), sef 62.6% (2010: 61.6%) o ran yr arwystl cyntaf a'r ail arwystl ar fenthyciadau preswyl 1.0% yn uwch na'r llynedd oherwydd bod prisiau tai wedi gostwng rhyw fymryn.

Mae amgylchiadau'r farchnad ar gyfer Adran Benthyca Masnachol yn dal i fod yn anodd. Bu nifer fach o ddiffygdaliadau yn ystod y flwyddyn, a'r rheiny wedi'u sbarduno'n bennaf gan fethiannau tenantiaid ac anallu benthycwyr i wneud eu taliadau o ganlyniad. Oherwydd y gostyngiad mewn gwerthoedd eiddo masnachol a phreswyl yn ystod y blynyddoedd diweddar, ceir cohort o fenthyciadau sydd mewn ecwiti negyddol hefyd; fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, mae'r llifau arian parod a gynhyrchir gan yr eiddo a gedwir fel gwarant neu adnoddau eraill benthycwyr yn golygu y gellir parhau i wneud yr ad-daliadau cytundebol.

2.11% (2010: 1.52%) o falansau oedd y lleihad mewn gwerth cronnus ar forgeisi gwarantedig ar eiddo masnachol. Wrth asesu lefel briodol y darpariaethau Benthyca Masnachol, ystyrir yr holl sefyllfaoedd lle ceir straen ariannol gwirioneddol neu dybiedig. Mae'r rheolwyr yn canolbwyntio'n agos iawn ar bob benthyciad o'r fath, er mwyn sicrhau y rheolir sefyllfaoedd yn ofalus ac yr asesir y potensial ar gyfer colledion yn realistig ac yn geidwadol. Rhoddir cydgynlluniau gweithredu ar waith gyda benthycwyr lle bynnag y bo hynny'n bosibl, er mwyn lleihau tebygolrwydd a graddfa diffygdaliadau cymaint â phosibl.

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill

Codwyd darpariaeth o £1.5 miliwn yn ystod y flwyddyn o ran ardoll y Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol sy'n daladwy ym mis Medi 2013. Ceir rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â gweithrediad y cynllun yn y dyfodol a maint yr ardollau sy'n daladwy y tu hwnt i fis Mawrth 2012.

Gwnaed darpariaethau eraill o £9.7 miliwn (2010: £17.1 miliwn) o ran hawliadau amrywiol gan gwsmeriaid, gan gynnwys hawliadau yn ymwneud â gwerthu Yswiriant Diogelu Taliadau yn y gorffennol. Disgwylir y bydd unrhyw rwymedigaeth yn cael ei wireddu ar y cyfan yn ystod y flwyddyn nesaf.

Mae rhagor o wybodaeth am lefel y darpariaethau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â hwy ar gael yn nodiadau 2 a 39.

Deilliadau a chyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Cofnodir yr holl ddeilliadau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth teg gan nodi unrhyw symudiadau prisio yn y datganiad incwm. Dim ond i'r graddau yr effeithir ar y Grŵp gan newidiadau mewn cyfraddau llog neu fynegeion eraill y farchnad y defnyddir deilliadau, ac felly fe'u defnyddir yn unig i ragfantoli ar gyfer amlygiad i risgiau ac nid at ddibenion hapfasnachol.

Mae'r credyd o £0.1 miliwn (2010: credyd o £0.2 miliwn) sy'n gysylltiedig ag addasiadau gwerth teg ar ddeilliadau a chyfrifyddu ar sail rhagfantoli yn cynrychioli'r addasiadau gwerth teg net ar offerynnau deilliadol sy'n cyfateb i amlygiadau risg ar sail economaidd. Gwelir rhywfaint o anwadalrwydd ar yr eitemau hyn yn y datganiad incwm oherwydd aneffeithiolrwydd cyfrifyddu offerynnau rhagfantoli dynodedig neu oherwydd na fabwysiadwyd dulliau cyfrifyddu ar sail rhagfantoli neu nad oedd modd eu cyflawni. Daw'r credyd yn bennaf o ganlyniad i wahaniaethau amseru mewn llifau arian parod a dyddiadau ailbennu cyfraddau llog rhwng yr offeryn deilliadol a'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi'u rhagfantoli. Bydd yr effaith yn tueddu tuag at sero dros amser.

Treth

Gostyngwyd cyfradd statudol treth gorfforaeth i 26.0% o 1 Ebrill 2011. Roedd y Grŵp yn destun treth gorfforaeth ar gyfradd o 28.0% ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2011, a 26.0% ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2011, gan arwain at gyfradd treth gorfforaethol statudol effeithiol o 26.5% ar gyfer y flwyddyn lawn yn 2011.

Y gyfradd dreth effeithiol wirioneddol ar gyfer y Grŵp oedd 28.9% (2010: 24.7%), o'i gymharu â'r gyfradd treth statudol o 26.5% (2010: 28.0%). Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau yn deillio'n bennaf o wariant na ellir didynnu treth oddi arno. Mae cymhariaeth y flwyddyn cynt yn cynnwys ailbrynu gwerth £10.0 miliwn o rwymedigaethau isradd, ac ystyriwyd bod yr elw ar y rhain yn anhrethadwy.

Mae'r gostyngiad yng nghyfradd treth gorfforaeth y DU i 25.0% o 1 Ebrill 2012 ymlaen wedi arwain at addasiad treth gohiriedig yn codi o'r gostyngiad yng ngwerth cario'r rhwymedigaeth dreth ohiriedig net a nodwyd yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, i adlewyrchu'r gyfradd dreth y rhagwelir y bydd y rhwymedigaeth yn gwyrdroi ar ôl ei chyrraedd.

Y datganiad o'r sefyllfa ariannol

Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid gan gynnwys ymatal rhag blaen-gau

Mae'r Grŵp yn parhau i roi blaenoriaeth i ansawdd y busnes, gan ganolbwyntio ar fforddiadwyedd a chymarebau LTV wrth warantu benthyciadau a morgeisi. Er bod y meini prawf ar gyfer benthyca'n dal i fod yn gyfyng, mae'r morgeisi arwystl cyntaf preswyl a gwblhawyd wedi cynyddu o 7.00% o gymharu â'r flwyddyn cynt i £809.6 miliwn. Ac eithrio addasiadau gwerth teg, dyma oedd y benthyciadau a'r blaensymiau i gwsmeriaid:

	2011		2010	
	£m	%	£m	%
Gwasanaethau ariannol manwerthu	3,630.2	70.3	3,293.2	67.1
Benthyca masnachol	913.0	17.7	937.9	19.1
Benthyca personol gwarantedig	621.7	12.0	677.7	13.8
Cyfanswm	**5,164.9**	**100.0**	**4,908.8**	**100.0**

Morgeisi prynu i osod yw 20.36% o'r morgeisi yn yr adran gwasanaethau ariannol manwerthu. Mae hyn wedi cynyddu 43.11% yn ystod y flwyddyn yn dilyn strategaeth fwriadol o annog twf. Yr LTV cyfartalog ar gyfer benthyciadau preswyl arwystl cyntaf ac ail arwystl yw 62.6% (2010: 61.6%), ac mae 75.1% dan LTV o 80% a 7.6% mewn ecwiti negyddol.

Prif ystyriaeth y Bwrdd o hyd yw sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy fel bod modd darparu gwerth i'r Aelodau gan gydbwyso'r risgiau sydd yn y portffolios. Rhoddwyd strategaeth fwriadol ar waith yn ystod y flwyddyn i leihau amlygiad y Grŵp yn y portffolios ail arwystl a benthyca masnachol, ac adlewyrchir hyn gan y gostyngiad mewn balansau.

Rydym yn parhau i gefnogi ein Haelodau a'n cwsmeriaid sy'n cael trafferthion ariannol a chytuno ar y camau mwyaf priodol. Gallai camau dros dro yn y tymor byr gynnwys amserlenni talu diwygiedig, seibiau rhag talu neu newid i daliadau 'llog yn unig'. Pan nad yw amserlenni talu diwygiedig yn ddigon i allu gwneud y taliadau misol cytundebol neu lle bydd cwsmer yn methu â bodloni'r telerau talu diwygiedig, bydd yr achos yn parhau i gronni ôl-ddyledion a bydd darpariaethau lleihad mewn gwerth yn cael eu gwneud lle'n briodol.

Os bydd Aelod neu gwsmer yn dangos y gall fodloni amserlen dalu ar gyfradd fasnachol normal am gyfnod o chwe mis, a dim ond os bydd gwneud cais am hyn, gellir 'cyfalafu'r' ôl-ddyledion ar ei gyfrif. Bydd hyn yn arwain at falans mwy i'w dalu ond dim ôl-ddyledion. Yn dilyn hyn, ni adroddir ar yr achosion hyn fel rhai sydd ag ôl-ddyledion, ond byddant yn dal i gael eu hystyried ar gyfer darpariaethau lleihad mewn gwerth.

Mae ein dull o ymdrin ag Aelodau a chwsmeriaid sydd mewn trafferthion ariannol yn golygu na fyddwn yn meddiannu eiddo ond pan fydd popeth arall wedi methu. Meddianwyd 91 eiddo yn ystod y flwyddyn (2010: 74) ac roedd 40 yn dal i fod heb eu gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn (2010: 44).

Trysorlys ac asedau hylifol

Hylifedd, ynghyd â chyllid a chyfalaf, yw'r agweddau allweddol ar reoli risg ariannol. Rhoddodd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (yr FSA) fwy o bwyslais a sylw i hylifedd gan arwain at gyhoeddi datganiad polisi, PS 09/16, yn 2009. Cyflwynodd yr Awdurdod fframwaith rheoli risg ar wahân ar gyfer cymdeithasau adeiladu hefyd, PS 10/5. Un o amcanion allweddol y Grŵp dros y 18 mis diwethaf fu cydymffurfio â'r datganiadau polisi newydd hyn. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Grŵp i gynnal profion straen mewnol ar ei hylifedd ac mae'r rhain yn dangos sefyllfa gref yn gyson ar ôl caniatáu ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd straen difrifol a chamau lliniaru. Tynnir canlyniadau'r sefyllfaoedd hyn ynghyd yn nogfen Asesiad Unigol o Ddigonolrwydd Hylifedd y Grŵp (ILAA) a adolygir gan y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyflwynodd Pwyllgor Basel ar Oruchwylio Bancio gynigion ar gyfer rheoli risg, safonau a monitro hylifedd. Roedd y rhain yn cynnwys metrig straen hylifedd byrdymor, y Gymhareb Maint Hylifedd (LCR), a metrig hylifedd hirdymor, y Gymhareb Cyllido Sefydlog Net (NSFR). Er y bydd y cynigion hyn yn parhau i gael eu mireinio ac nad ydynt wedi cael eu deddfu i gyfraith y DU nac Ewrop eto, adolygir dehongliadau'r Grŵp o'r cymarebau hyn yn fisol gan y Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau.

Yn nodweddiadol, mae asedau hylifol yn cynnwys adneuon arian parod a ddelir gyda banciau canolog a gwarannau dilyffethair y gellir eu gwerthu neu eu hail-ariannu trwy gytundeb ailbrynu (repo) naill ai'n uniongyrchol â'r banciau canolog y mae gan y Grŵp fynediad atynt neu gyda gwrthbartïon eraill yn y farchnad. Er bod asedau hylifol wedi gostwng rhyw fymryn yn ystod y flwyddyn, mae'r gyfran a neilltuwyd i'r 'Byffer Asedau Hylifol' fel y'i diffinnir gan yr FSA yn BIPRU 12, wedi cynyddu o 59.22% i 88.13%. Mae gan 2.40% (2010: 0.84%) o'r asedau hylifol eraill nad ydynt wedi'u neilltuo i'r 'Byffer Asedau Hylifol' statws credyd is nag A yn ôl Fitch. Buddsoddiadau gyda sefydliadau ariannol eraill yw'r rhain fel arfer.

Mae gan y Grŵp werth £514.0 miliwn o Warannau wedi'u Cefnogi gan Forgeisi Preswyl (RMBS) hunan-ddyroddedig, a gellir sefydlu cytundeb ailbrynu ar gyfer gwerth £386.0 miliwn o'r rhain, naill ai'n uniongyrchol â'r farchnad neu â'r banciau canolog y mae gan y Grŵp fynediad uniongyrchol atynt. Maent felly yn cynrychioli hylifedd wrth gefn sydd ar gael i'r Grŵp yn ôl yr angen. Ni chydnabyddir yr asedau hyn yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Mae gan y Grŵp amlygiad gwerth £10.0 miliwn (2010: £10.0 miliwn) i Anglo Irish Bank Corporation Ltd sydd i'w ad-dalu ym mis Mehefin 2012, ac ar hyn o bryd mae gwarant arno dan Gynllun Gwarantu Rhwymedigaethau Cymwys Llywodraeth Iwerddon. Cymeradwyir y cynllun hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd dan reolau cymorth gwladwriaethol Cytuniad y CE. Roedd y cytundeb rhwng llywodraeth Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) ar gyfer cynllun ailstrwythuro

ym mis Tachwedd 2010 yn cynnwys sicrwydd y byddai ei fondiau uwch anwarantedig yn cael eu had-dalu'n llawn. Mae'r ad-daliadau llog i gyd wedi eu talu hyd yma. Yn sgil y ffeithiau hyn, mae'r cyfarwyddwyr o'r farn nad yw'r amlygiad hwn wedi lleihau mewn gwerth. Nid oes gan y Grŵp unrhyw amlygiadau uniongyrchol i Wlad Groeg, yr Eidal, Portiwgal neu Sbaen a dim ond £15.0 miliwn o amlygiadau y tu allan i'r DU, gan gynnwys yr amlygiad Anglo Irish. Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, cynhaliwyd asesiad o wrthbartïon allweddol y Gymdeithas o ran lefelau posibl yr amlygiad anuniongyrchol i economïau dirwasgedig Ardal yr Ewro. Ar ôl cynnal asesiad o'r fath, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oes angen gwneud darpariaethau lleihad mewn gwerth ar gyfer amlygiadau anuniongyrchol i ddyledion sofran Ardal yr Ewro.

Cynhelir adolygiad wythnosol gan Bwyllgor y Trysorlys o risg credyd cyfredol a disgwyliedig, risg hylifedd a risg cyfraddau llog holl asedau'r Trysorlys gyda'r nod o amlygu'r tebygolrwydd o unrhyw anawsterau o ran perfformiad a cholledion yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth gyhoeddedig a ddaw i'r amlwg.

Cyllido

Mae gan y Gymdeithas sylfaen gyllido gref, a chynilion manwerthu yw'r nodwedd amlycaf ohoni. O ganlyniad, prin yr ydym yn dibynnu ar farchnadoedd cyfanwerthu cyllid uwch anwarantedig. Rheolwyd y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ymarferol gan ymateb i farchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu ac yn ystod y flwyddyn sefydlodd y Gymdeithas ddyroddiad Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl (RMBS), sef gwaranteiddiad allanol cyntaf erioed y Gymdeithas. Roedd dyroddiad yr RMBS yn golygu ffurfio endid diben arbennig (SPE) sy'n darparu gwarant i fond amorteiddio o £814.0 miliwn a ddyroddwyd gan y Grŵp ym mis Awst. Dadrestrwyd y bond statws AAA, a ddyroddwyd yn fewnol gan y Gymdeithas fel rhan o'r Rhaglen Bondiau Gwarantedig a throsglwyddwyd gwerth £832.1 miliwn o forgeisi, a oedd wedi eu trosglwyddo'n flaenorol i Principality Covered Bond LLP, yn ôl i'r Gymdeithas.

Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd £764.2 miliwn o fenthyciadau a ddyroddwyd gan y Gymdeithas wedi cael eu trosglwyddo i'r SPE, ac maent yn dal i fod ar ddatganiad o sefyllfa ariannol y Gymdeithas gan ei bod wedi cadw'r risgiau a'r enillion. £814.0 miliwn oedd gwerth wedi'i amorteiddio'r bond, a chadwyd £514.0 miliwn gan y Grŵp.

Er y gystadleuaeth chwyrn yn y farchnad cynilion manwerthu, mae'r Gymdeithas wedi cadw balansau cynilion ar ffigur o £5 biliwn, sef 96.1% (2010: 101.6%) o'r holl falansau morgeisi. Mae cynhyrchion manwerthu cyfradd sefydlog yn cynrychioli 51.78% (2010: 54.81%) o'r holl falansau cynilion.

Mae benthyciadau o farchnadoedd cyfanwerthu wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae benthyciadau'r Grŵp, sy'n 13.96% (2010: 11.03%) o'r holl gyfranddaliadau, adneuon a benthyciadau, yn dangos bod ein dibyniaeth ar farchnadoedd cyfanwerthu yn parhau i fod yn isel. Nid yw'r heriau yn y farchnad gyfanwerthu o ganlyniad i'r argyfwng parhaus yn Ardal yr Ewro wedi effeithio'n uniongyrchol ar y Grŵp.

Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd statws 12 o sefydliadau ariannol y DU gan Moody's, gan gynnwys y Principality, i adlewyrchu ei ddisgwyliad y byddai llai o gefnogaeth eithriadol ar gael gan y Llywodraeth yn y dyfodol. Cyhoeddwyd cam cyntaf adolygiad Moody's, yn mesur cryfder annibynnol sefydliad cyn ystyried cefnogaeth bosibl gan y Llywodraeth, ddechrau mis Awst 2011. Arweiniodd hwn at uwchraddio ein Statws Cryfder Ariannol Banc o D- i D+. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2011, gorffennodd Moody's ei adolygiad o dybiaethau cefnogaeth systemig gan lywodraeth y DU, ac effaith hyn oedd gostwng statws hirdymor y Grŵp o Baa2 i Ba1. Nid yw'r israddio yn adlewyrchu dirywiad yng nghryfder ariannol y Principality a chafodd nifer o sefydliadau ariannol eraill eu hisraddio'n hirdymor ar yr un pryd.

Cyhoeddodd Fitch ym mis Tachwedd 2011, fel rhan o'i adolygiad ehangach o fanciau mwy yn Ewrop sydd â statws cymharol uchel, y dylai statws y Principality aros yr un fath gan nodi proffidioldeb cadarn, llyfr morgeisi cadarn â'r mwyafrif yn forgeisi dethol sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, lefelau cyfalafu da a'r ffaith ei bod yn meddu ar asedau hylifol sylweddol o ansawdd da.

	2011	
	Byrdymor	**Hirdymor**
Moody's	NP	Ba1
Fitch	F2	BBB+

	2010	
	Byrdymor	**Hirdymor**
Moody's	P2	Baa2
Fitch	F2	BBB+

O ystyried y ddibyniaeth isel ar farchnadoedd cyfanwerthu, ni ystyrir bod effaith yr israddio gan Moody's yn arwyddocaol.

Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig

Caewyd y cynllun buddiannau diffiniedig i groniadau pellach ar 31 Gorffennaf 2010 ac fe'i disodlwyd gan y cynllun cyfraniadau diffiniedig gwell, sef Cynllun Ymddeol Hyblyg y Grŵp (GFRP). Cyfrannodd y Grŵp £1.0 miliwn at y cynllun buddiannau diffiniedig wrth ei gau ac mae wedi cyfrannu £2.0 filiwn arall yn ystod y flwyddyn hon.

Bu'r cynllun buddiannau diffiniedig yn destun prisiad, a gynhelir bob tair blynedd, gan actiwari annibynnol y Cynllun ar 30 Medi 2010, ac roedd diffyg o £8.2 miliwn ar y dyddiad hwn. Cymeradwywyd y prisiad hwn gan yr Ymddiriedolwyr ar 2 Rhagfyr 2011. Er mwyn cael gwared ar y diffyg, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Gymdeithas wedi cytuno y bydd £1.0 miliwn y flwyddyn o gyfraniadau ychwanegol yn cael eu talu i'r cynllun.

Cyfalaf

Mae cyfalaf yn cynnwys cronfa gyffredinol wrth gefn y Grŵp, cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (cyfalaf wedi'i danysgrifio) a dyled israddol. Delir y cyfalaf hwn i gefnogi datblygiad y busnes, i ddiogelu adneuon Aelodau ac i ddarparu byffer rhag colledion annisgwyl. Asesir swm y cyfalaf sydd ei angen o safbwynt parodrwydd y Grŵp i dderbyn risg yn gyffredinol, y risgiau materol y mae'r Grŵp yn agored iddynt a'r strategaeth a ddefnyddir i reoli'r risgiau hynny. Cynyddodd cyfanswm y cyfalaf o £492.5 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn i £509.1 miliwn.

Mae'r Grŵp yn parhau i reoli ei gyfalaf yn unol â Chyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf yr UE (Basel II), fel sy'n ofynnol gan yr FSA. Ar 31 Rhagfyr 2011, £477.8 miliwn (2010: £477.6 miliwn) oedd y cyfalaf rheoliadol. Cyflwynir cysoniad rhwng cyfanswm y cyfalaf a'r cyfalaf rheoliadol isod:

	2011	2010
	£m	£m
Cyfanswm y cyfalaf	509.1	492.5
Wedi'i addasu ar gyfer:		
Cronfeydd wrth gefn eraill nad ydynt yn gymwys i gael eu cynnwys mewn cyfalaf rheoliadol	(2.0)	(0.4)
Asedau anniriaethol	(2.5)	(2.1)
Addasiadau gwerth teg i gyfalaf a danysgrifiwyd	(16.1)	(10.0)
Addasiadau gwerth teg i rwymedigaethau isradd	-	(2.4)
Addasiadau amorteiddio i rwymedigaethau isradd	(10.7)	-
Cyfalaf rheoliadol	**477.8**	**477.6**

Nid arferodd y Gymdeithas ei hawl i alw am y rhwymedigaethau isradd ar 8 Gorffennaf 2011. Caiff y Gymdeithas alw am y nodion hyn bob tri mis tan iddynt aeddfedu'n derfynol ar 8 Gorffennaf 2016, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y rheoleiddwyr. O 8 Gorffennaf 2011, daeth y gyfradd llog yn LIBOR gydag 1.005% ychwanegol wedi'i ailosod bob tri mis. Bydd y rhwymedigaethau isradd, fel offeryn Haen 2 is, yn amorteiddio allan o gyfalaf rheoliadol dros bum mlynedd o fis Gorffennaf 2011 dan GENPRU 2.2.196. Bydd hyn yn lleihau'r gymhareb diddyledrwydd, dros y cyfnod o bum mlynedd, i'r un ganran a'r gymhareb Haen 1.

Ar ddiwedd y flwyddyn, £2,640.2 miliwn (2010: £2,584.3 miliwn) oedd yr asedau wedi'u pwysoli o ran risg ac roedd y cymarebau cyfalaf allweddol fel a ganlyn:

	2011 %	2010 %
Haen 1 Graidd	11.48	11.27
Haen 1	13.49	13.34
Cymhareb diddyledrwydd	16.89	17.33

Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynnig ar gyfer rhoi Basel III ar waith yn Ewrop ynghyd â chynllun ar gyfer un llyfr rheolau rheoleiddio Ewropeaidd (cyfeirir fel arfer at y pecyn fel CRD IV).

Amcan Basel III yw gwella gallu'r sector bancio i ymdopi â siociau sy'n deillio o straen ariannol a/neu economaidd a lleihau effaith unrhyw 'sgil-effeithiau' ar yr economi fyd-eang. Mae Basel III yn sefydlu gofynion uwch o ran ansawdd a swm y sylfaen cyfalaf rheoliadol ac yn ehangu darpariaeth risg y fframwaith cyfalaf.

Mae Basel III hefyd yn cyflwyno nifer o elfennau macro-ochelgarwch i'r fframwaith cyfalaf i gynorthwyo i ymdopi â risgiau systemig. Nid yw Basel III wedi cael ei gynnwys yn fframwaith rheoliadol Ewrop a'r DU eto ac felly fe allai newid.

Mae cymarebau Haen 1 Graidd a Haen 1 llawer yn fwy na'r isafswm a sefydlwyd gan ofynion yr FSA a Basel III fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp wedi parhau i gynnal profion straen mewnol rheolaidd ar ei sylfaen gyfalaf, ac mae'r profion hyn wedi dangos gwarged cyfalaf yn gyson ar ôl profi amrywiaeth o sefyllfaoedd o straen difrifol. Caiff canlyniadau'r sefyllfaoedd hyn eu crynhoi yn nogfen Proses Asesiad Mewnol o Ddigonolrwydd Cyfalaf (ICAAP) y Grŵp a adolygir gan y Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae'r Grŵp yn defnyddio'r dull safonol ar hyn o bryd ac mae wrthi'n gwneud cais i'r FSA am ganiatâd i ddefnyddio dull sy'n Seiliedig ar Gyfraddau Mewnol ("IRB") i reoli cyfalaf a risg credyd manwerthu. Bydd hyn yn galluogi'r Grŵp i ddefnyddio ei ragamcanion risg ei hun, yn hytrach na'r gwerthoedd a ragnodir gan yr FSA, ar ôl i amodau penodol gael eu bodloni, a bydd yn gwella prosesau rheoli risg y Grŵp ymhellach.

Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r dangosyddion canlynol yn nodi perfformiad Grŵp y Principality yn ystod 2011 o'i gymharu â'r pedair blynedd flaenorol:



Dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r dangosyddion canlynol yn nodi perfformiad Grŵp y Principality yn ystod 2011 o'i gymharu â'r pedair blynedd flaenorol:

Blwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr	2011	2010	2009	2008	2007
Cyfalaf ac Elw					
Cymhareb cyfalaf gros	8.75%	8.71%	8.52%	8.00%	8.53%
Cymhareb cyfalaf rhydd	9.04%	8.93%	8.71%	7.94%	8.07%
Elw ar ôl treth fel % o gymedr cyfanswm yr asedau	0.27%	0.37%	0.17%	0.09%	0.38%
Incwm arall fel % o'r incwm gweithredu net	16.44%	13.25%	15.12%	20.18%	34.45%
Treuliau gweithredu fel % o gymedr cyfanswm yr asedau	1.04%	1.00%	0.95%	1.04%	1.27%
Asedau					
Twf	2.99%	0.69%	(2.81%)	9.33%	21.17%
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	£5,220.1m	£4,960.4m	£4,736.9m	£4,884.3m	£4,584.0m
Asedau hylifol	£1,114.7m	£1,194.8m	£1,380.3m	£1,382.0m	£1,196.7m
Asedau hylifol fel % o gyfranddaliadau a benthyciadau	19.14%	21.12%	24.49%	23.98%	22.39%
Cymhareb hylifedd craidd	16.88%	12.53%	10.44%	4.36%	0.09%
Cyllido					
Benthyciadau	£808.6m	£618.6m	£713.6m	£1,186.0m	£1,540.0m
Y terfyn cyllido	13.96%	11.03%	12.78%	20.60%	29.03%
Cyflogeion					
Nifer y bobl a gyflogir ar gyfartaledd	1,173	1,126	1,049	997	1,206
Mesurau eraill					
Nifer y canghennau	52	51	51	50	50
Nifer y canghennau asiantaeth	14	13	5	5	5
Nifer y canghennau asiantaeth dai	23	23	23	23	26

W. Guy Thomas
Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
31 Ionawr 2012

Adroddiad rheoli risgiau

Darlun cyffredinol o'r risgiau

Mae'r broses o reoli'r busnes a gweithredu strategaeth y Grŵp yn golygu y gallai fod yn agored i nifer o risgiau. Nod y Grŵp yw rheoli pob un o'r risgiau sy'n deillio o'i weithgareddau yn briodol. Felly, mae'r Grŵp o'r farn y dylai ei athroniaeth rheoli risg fod yn seiliedig ar ymwybyddiaeth o achosion pryd y mae neu y gallai fod yn agored i risg, ac ar fesur effaith debygol amlygiad i risgiau o'r fath, a datblygu a gweithredu mesurau sy'n eu rheoli o fewn terfynau y cytunwyd arnynt.

Strwythur llywodraethu

Mae strwythur ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer rheoli risgiau ar draws y Grŵp sydd wedi'i gofnodi mewn polisïau rheoli risg manwl. Mae'r polisïau hyn, a therfynau cysylltiedig, yn gyfrifoldeb i bwyllgorau risg swyddogaethol sy'n atebol i Bwyllgor Risg y Grŵp a'r Bwrdd, a chânt eu hadolygu ganddynt o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rheolir risg trwy strwythur sy'n cynnwys pedwar pwyllgor rheoli risg allweddol. Mae pob pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o'r Pwyllgor Gweithredol, rheolwyr adrannol ac arbenigwyr risg:

Pwyllgor Risg y Grŵp (GRC) - caiff ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol, ac mae'n gyfrifol am sicrhau dull cydgysylltiedig ar draws y Grŵp o oruchwylio a rheoli risgiau strategol a chorfforaethol allweddol.

Pwyllgor Risg Credyd y Grŵp (GCRC) - caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Risg y Grŵp, ac mae'n gyfrifol am fonitro ac adolygu amlygiad i risgiau credyd ym mhortffolios benthyciadau manwerthu a masnachol y Grŵp.

Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau (ALCO) - caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, ac mae'n gyfrifol am asesu amlygiad i'r risg o ran y farchnad, o ran hylifedd ac o ran cyfraddau llog, a risg credyd Gwrthbartïon y Trysorlys. Mae ALCO yn atebol i Bwyllgor Gweithredol y Grŵp ac i'r GRC. Caiff gwaith monitro wythnosol ei gyflawni gan Bwyllgor Trysorlys y Gymdeithas, sy'n is-bwyllgor i ALCO.

Pwyllgor Risg Weithredol y Grŵp (GORC) - caiff ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Risg y Grŵp, ac mae'n gyfrifol am fonitro ac adolygu amlygiad i risgiau gweithredol sy'n codi yn sgil gweithgareddau'r Grŵp o ddydd i ddydd.

Pob uned fusnes strategol sy'n bennaf gyfrifol am nodi, rheoli a lliniaru risg. Darperir goruchwyliaeth a rheolaeth trwy swyddogaethau cymorth arbenigol sy'n cynnwys Risg y Grŵp, Trysorlys y Grŵp a Chyllid y Grŵp. Gwaith yr arbenigwyr swyddogaethol hyn yw cynnal ac adolygu polisïau, pennu terfynau sy'n gyson â pharodrwydd y Grŵp i dderbyn risg, monitro a chyflwyno adroddiadau ar gydymffurfiad â'r terfynau hynny a chyflawni swyddogaeth arolygu o ran rheoli risg yn gyffredinol.



Y prif risgiau

Mae'r prif risgiau y mae'r Grŵp yn agored iddynt yn cynnwys risg strategol (gan gynnwys risg i'w enw da), risg o ran credyd, risg o ran hylifedd, risg o ran y farchnad, risg weithredol a risg o ran y rhwymedigaethau pensiwn. Gan ei fod yn gwmni cydfuddiannol, mae parodrwydd y Grŵp i dderbyn risg yn gymharol isel.

Mae Archwilwyr Mewnol y Grŵp yn rhoi sicrwydd annibynnol o ran gweithgareddau'r unedau busnes a'r swyddogaethau arbenigol ar draws y busnes, ac yn cyflwyno adroddiadau ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli i'r Pwyllgor Archwilio bob tri mis. Mae'r GRC yn monitro'r trefniadau ar gyfer asesu'r risg sy'n rhan annatod o weithgareddau'r Grŵp ar ran y Bwrdd ac mae'n derbyn adroddiadau risg bob tri mis. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau ar risg ym mhob un o'i gyfarfodydd ac mae wedi parhau â'i raglen o adolygiadau bob tri mis o'r prif risgiau strategol. Mae hyn yn cynnwys asesiad o effaith bosibl newidiadau yn yr amgylchedd macro-economaidd, rheoliadau newydd, strategaeth cystadleuwyr, dewisiadau cwsmeriaid a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r risgiau allweddol i'r Grŵp yn gysylltiedig â pherfformiad cyffredinol yr economi a'r effaith a geir o ganlyniad ar ddiweithdra, mynegeion prisiau tai, gwerthoedd a pherfformiad y farchnad eiddo masnachol a hylifedd cyffredinol wrth i'r marchnadoedd geisio ailgyllido benthyciadau mewn amgylchedd o anwadalrwydd parhaus a'r risg o ddiffygdalu sofran. Mae effaith newidiadau rheoliadol eraill ac unrhyw gynllun cyllido posibl i ddisodli'r FSCS yn risgiau uniongyrchol i'r Grŵp hefyd. Adolygir risgiau penodol i'r Grŵp yn rhan o'r Broses Asesiad Unigol o Ddigonolrwydd Cyfalaf (ICAAP), ac fe'u manylir isod.

Y risg o ran credyd

Y risg o ran credyd yw'r risg bosibl y bydd cwsmer neu wrthbarti yn methu â bodloni eu rhwymedigaethau ariannol i'r Grŵp ar yr adeg y dylid eu talu. Mae'r risg o ran credyd yn deillio'n bennaf o fenthyciadau i gwsmeriaid manwerthu, o fenthyciadau i gwsmeriaid masnachol ac o'r asedau hylifol a buddsoddi a ddelir gan Drysorlys y Grŵp er mwyn bodloni gofynion hylifedd ac at ddibenion busnes cyffredinol.

Cefndir y farchnad

Mae'r rhagolygon yn dal i fod yn ansicr, ac mae pwysau economaidd ac ansicrwydd gwleidyddol yn rhoi straen ychwanegol ar y sector. Am y rheswm hwnnw mae rhagolygon a chynlluniau'r Grŵp wedi ystyried sefyllfaoedd sy'n cynnwys y risg o ostyngiadau pellach mewn prisiau tai, effeithiau ar werthoedd a pherfformiad y farchnad eiddo masnachol, dirywiad parhaus yn yr amgylchedd macro-economaidd, a chynnydd dilynol mewn diweithdra. Mae'r rhagolygon hyn wedi'u paratoi a'u profi dan straen gan y rheolwyr yn unol â hynny ac yn unol â chanllawiau'r FSA.

Lliniaru risg

Mae rheoli'r risg o ran credyd mewn ffordd benodedig yn hollbwysig i lwyddiant strategaeth fenthyca'r Grŵp. Mae ansawdd penderfyniadau benthyca unigol a'r broses reoli ddilynol, ynghyd â gweithrediad polisi credyd sy'n adlewyrchu parodrwydd y busnes i dderbyn risg, yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r Grŵp i gyflawni ei amcanion ariannol.

Mae gan bob maes busnes, benthyciadau ar gyfer arwystl cyntaf ac ail arwystl preswyl, benthyciadau masnachol a'r trysorlys, ei Ddatganiad Polisi Risg Credyd unigol ei hun sy'n nodi ei barodrwydd i dderbyn risg. Mae'r datganiad polisi hwn yn cynnwys materion megis cwmpas polisi, strwythurau a chyfrifoldebau, diffiniadau o risg a dulliau mesur a monitro risg. Yn ogystal, mae gan bob maes busnes ei lawlyfr gweithdrefnau manwl ei hun sy'n nodi rheolau a safonau gweithredu.

Ceir timau arbenigol sy'n gyfrifol am reoli'r risg o ran credyd o ddydd i ddydd ym mhob maes busnes. Maent yn defnyddio technegau rheoli risg a fabwysiadwyd fel rhan o ddull cyffredinol y Grŵp o fesur, lliniaru a rheoli risgiau o ran credyd mewn ffordd sy'n gyson â'r parodrwydd i dderbyn risg a gymeradwywyd gan y GRC a'r Bwrdd. Mae portffolios risg o ran credyd yn destun profion straen rheolaidd i efelychu canlyniadau ac asesu'r effaith bosibl ar ofynion cyfalaf.

Risg o ran credyd manwerthu

Mae'r Grŵp yn parhau i ganolbwyntio ar ansawdd sylfaenol y busnes ac mae'r meini prawf ar gyfer benthyca'n dal i fod yn geidwadol. Caiff ansawdd yr ymgeiswyr ei fonitro'n agos, a'i ddiffinio yn ôl credyd, cymarebau LTV a phroffil fforddiadwyedd. Mae'r GCRC yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad portffolios risg credyd manwerthu a darperir goruchwyliaeth ychwanegol gan y GRC.

Mae swyddogaethau casglu ac adennill y Grŵp yn ceisio cynnal y broses rheoli ôl-ddyledion mewn modd ymatebol ac effeithiol. Mae'r Grŵp yn annog cyfathrebu cynnar dwyffordd â benthycwyr, gan gael ymrwymiad ganddynt i gynnal rhwymedigaethau talu, a hynny fel arfer drwy gyfrwng cynlluniau ad-dalu. Mae profiad yn y meysydd hyn yn caniatáu adborth i'r broses warantu. Fel cymdeithasau adeiladu eraill, mae'r Gymdeithas yn cymryd rhan yng Nghynllun Achub Morgeisi'r Llywodraeth, ond mae wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Cynnal Morgeisi Perchenogion Tai. Pan fydd cyfrifon yn diffygdalu, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r strategaeth sylweddu fwyaf priodol sy'n debygol o arwain at y canlyniad gorau i'r Grŵp ac i'r cwsmer.

Risg o ran credyd masnachol

Adolygir y parodrwydd i dderbyn risg masnachol yn rheolaidd gan ystyried y newidiadau yn amgylchiadau'r economi a'r farchnad, ac mae hefyd yn destun adolygiad blynyddol. Mae'r Grŵp yn dal i fod yn ofalus o ran benthyca masnachol. Fe'i gwneir ar sail ochelgar a adlewyrchir yn y ffaith fod y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'r rheolwyr wedi mabwysiadu strategaeth sydd â'r nod o leihau amlygiad cyffredinol i gyllid datblygu a benthyciadau mwy â gwrthbartïon sengl. Ymgymerir â gweithgareddau benthyciadau masnachol o fewn fframwaith o feini prawf credyd ceidwadol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y ffrwd incwm sylfaenol a sicrwydd cynnal dyled yn ogystal â gwerth eiddo.

Caiff risg crynhoad yn y portffolio masnachol ei rheoli a'i monitro trwy gyfres o derfynau amlygiad credyd sydd â'r

nod o gynhyrchu portffolio amrywiol. Mae cysylltiadau benthyca masnachol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod cyfleusterau'n cydymffurfio'n llawn â thelerau'r caniatâd gwreiddiol. Sefydlwyd gweithdrefnau rhestr wylio sy'n graddio benthycwyr yn ôl pa mor ddifrifol yr ystyrir y risg, ac maent wedi'u cynllunio i nodi achosion a allai beri pryder er mwyn cynorthwyo i allu cymryd camau lliniaru risg yn gynnar. Pan fydd cyfrifon yn diffygdalu, rhoddir ystyriaeth ofalus i'r strategaeth sylweddu fwyaf priodol sy'n debygol o arwain at y canlyniad gorau i'r Grŵp ac i'r cwsmer.

Y Pwyllgor Rhwymedigaethau Masnachol a Rheoli Asedau sy'n gyfrifol am ansawdd cyffredinol y llyfr benthyciadau a digonolrwydd gweithdrefnau a mesurau rheoli credyd, a darperir goruchwyliaeth gan Bwyllgor Risg y Grŵp a'r GRC.

Risg o ran credyd y Trysorlys

Mae risg o ran credyd y Trysorlys yn codi o'r buddsoddiadau a ddelir gan Drysorlys y Grŵp er mwyn bodloni gofynion hylifedd ac at ddibenion busnes cyffredinol. Mae'r Trysorlys yn gyfrifol am reoli'r agwedd hon ar risg o ran credyd o fewn cyfyngiadau gweithredol fel y'u nodir ym mholisi rheoli risg y Grŵp.

Adolygir llinellau credyd gwrthbartïon y Trysorlys yn wythnosol gan Bwyllgor y Trysorlys ac yn fisol gan ALCO. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi perfformiad ariannol y gwrthbartïon, eu statws credyd a'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad er mwyn sicrhau bod y terfynau'n dal i fod yn gyson â pharodrwydd y Grŵp i dderbyn risg. Caiff newidiadau i linellau a therfynau eu cymeradwyo gan ALCO a'r Pwyllgor Gweithredol (EXCO).

Risg o ran hylifedd

Y risg o ran hylifedd yw'r risg na fydd y Grŵp yn gallu bodloni ei rwymedigaethau ariannol ar yr adeg y dylid eu talu, neu ei fod yn gallu gwneud hynny dim ond am gost ormodol. Amcan polisi hylifedd y Grŵp, felly, yw cynnal digon o asedau hylifol i ganiatáu am anghydbwysedd yn y llif arian ac amrywiadau mewn lefelau cyllido, er mwyn cynnal hyder llawn y cyhoedd yn y Grŵp ac i sicrhau y bodlonir yr holl rwymedigaethau ariannol.

Cefndir y farchnad

Mae marchnadoedd cyllido cyfanwerthu yn dal i fod yn fregus, ac mae'r hyder sylfaenol yn y farchnad rhwng banciau yn wan hefyd, gan adlewyrchu pryderon ehangach yn ymwneud â'r posibilrwydd o risg y gallai'r problemau ymledu o ganlyniad i ddiffygdalu sofran. Mae costau cymharol cyllid yn dal i fod yn sylweddol uwch na'r lefelau ar gychwyn y dirwasgiad yn 2007, a disgwylir gweld effaith ar y cyllid cyfanwerthu a manwerthu sydd ar gael, a'i gost, yn ystod y flwyddyn nesaf yn sgil tynnu cyllid a gefnogir gan y Llywodraeth yn ôl ym mis Ionawr 2012.

O ganlyniad i gyflwyno trefn hylifedd newydd, gwelwyd galw cynyddol am gyllid mwy hirdymor a dyled o ansawdd gwell a ddyroddir gan y Llywodraeth i'w defnyddio fel asedau hylifol. Disgwylir i'r duedd hon barhau yn sgil cyflwyno rheoliadau fesul cam yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r amgylchiadau yn y farchnad gyfanwerthu wedi arwain at fwy o gystadleuaeth a chynnydd mewn cost cynilion manwerthu, ac effeithiwyd ar hyn yn sylweddol gan y ffaith fod sefydliadau'n dilyn strategaeth cyllid manwerthu sydd â'r nod o ddisodli cyllid cyfanwerthu a allai fod yn ddrud neu o bosibl ddim ar gael.

Lliniaru risgiau

Cyfrifoldeb Trysorlys y Grŵp yw rheoli hylifedd o ddydd i ddydd, ac mae'n goruchwylio portffolio'r Grŵp o asedau hylifol a chyfleusterau cyllid cyfanwerthu.

Mae'r ALCO yn arfer rheolaeth dros hylifedd y Grŵp trwy weithredu polisïau hylifedd llym a monitro agos, gan dderbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfaoedd hylifedd cyfredol a rhagamcanedig gan gynnwys effaith profion straen. Mae'r Grŵp yn cynnal Asesiad Unigol o Ddigonolrwydd Hylifedd (ILAA) o leiaf unwaith y flwyddyn. Fe'i defnyddir i asesu pa mor ddigonol yw hylifedd y Grŵp a phenderfynu ar lefelau'r asedau hylifol sydd eu hangen i gefnogi risgiau hylifedd y Grŵp yn y presennol a'r dyfodol. Cymeradwywyd yr ILAA diweddaraf gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2011. Mae ILAA y Grŵp yn cynnwys profion straen sy'n ystyried amrywiaeth o sefyllfaoedd difrifol a'u heffaith ar y Grŵp, yn enwedig o ran all-lifau cynilion manwerthu. Daeth yr ILAA i'r casgliad fod cronfeydd hylifedd wrth gefn y Grŵp yn ddigonol i gynnal y Grŵp tros gyfnod estynedig o straen difrifol tra y byddai camau dros dro â'r nod o sefydlogi'r sefyllfa yn cael eu rhoi ar waith.

Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd 86.04% o gyllid y Grŵp o ffynonellau manwerthu. Mae'r Grŵp wedi parhau i fod yn llwyddiannus o ran sicrhau a chadw adneuon manwerthu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan adlewyrchu'n rhannol y ffaith fod cynilwyr yn parhau i chwilio am fan diogel yn yr amgylchedd economaidd ansicr a chythryblus sydd ohoni. Mae'r Gymdeithas yn disgwyl wynebu mwy o gystadleuaeth am gynilion manwerthu yn ystod y flwyddyn nesaf, a bydd yn parhau i adolygu a gwella ei hamrywiaeth o gynhyrchion er mwyn cynnal ei sefyllfa gystadleuol. Rhoddwyd hwb i gyllid tymor canolig ym mis Awst 2011 pan ymunodd y Gymdeithas â'r farchnad waranteiddio allanol am y tro cyntaf, gan lansio RMBS gwerth £814.0 miliwn yn llwyddiannus.

Ar 31 Rhagfyr 2011, 16.88% (2010: 12.53%) oedd cymhareb hylifedd craidd y Grŵp (fel y'i diffinnir yn y rhestr termau ar dudalennau 95 i 98). Mae'r cynnydd yn y balansau sy'n gymwys ar gyfer y 'Byffer Asedau Hylifol' o flwyddyn i flwyddyn yn adlewyrchu safbwynt gochelgar o'r rhagolwg economaidd byd-eang, ac yn enwedig ei effaith ar offerynnau hylifedd a ddyroddir gan Fanciau Ewropeaidd.

Y risg o ran y farchnad

Y risg o ran y farchnad yw'r risg y bydd gwerth asedau a rhwymedigaethau'r Grŵp, neu incwm sy'n deillio ohonynt, yn newid o ganlyniad i newidiadau ym mhrisiau'r farchnad. Y prif elfennau yw'r risg o ran cyfraddau llog, gan gynnwys y defnydd o ddeilliadau, a'r risg o ran arian cyfred tramor.

Adran Trysorlys y Grŵp sy'n gyfrifol am reoli amlygiad y Grŵp i bob agwedd ar risg o ran y farchnad, o fewn y cyfyngiadau gweithredol a nodir ym Mholisïau Trysorlys y Grŵp. Darperir goruchwyliaeth gan yr ALCO, yr EXCO a'r GRC, sy'n cymeradwyo'r polisi risg o ran y farchnad ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar bob agwedd ar risg o ran y farchnad, gan gynnwys y risg o ran cyfraddau

llog a'r risg o ran arian cyfred. Nodir llinellau adrodd a chylchoedd gorchwyl yn eglur gan y Bwrdd sydd hefyd yn derbyn adroddiadau misol gan Gyfarwyddwr Cyllid y Grŵp ar faterion o bwys yr ymdrinnir â hwy gan yr ALCO.

Mae cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y Grŵp hefyd yn agored i'r risg o ran y farchnad, a rheolir y risg hon gan ymddiriedolwyr y cynllun.

Y risg o ran cyfraddau llog

Y risg o ran cyfraddau llog yw'r risg o golled sy'n deillio o symudiadau anffafriol yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae'r Grŵp yn agored i risg o ran cyfraddau llog sy'n deillio'n bennaf o'r cynhyrchion benthyca a chynilo cyfradd sefydlog a gynigir ganddo. Mae nodweddion amrywiol y cynhyrchion hyn, o ran cyfraddau llog a chyfnodau aeddfedrwydd, a'r defnydd o arian cyfanwerthu i'w cefnogi, yn golygu bod y Grŵp yn agored i risgiau o ran cyfraddau llog. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad yw cyfraddau llog yn cyfateb yn berffaith rhwng gwahanol offerynnau ariannol, a'r ffaith y ceir gwahaniaethau mewn amseru wrth ailbrisio asedau a rhwymedigaethau.

Mae risg arall sylweddol o ran cyfraddau llog yn deillio o'r gydberthynas amherffaith rhwng ailbrisio cyfraddau llog ar wahanol asedau a rhwymedigaethau, a elwir yn aml yn risg sylfaen. Mae'r risg sylfaen ar ddatganiad o sefyllfa ariannol y Grŵp yn deillio o rwymedigaethau cyfraddau a weinyddir. Dylanwadir ar brisiadau'r rhain gan gystadleuaeth am gyllid manwerthu, ac fe'u defnyddir i gyllido morgeisi ac asedau eraill sy'n cael eu prisio mewn perthynas â chyfradd sylfaenol Banc Lloegr, er bod hynny am gyfnodau cymharol fyr.

Cefndir y farchnad

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae cwsmeriaid wedi parhau i symud tuag at ddewis morgeisi cyfradd amrywiol a bondiau cynilion cyfradd sefydlog. Mae'r cyfraddau llog is a'r credyd sydd ar gael wedi golygu ein bod ni, ynghyd â darparwyr morgeisi eraill, wedi bod yn agored i newidiadau yn ymddygiad cwsmeriaid, a ysgogir gan newidiadau cysylltiedig i ddeinameg ariannol trafodion, yn enwedig o ran ad-dalu morgeisi cyfradd sefydlog yn gynnar. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith o bwys.

Lliniaru risg

Rheolir y risg o ran cyfraddau llog yn barhaus, o fewn y parodrwydd i dderbyn risg a bennwyd gan y Bwrdd, gan ddefnyddio offerynnau ariannol priodol yn cynnwys deilliadau. Caiff risgiau'n ymwneud â chynhyrchion penodol eu lliniaru trwy delerau ac amodau cysylltiedig priodol ar gyfer y cynhyrchion, gweithdrefnau cynigion, yn ogystal â dadansoddiad gofalus o forgeisi yn yr arfaeth ac ymddygiad adbryniant cynnar. Defnyddir offerynnau deilliadol i reoli agweddau amrywiol ar y risg o ran cyfraddau llog, gan gynnwys y sefyllfaoedd sylfaen net lle y bo'n briodol.

Mae'r ALCO yn ystyried yn rheolaidd, yn benodol, ddewisiadau a strategaethau'r Gymdeithas yn yr amgylchedd presennol o gyfraddau llog isel ac effaith unrhyw gynnydd posibl mewn cyfraddau llog yn y dyfodol. Mae rhagolygon a chynlluniau'r Grŵp yn ystyried y risg o ran newidiadau i'r gyfradd llog, a chânt eu paratoi a'u profi dan straen yn unol â hyn ac yn unol â chanllawiau'r FSA.

Defnyddio deilliadau

Dim ond er mwyn cyfyngu ar y graddau yr effeithir ar y Grŵp gan newidiadau mewn cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid tramor neu fynegeion eraill sy'n effeithio ar werthoedd teg neu lifau arian parod y defnyddir deilliadau. Felly, dim ond i ragfantoli amlygiadau i risg y defnyddir deilliadau.

Y prif ddeilliadau a ddefnyddir gan y Grŵp yw contractau cyfnewid cyfraddau llog, a elwir fel arfer yn gyfnewidiadau cyfraddau llog, opsiynau cyfraddau llog a chyfyngiadau ar gyfraddau llog.

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r prif weithgareddau a wneir gan y Grŵp, y risgiau o ran cyfraddau llog sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a'r mathau o ddeilliadau a ddefnyddir fel arfer i reoli risgiau o'r fath.

Mae'r Grŵp yn defnyddio deilliadau yn unol â Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986. Golyga hyn na chaiff offerynnau o'r fath eu defnyddio mewn gweithgarwch masnachu nac at ddibenion hapfasnachol ac, yn unol â hynny, dim ond i leihau'r risg o golled sy'n deillio o newidiadau mewn cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid tramor neu ffactorau eraill a nodir yn y ddeddfwriaeth y cânt eu defnyddio.

Y risg o ran arian cyfred tramor

Y risg o ran arian cyfred yw'r risg o golled yn deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor neu newidiadau mewn cyfraddau llog arian cyfred tramor, yn enwedig o ran cyllid y Grŵp nad yw'n arian Sterling. Mae'r rhan fwyaf o'r balansau arian cyfred yn deillio o drafodion a gychwynnwyd gan Drysorlys y Grŵp i reoli costau cyllido cyfanwerthu ac adenillion ar asedau hylifol ac i ddarparu amrywiaeth mewn marchnadoedd cyllid ac asedau.

Gweithgaredd	Risg	Math o ddeilliad
Cynhyrchion cynilo cyfradd sefydlog a chyllido cyfradd sefydlog	Sensitifrwydd i newidiadau mewn cyfraddau llog	Cyfnewidiadau ac opsiynau cyfraddau llog
Benthyciadau morgeisi cyfradd sefydlog a buddsoddiadau cyfradd sefydlog	Sensitifrwydd i newidiadau mewn cyfraddau llog	Cyfnewidiadau ac opsiynau cyfraddau llog
Cynhyrchion buddsoddi yn gysylltiedig ag ecwiti	Sensitifrwydd i fynegeion ecwiti	Cyfnewidiadau cyfraddau llog ac opsiynau yn gysylltiedig ag ecwiti

Nid ystyrir bod risg o ran arian cyfred yn bwysig iawn i'r Grŵp, gan y gwneir yr holl drafodion bron mewn Sterling.

Risg weithredol

Risg weithredol yw'r risg o golled oherwydd i brosesau neu systemau mewnol fethu neu fod yn annigonol, neu oherwydd gwall dynol neu ddigwyddiadau allanol.

Cefndir y farchnad

Gan fod gan y Grŵp fodel busnes cynyddol amrywiol ac amgylchedd gweithredu mwy cystadleuol, cydnabyddir ei fod yn agored i lefelau cynyddol o risg weithredol, er enghraifft o ran gallu systemau a chymhwysedd aelodau staff. Mae'r sector gwasanaethau ariannol hefyd yn wynebu lefelau cynyddol o drosedd ariannol, yn enwedig o ran sianelau e-ddosbarthu, sy'n golygu bod angen mesurau rheoli gwrth-dwyll cynyddol soffistigedig.

Lliniaru risg

Diben swyddogaeth rheoli risg weithredol y Grŵp yw sicrhau bod strategaethau priodol wedi'u sefydlu i reoli a lliniaru'r risgiau a allai effeithio ar allu'r Grŵp i fodloni ei amcanion busnes ac amddiffyn ei enw da ar yr un pryd. Mae'r Grŵp yn rheoli ei amlygiad i risg weithredol, gan ystyried yr effaith trwy gyfeirio at nifer o gategorïau ar wahân sy'n cynnwys, er enghraifft, rheoli prosesau, methiant systemau, materion yn ymwneud ag enw da, cynllunio parhad busnes a'r risg o dwyll.

Mae fframwaith rheoli risg weithredol y Grŵp yn amlinellu'r strategaeth ar gyfer nodi, asesu a rheoli risg weithredol. Mae'r uwch reolwyr yn gyfrifol am ddeall natur a graddau'r effaith ar bob maes busnes ac am ymsefydlu mesurau rheoli priodol i liniaru'r risgiau hynny. Caiff y fframwaith ei ddiweddaru o dro i dro er mwyn ystyried newidiadau i'r proffil busnes, datblygiad cynhyrchion newydd, a'r amgylchedd gweithredu allanol.

Darperir goruchwyliaeth gan y GORC, ac mae'r asesiad o amlygiad y Grŵp i risgiau gweithredol yn seiliedig ar ystyriaethau meintiol ac ansoddol. Cofnodir colledion gweithredol (ac achosion lle y bu ond y dim i gael colled) er mwyn nodi achosion lle y gwireddir risgiau gweithredol. Defnyddir dadansoddiad o ddigwyddiadau lle y gwnaed colled i nodi unrhyw wendidau systemig posibl mewn prosesau gweithredol.

Y risg o ran rhwymedigaethau pensiwn

Mae gan y Grŵp rwymedigaethau cyllido ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig sydd wedi'i gau i ymgeiswyr newydd. Fe'i caewyd i groniadau ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2010. Y risg o ran pensiynau yw'r risg na fydd gwerth asedau'r Gronfa, ynghyd â chyfraniadau parhaus gan gyflogwyr ac aelodau, yn ddigonol i dalu rhwymedigaethau rhagamcanedig y Gronfa dros amser. Bydd yr adenillion ar asedau, sy'n cynnwys ecwitïau a bondiau, yn amrywio wrth i brisiau ecwiti a chyfraddau llog newid. Mae'r rhagamcaniad o rwymedigaethau'r Gronfa yn cynnwys amcangyfrifon o ran oed marwolaeth, chwyddiant a chynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol, ond gall canlyniadau gwirioneddol y rhain fod yn wahanol i'r rhagamcanion. Mae'r Gronfa hefyd yn agored i newidiadau posibl mewn deddfwriaeth pensiynau.

I liniaru'r risgiau hyn, mae'r rheolwyr, ynghyd ag Ymddiriedolwyr y Gronfa, yn adolygu'n rheolaidd yr adroddiadau a baratowyd gan actiwarïaid annibynnol y Gronfa ac yn cymryd camau priodol a allai, er enghraifft, gynnwys addasu'r strategaeth fuddsoddi a/neu'r lefelau cyfrannu.

Rheoli cyfalaf

Mae'r Grŵp yn cynnal Proses Asesiad Mewnol o Ddigonolrwydd Cyfalaf (ICAAP) o leiaf unwaith y flwyddyn. Defnyddir y broses hon i asesu a yw lefelau cyfalaf y Grŵp yn ddigonol ac i bennu'r lefelau cyfalaf sydd eu hangen i reoli'r risgiau i'r busnes ar y pryd ac yn y dyfodol. Mae'r ICAAP yn ymdrin â'r holl risgiau materol er mwyn pennu'r gofynion cyfalaf dros gyfnod o bum mlynedd, ac mae'n cynnwys sefyllfaoedd o straen y bwriedir iddynt fodloni gofynion rheoliadol. Cyflwynir y gofynion cyfalaf i'r Bwrdd i'w cymeradwyo a chwblhawyd yr adolygiad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2011. Defnyddir yr ICAAP gan yr FSA i bennu Canllawiau Cyfalaf Unigol (ICG) y Grŵp.

Mesurir symiau a chyfansoddiad gofynion cyfalaf y Grŵp trwy asesu isafswm cyfalaf gofynnol Piler 1 Basel II, gofyniad cyfalaf economaidd y Grŵp, effaith profion a sefyllfaoedd o straen yn unol â Philer 2, a'r ICG. Mae'r Grŵp yn rheoli ei gyfalaf uwchlaw trothwy isaf yr ICG, gan gynnwys byffer cynllunio cyfalaf, bob amser. Caiff y Bwrdd adroddiadau am lefelau cyfalaf y Grŵp, ac mae'n eu monitro'n fisol.

I gydymffurfio â Philer 3 Basel II, mae'r Grŵp yn cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol am ba mor agored y mae i risg ynghyd â'i weithdrefnau a'i bolisïau ar gyfer rheoli risg. Disgwylir y caiff fersiwn 2011 o adroddiad Piler 3 ei chyhoeddi ar wefan y Gymdeithas (www.principality.co.uk) ym mis Ebrill 2012.

Mae'r Grŵp wrthi'n gwneud cais i'r FSA am ganiatâd i ddefnyddio dull Seiliedig ar Raddfeydd Mewnol ar gyfer rheoli cyfalaf a risg credyd manwerthu. Bydd hyn yn galluogi'r Grŵp i ddefnyddio ei ragamcanion risg ei hun, yn hytrach na gwerthoedd a ragnodir gan yr FSA, ar ôl i amodau penodol gael eu bodloni, a bydd yn gwella prosesau rheoli risg y Grŵp ymhellach.

R. Michael Jones
Cyfarwyddwr Risg y Grŵp
31 Ionawr 2012

Tim Rhys-Evans gyda chantorion y cymoedd, Only Boys Aloud - y prif atyniad am y tro cyntaf, mewn cyngerdd yn y Parc a Dâr yn Nhreorci

Bwrdd y cyfarwyddwyr

1 Dyfrig D. J. John
CBE FCIB (61 Oed)

Cadeirydd

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Gorffennaf 2009 ac yna'n Gadeirydd ym mis Ebrill 2010. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n aelod o Fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru, yn aelod o Gomisiwn Silk ar Ddatganoli yng Nghymru ac yn Llywydd Cymdeithas Pensiynau'r DU Banc HSBC.

2 Peter L. Griffiths
OBE ACIB (53 Oed)

Prif Weithredwr

Ymunodd â'r Principality ym mis Rhagfyr 2001 a daeth yn Brif Weithredwr ym mis Mawrth 2002. Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr ar 2 Ionawr 2002. Ef yw Cadeirydd: Peter Alan Limited, Nemo Personal Finance Limited a Loan Link Limited. Mae'n un o gyfarwyddwyr holl is-gwmnïau'r Gymdeithas nad ydynt wedi cynnal busnes yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld rhestr o'r rhain yn Nodyn 22 ar dudalen 65. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Rheoli Asedau a Rhwymedigaethau Masnachol a Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas Adeiladu. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau a Phwyllgor Risg y Grŵp.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n Gadeirydd y Gymdeithas Cymdeithasau Adeiladu ac yn aelod o Fwrdd Cynghori Ysgol Busnes Bangor.

3 W. Guy Thomas
BSc (Anrhydedd) ACA FCT C.Dir (56 Oed)

Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

Ymunodd â'r Gymdeithas fel Cyfarwyddwr Cyllid ar 1 Tachwedd 2003. Mae'n un o gyfarwyddwyr Peter Alan Limited, Nemo Personal Finance Limited, Loan Link Limited a Principality Covered Bond LLP. Ef hefyd yw Cadeirydd y Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Rheoli Asedau a Rhwymedigaethau Masnachol a Phwyllgor Risg y Grŵp.

4 Gordon MacLean
BA FCA (57 Oed)

Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Ebrill 2006. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n Gyfarwyddwr 9 Highcliffe Road Management Company Limited.

5 Christopher Jones
BA (48 Oed)

Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Ebrill 2006. Ef yw Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Enwebiadau.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n Gyfarwyddwr Dŵr Cymru Cyf, Glas Cymru Cyf, Glas Cymru (Securities) Cyf, Dŵr Cymru (Financing) Limited, Welsh Water Utilities Finance plc a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Mae hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd Cyngor The Prince's Trust - Cymru.

6 Langley Davies
BSC (Anrhydedd) ACA (52 Oed)

Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Mai 2007. Mae'n un o gyfarwyddwyr Nemo Personal Finance Limited a Loan Link Limited. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Risg y Grŵp ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Rheoli Asedau a Rhwymedigaethau Masnachol.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n bartner yn Ruperra Properties LLP a Hensol Properties LLP. Mae'n Gyfarwyddwr Vansdirect Limited a Cardiff Hub Limited.

7 Keith Brooks
(63 Oed)

Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Mai 2007. Mae'n un o gyfarwyddwyr Peter Alan Limited ac yn aelod o Fwrdd Rheoli'r Gymdeithas Adeiladu, Pwyllgor Risg y Grŵp, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Pwyllgor Enwebiadau. Fe'i penodwyd yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn ystod y flwyddyn.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n Gadeirydd Vista Retail Support Group Limited ac yn bartner yn Airport Investments and Enterprises.

8 Graeme H. Yorston
FCIB MBA (54 Oed)

Cyfarwyddwr Gweithredol y Gymdeithas Adeiladu a Propco

Ymunodd â'r Gymdeithas fel Prif Swyddog Gweithredu ar 3 Gorffennaf 2006 ac fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr ar 19 Hydref 2007. Mae'n un o gyfarwyddwyr Nemo Personal Finance Limited a Loan Link Limited. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Gweithredol, Bwrdd Rheoli'r Gymdeithas Adeiladu, y Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau a Phwyllgor Risg y Grŵp.

9 Joanne Kenrick
LLB (45 Oed)

Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Ionawr 2009. Mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Swyddi Eraill fel Cyfarwyddwr a Phenodiadau Eraill

Mae'n gyfarwyddwr marchnata Homebase Limited, yn un o gyfarwyddwyr 53 Rosslyn Hill Residents Association Limited ac yn un o gyfarwyddwyr MLC Contracting Limited.

Adroddiad y cyfarwyddwyr
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Mae'n bleser gan y cyfarwyddwyr gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a Datganiad Busnes Blynyddol y Gymdeithas a'i sefydliadau is-gwmni ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011.

Y Cyfarwyddwyr

Rhestrir enwau'r cyfarwyddwyr ar ddyddiad yr adroddiad hwn, ynghyd â manylion bywgraffiadol byr, ar dudalennau 21 a 22.

Ymddeolodd Christopher Rowlands o'r Bwrdd ar 1 Hydref 2011, ac ni wnaed unrhyw benodiadau newydd yn ystod y flwyddyn. Er mwyn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac fel a ganiateir gan Reol 26(1), bydd pob un o'r cyfarwyddwyr yn ymddeol ac yn ymgynnig i gael eu hailethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Ebrill 2012. Maent i gyd yn gymwys ac yn barod i barhau i wasanaethu ar y Bwrdd ac ni wnaed unrhyw enwebiadau eraill.

Ni fu gan unrhyw gyfarwyddwr yn y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, nac ers hynny ychwaith, fuddiant mewn cyfranddaliadau unrhyw sefydliad sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas nac unrhyw ddyledebau unrhyw sefydliad sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas.

Amcanion busnes a gweithgareddau'r Gymdeithas a'i his-gwmnïau

Amcan busnes y Gymdeithas yw rhoi buddiannau sefydliad cydfuddiannol i Aelodau trwy gynllunio, cynhyrchu a darparu cynhyrchion morgais a chynilion atyniadol. Prif weithgaredd y Gymdeithas yw darparu cyllid tai, a ariennir yn bennaf gan gynilion Aelodau. Mae hefyd yn cynnig benthyciadau masnachol ac amrywiaeth o wasanaethau yswiriant a gwasanaethau ariannol.

Mae is-gwmnïau masnachu'r Gymdeithas yn ymwneud â gweithgareddau ategol gan gynnwys:

- Asiantaeth dai, gosod eiddo a gwasanaethau eiddo; a
- Darparu benthyciadau personol gwarantedig.

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn nad oedd unrhyw weithgaredd a gyflawnwyd yn ystod 2011 y tu allan i bwerau'r Gymdeithas.

Nid yw'r Gymdeithas wedi caffael na sefydlu, nac wedi caniatáu i sefydliad is-gwmni gaffael neu sefydlu, busnes nad yw'n fusnes craidd y mae Adran 92A o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 yn berthnasol iddo.

Gweithgareddau newydd

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp wedi:

- Agor cangen newydd yn Nhrefynwy ac asiantaeth newydd yng Nghaernarfon, yn ogystal â lansio gwefan newydd;
- Lansio 'pa black', a gynlluniwyd i gynorthwyo wrth werthu a phrynu eiddo ym mhen uchaf y farchnad;
- Cychwyn prydles gyda Travelodge Hotels Limited ar gyfer lloriau 1-4 o Adeiladau'r Principality; a
- Dyroddi Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl (RMBS) ym mis Awst 2011.

Elw a chyfalaf

Yr elw cyn treth oedd £24.5 miliwn (2010: £30.8 miliwn). Yr elw ar ôl treth a drosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol wrth gefn oedd £17.4 miliwn (2010: £23.2 miliwn).

Cyfanswm cronfeydd cyffredinol wrth gefn y Grŵp ar 31 Rhagfyr 2011 oedd £324.7 miliwn (2010: £310.6 miliwn).

Y cyfalaf gros ar 31 Rhagfyr 2011 oedd £509.1 miliwn (2010: £492.5 miliwn), gan gynnwys £107.0 miliwn o ddyled isradd a £75.4 miliwn o gyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (PIBS).

Y gymhareb cyfalaf gros fel canran o gyfranddaliadau a benthyciadau ar 31 Rhagfyr 2011 oedd 8.75% (2010: 8.71%) a'r gymhareb cyfalaf rhydd oedd 9.04% (2010: 8.93%). Mae'r Datganiad Busnes Blynyddol ar dudalen 93 yn cynnwys esboniad o'r cymarebau hyn.

Ôl-ddyledion morgais

Ar 31 Rhagfyr 2011 roedd 824 (2010: 782) o gyfrifon morgais ar draws y Grŵp lle'r oedd ôl-ddyledion o 12 mis neu fwy. O fewn y cyfrifon hyn, cyfanswm y prifswm a oedd yn ddyledus oedd £37.5 miliwn (2010: £39.0 miliwn) a chyfanswm yr ôl-ddyledion oedd £8.0 miliwn (2010: £8.0 miliwn), y mae darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer, pan fo'n briodol.

Gwahaniaethau o bwys rhwng gwerth tir ac adeiladau ar y farchnad a'r gwerth ar bapur

Mae'r Bwrdd o'r farn bod gwerth cyffredinol eiddo rhydd-ddaliadol a phrydlesol y Grŵp ar y farchnad yn fwy na'r gwerth ar bapur.

Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Rhoddion elusennol

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Grŵp roddion i elusennau gwerth £20 mil (2010: £45 mil). Ni wnaed unrhyw gyfraniadau at ddibenion gwleidyddol.

Polisi amgylcheddol

Mae ystyriaethau amgylcheddol yn parhau i fod yn uchel ar agenda'r Grŵp. Ar ôl ymchwilio i addasrwydd Paneli Solar Ffotofoltäig, cychwynnwyd cynllun mawr 47 cilowat ar

gyfer to ein hadeilad yng Nghroes Cwrlwys, sef pencadlys busnesau Peter Alan a'r Gwasanaethau Eiddo. Cynllun mawr yw hwn a gwblhawyd ac a gofrestrwyd mewn pryd i elwa ar dariff cyflenwi trydan y Llywodraeth cyn i newidiadau ddod i rym ym mis Rhagfyr 2011. Yn ogystal â lleihau costau, bydd y cynllun hwn hefyd yn arbed oddeutu 39,000 o gilogramau o allyriadau CO2 y flwyddyn. Yn ystod 2012, byddwn yn ymchwilio a fyddai'r dechnoleg hon yn addas ar gyfer lleoliadau eraill ar draws portffolio'r Grŵp.

Yn ystod 2011, ailgylchwyd mwy na 39,000 o gilogramau o bapur, arbedwyd 157,000 kWh o drydan ac anfonwyd 88m^3 yn llai o wastraff i safleoedd tirlenwi. Aethpwyd â mwy na 98 o finiau ailgylchu mawr (1,100 litr) o wastraff o Principality House yn ystod 2011 a fyddai wedi mynd i safleoedd tirlenwi cyn 2009. Newidiwyd y goleuadau am unedau mwy effeithlon a gosodwyd mwy o synwyryddion er mwyn sicrhau bod goleuadau'n cael eu diffodd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Mae rhaglen cynnal a chadw gynhwysfawr wedi'i chynllunio ar gyfer holl unedau aerdymheru'r Grŵp, gan sicrhau eu bod yn gweithio mor effeithlon â phosibl bob amser.

Cyflogeion

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod pa mor bwysig yw cyfathrebu'n effeithiol â staff. Mae'r dulliau cyfathrebu yn cynnwys safle mewnrwyd, cyhoeddiadau mewnol, cynadleddau a chyfarfodydd tîm rheolaidd i rannu gwybodaeth. Caiff adborth gan gyflogeion ei groesawu a'i annog trwy amrywiaeth o ddulliau megis fforwm ar y cyd rhwng staff a rheolwyr ac arolygon staff. Yn ogystal, ymgynghorir yn rheolaidd â chynrychiolwyr undeb.

Rhoddir pwys mawr ar recriwtio, hyfforddi a chadw cyflogeion o safon uchel. Mae pecynnau cydnabyddiaeth cystadleuol a chynlluniau perfformiad unigol, sydd wedi eu cysylltu'n eglur ag amcanion corfforaethol trwy gardiau sgorio busnes cytbwys, yn elfennau allweddol o'r strategaeth wobrwyo.

Polisi'r Gymdeithas yw sicrhau bod pob cyflogai ac ymgeisydd am swydd yn cael cyfle cyfartal, waeth beth fo'i ryw, cyfeiriadedd rhywiol, tarddiad ethnig, oedran nac anabledd. Pan fo hynny'n ymarferol, gwneir trefniadau i barhau â chyflogaeth cyflogeion sy'n mynd yn anabl yn ystod eu cyflogaeth gyda'r Gymdeithas, a threfnu hyfforddiant priodol ar eu cyfer.

Polisi talu cyflenwyr

Polisi'r Gymdeithas yw talu anfonebau cyflenwyr ar gyfer darparu nwyddau a gwasanaethau yn llawn gan gydymffurfio'n llwyr ag amodau'r pryniant ac o fewn y telerau talu y cytunwyd arnynt. Bwriedir parhau â'r polisi hwn yn 2012.

Ar 31 Rhagfyr 2011 roedd y cyfanswm a oedd yn ddyledus i gyflenwyr yn cyfateb i 27 diwrnod o gredyd (2010: 27 diwrnod).

Archwilwyr

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 21 Ebrill 2011, cadarnhaodd yr Aelodau gynnig i ailbenodi Deloitte LLP yn archwilwyr ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Gwneir y datganiad canlynol gan y cyfarwyddwyr i esbonio eu cyfrifoldebau o ran paratoi'r Cyfrifon Blynyddol, Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r datganiad o gyfrifoldebau'r archwilwyr ar dudalen 35.

Yn ôl Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi Cyfrifon Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun cywir a theg o incwm a gwariant y Gymdeithas a'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol ac o fusnes y Gymdeithas a'r Grŵp ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gan ddarparu manylion am enillion y cyfarwyddwyr yn unol â Rhan VIII y Ddeddf a'r rheoliadau a wnaed mewn cysylltiad â hi. Wrth baratoi'r Cyfrifon Blynyddol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- Ddewis polisïau cyfrifyddu priodol a'u gweithredu'n gyson;
- Llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu priodol, gan ystyried unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y Cyfrifon Blynyddol; a
- Pharatoi'r Cyfrifon Blynyddol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Gymdeithas yn parhau mewn busnes.

Yn ogystal â'r Cyfrifon Blynyddol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad gan y Cyfarwyddwyr ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac yn mynnu bod y naill a'r llall yn cynnwys gwybodaeth benodedig yn ymwneud â busnes y Gymdeithas a'i sefydliadau cysylltiedig.

Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr dros gofnodion cyfrifyddu a rheolaethau mewnol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y Grŵp:

- Yn cadw cofnodion cyfrifyddu yn unol â Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; ac
- Yn cymryd gofal rhesymol i sefydlu, cynnal, cofnodi ac adolygu unrhyw systemau a rheolaethau sy'n briodol i'w fusnes yn unol â'r rheolau a wnaed gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000.

Mae gan y cyfarwyddwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu asedau'r Grŵp a chymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw weithredoedd afreolaidd eraill.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol hefyd am uniondeb gwefan y Gymdeithas, www.principality.co.uk. Nid yw'r gwaith a gyflawnir gan yr archwilwyr yn golygu ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan. Mae gwybodaeth a gyhoeddir ar y rhyngrwyd ar gael mewn sawl gwlad sydd â gofynion cyfreithiol gwahanol yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol. Darperir gwybodaeth yn y datganiadau ariannol hyn dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

Busnes gweithredol

Mae datganiad y Cadeirydd ac adolygiad y Prif Weithredwr ar dudalennau 1 i 7, ynghyd â'r Adolygiad Busnes ar dudalennau 8 i 14, yn amlinellu adolygiad o fusnes y flwyddyn a chynlluniau'r Gymdeithas ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, mae nodyn 40 y datganiadau ariannol ar dudalennau 77 i 91 yn rhoi manylion offerynnau ariannol a gweithgareddau rhagfantoli'r Grŵp; a pha mor agored ydyw i risgiau o ran credyd, hylifedd a'r farchnad. Rhoddir crynodeb o'r prif risgiau a'r ansicrwydd sy'n wynebu'r Gymdeithas a'r Grŵp, yr amcanion a'r polisïau ar gyfer rheoli risg ariannol, a'r modd y mae'r Grŵp yn defnyddio deilliadau ariannol, yn yr Adroddiad Rheoli Risgiau ar dudalennau 15 i 19 ac yn nodyn 40 ar dudalennau 77 i 91.

Fel y cyflwynir yn y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol, mae'r Grŵp yn bodloni ei ofynion cyllido, sy'n cynnwys yr angen i gynnal byffer hylifedd digonol, yn bennaf trwy ffynonellau manwerthu wedi'u hategu trwy ddyroddi Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl (RMBS) yn ystod y flwyddyn. Mae'r amgylchiadau economaidd presennol yn creu rhywfaint o ansicrwydd o ran y graddau y bydd cyllid cyfanwerthu ar gael yn y dyfodol rhagweladwy.

Mae rhagolygon a rhagamcaniadau'r Grŵp yn cynnwys profi sefyllfaoedd yn unol â'r Broses Asesiad Mewnol o Ddigonolrwydd Cyfalaf (ICAAP) ac Asesiad Unigol o Ddigonolrwydd Hylifedd (ILAA), sef prosesau sy'n ofynnol gan ein rheoleiddiwr i ddangos lefelau cyfalaf a hylifedd priodol dan amgylchiadau o straen, gan adlewyrchu safbwyntiau'r cyfarwyddwyr ynglŷn â gwahanol risgiau a allai godi dan amgylchiadau economaidd amrywiol. Bydd y sefyllfaoedd hyn yn ystyried newidiadau rhesymol bosibl mewn perfformiad masnachu, ac yn dangos y bydd y Grŵp yn gallu gweithredu o fewn y ffynonellau cyllido sydd ar gael iddo ar hyn o bryd, hyd yn oed dan amgylchiadau o straen. Mae cynlluniau cyllido wrth gefn wedi'u sefydlu yn ychwanegol at y ffynonellau hyn.

Caiff yr asedau a ddelir at ddibenion hylifedd eu hasesu a'u hadolygu'n rheolaidd ar gyfer risgiau gwrthbartïon, ac mae'r cyfarwyddwyr yn ystyried nad yw'r Grŵp yn agored i golledion ar yr asedau hynny a fyddai'n effeithio ar y penderfyniad i ddefnyddio sail busnes gweithredol. Mae'r cyfarwyddwyr yn ystyried bod lefel gyffredinol cyfalaf, gan gynnwys cyfalaf Haen 1 gwerth £381.5 miliwn (13.49% fel canran o asedau wedi eu pwysoli o ran risg) a chymhareb diddyledrwydd o 16.89%, yn ddigonol.

Ar ôl ystyried cynlluniau a rhagolygon y Grŵp, mae'r cyfarwyddwyr yn credu y ceir adnoddau digonol ac nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys sy'n arwain at amheuaeth sylweddol ynglŷn â gallu'r Grŵp i barhau i gynnal busnes yn y dyfodol rhagweladwy. Yn unol â hyn, mae'r datganiadau ariannol yn parhau i gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Y dyfodol

Rydym yn llawn ddisgwyl i'r amgylchiadau economaidd anodd barhau am gryn amser, gyda phwysau cynyddol oherwydd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus, lefelau diweithdra uwch a phwysau byd-eang cynyddol. Nid oes amheuaeth y bydd yr amgylchiadau hynny, yn ogystal ag effaith Adolygiad Vickers, yn arwain at gyfnerthu pellach yn y sector a mwy o alw am gynilion manwerthu. Ni fydd diddordeb cyhoeddus a gwleidyddol mewn gwasanaethau ariannol yn pylu ac rydym yn monitro'n ofalus y broses o ddisodli'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol â'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Er gwaethaf yr amgylchedd anodd, mae'r Bwrdd yn hyderus o statws blaenllaw y Principality yn economi Cymru, a'i bod mewn sefyllfa dda i ymdopi â'r heriau sydd o'n blaenau.

Ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Dyfrig D. J. John
Cadeirydd
31 Ionawr 2012

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Mae'r Gymdeithas wedi parhau i gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU i'r graddau y mae ei ddarpariaethau'n berthnasol i gymdeithasau adeiladu.

Y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion strategol, rheoli'r busnes, adolygu perfformiad gweithredol a pherfformiad rheoli, goruchwylio is-gwmnïau a chynnal system llywodraethu corfforaethol effeithiol. Mae Llawlyfr Rheolaethau a Gweithdrefnau'r Bwrdd yn nodi pa faterion a gedwir ar gyfer y Bwrdd a pha rai a ddirprwyir i reolwyr. Caiff hyn ei adolygu'n flynyddol gan y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, ymddeolodd Christopher Rowlands, y Dirprwy Gadeirydd, o'r Bwrdd i ymgymryd â swyddogaeth arall. Mae swydd y Dirprwy Gadeirydd yn wag ar hyn o bryd ac mae'r broses o lenwi'r lle gwag ar y Bwrdd a grëwyd yn sgil yr ymddeoliad hwn wedi dechrau. Mae Keith Brooks wedi'i benodi i ymgymryd â swyddogaeth yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu trwy ei gyfarfodydd misol rheolaidd a phedwar pwyllgor: Archwilio, Cydnabyddiaeth, Enwebiadau a Risg y Grŵp. Cadarnhawyd strwythur cyfredol pwyllgorau'r Bwrdd yn 2010 a gwnaed rhai mân newidiadau i gylch gorchwyl ac aelodaeth y pwyllgorau hynny yn ystod 2011.

Aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a chofnod presenoldeb

	Bwrdd	Archwilio	Cydnabyddiaeth	Enwebiadau	Risg y
Dyfrig John	14/14	-	7/7	1/1	-
Keith Brooks	14/14	-	7/7	1/1	4/5
Langley Davies	14/14	6/6	-	1/1	2/2
Peter Griffiths	14/14	-	-	1/1	3/5
Christopher Jones	14/14	-	7/7	1/1	-
Joanne Kenrick	13/14	6/6	-	1/1	-
Gordon MacLean	13/14	6/6	-	1/1	-
Christopher Rowlands*	7/9	-	-	-	3/3
Guy Thomas	14/14	-	-	-	4/5
Graeme Yorston	14/14	-	-	-	4/5

* Ymddeolodd o'r Bwrdd ar 1 Hydref 2011.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cyfarfod yn ôl yr angen i ystyried ac argymell penodiadau newydd i'r Bwrdd. Cyfarfu'r Pwyllgor Enwebiadau ym mis Hydref a chytunodd i ddechrau'r broses recriwtio ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol newydd.

Y Pwyllgor Archwilio

Gordon MacLean yw cadeirydd y Pwyllgor, a Langley Davies a Joanne Kenrick yw ei aelodau eraill, ac mae'r tri ohonynt yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol. Mae gan Gordon MacLean a Langley Davies brofiad diweddar a pherthnasol o faterion ariannol. Mae'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, Ysgrifennydd y Grŵp, Pennaeth Archwilio'r Grŵp, Pennaeth Cydymffurfiaeth y Grŵp a chynrychiolwyr Deloitte, yr archwilwyr allanol, yn bresennol ym mhob cyfarfod. Mae'r Ysgrifennydd Cynorthwyol yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu fel Pwyllgor Archwilio i'r Gymdeithas a'i his-gwmnïau.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi'i rannu'n dri phrif faes yn bennaf: adolygu polisïau cyfrifyddu a chynnwys adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau uniondeb y datganiadau hynny ac, yn enwedig, pob barn ariannol allweddol; monitro'r amgylchedd rheolaeth fewnol; a goruchwylio gwaith archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys goruchwylio'r berthynas â'r archwilwyr allanol.

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn, gan fonitro uniondeb y datganiadau ariannol a chyhoeddiadau ffurfiol yn ymwneud â pherfformiad ariannol y Grŵp, yn ogystal ag adolygu polisïau cyfrifyddu perthnasol ac unrhyw farn ariannol arwyddocaol a gynhwysir ynddynt. Mae'r Pwyllgor wedi adolygu digonolrwydd costau lleihad mewn gwerth y Grŵp ac mae'n fodlon bod y costau hyn yn briodol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan Bennaeth Archwilio Mewnol y Grŵp ar ba mor ddigonol yw'r amgylchedd rheoli ac mae wedi adolygu pa mor effeithiol yw mesurau rheoli ariannol y Grŵp, yn ogystal â'r systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg. Mae hefyd wedi adolygu i ba raddau y cydymffurfir â deddfwriaeth a rheoliadau gwasanaethau ariannol, ac wedi monitro i sicrhau bod unrhyw gamau unioni angenrheidiol wedi'u cymryd neu wrthi'n cael eu cymryd ar gyfer unrhyw wendidau a nodwyd.

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo y DU i rym yn ystod 2011 ac mae'r Pwyllgor wedi monitro gwaith i gydymffurfio â'r Ddeddf hon.

Adolygodd y Pwyllgor gynllun gwaith cyffredinol Deloitte a chymeradwyo eu cydnabyddiaeth a'u telerau cyflogi. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth fanwl hefyd i ganlyniadau'r archwiliad, perfformiad ac annibyniaeth Deloitte, ac effeithiolrwydd y broses archwilio gyffredinol. Ceisir adborth gan randdeiliaid allweddol trwy holiadur er mwyn gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol. Dadansoddir yr ymatebion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor i'w hadolygu a'u trafod. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn fodlon ar berfformiad Deloitte ac wedi argymell i'r Bwrdd bod Deloitte yn cael eu hailbenodi'n archwilwyr. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2012.

Mae'r Pwyllgor wedi gweithredu polisi'r Grŵp sy'n cyfyngu ar y gwaith a wneir gan y cwmni archwilio allanol, sef Deloitte ar hyn o bryd, nad yw'n waith archwilio. Nod y polisi yw sicrhau nad yw darpariaeth gwasanaethau o'r fath yn effeithio ar annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol. Mae'n nodi pa waith y mae'n rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor neu'r Pwyllgor ei awdurdodi'n briodol pan fo ffioedd am waith nad yw'n waith archwilio yn uwch na throthwyon a nodwyd ymlaen llaw.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol ar y gwasanaethau a ddarperir nad ydynt yn waith archwilio, ac ar gyfanswm cronnus y ffioedd am waith nad yw'n waith archwilio. Cynhaliwyd y rhain yn unol â'r fframwaith a sefydlwyd i lywodraethu gorchwylion o'r fath ac ystyrir eu bod yn gyson â'r safonau proffesiynol a moesegol a ddisgwylir gan yr archwilwyr allanol. Roedd y ffi o £466,000 ar gyfer gwaith nad yw'n waith archwilio a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chyngor ar drethi, ymgynghoriaeth cyllid corfforaethol arbenigol a sicrwydd ychwanegol o ran yr RMBS. Y ffi archwilio ar gyfer y Grŵp a dalwyd yn ystod y flwyddyn oedd £130,000. Mae'r Pwyllgor yn mynnu bod y rheolwyr yn darparu cyfiawnhad cadarn dros bob cynnig i ddefnyddio archwilwyr allanol y Grŵp ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn waith archwilio. Ceir dadansoddiad o ffioedd am waith archwilio ac am waith nad yw'n waith archwilio yn Nodyn 9.

Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo cynllun Archwilio Mewnol y Grŵp ac wedi adolygu adnoddau, gwaith a chanlyniadau'r adran Archwilio Mewnol yn rheolaidd, yn ogystal â'r graddau y rhoddodd y rheolwyr yr argymhellion ar waith. Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu ac, os yn briodol, yn cymeradwyo unrhyw addasiadau sydd i'w gwneud i'r cynllun archwilio. Gall Pennaeth Archwilio Mewnol y Grŵp drafod yn uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor a Chadeirydd y Gymdeithas. Mae'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio yn gyffredinol â'r safonau a osodwyd gan y Sefydliad Archwilwyr Mewnol. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn awyddus i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'r tîm archwilio mewnol a thimau eraill o fewn y swyddogaeth Oruchwylio i'w galluogi i gyflawni eu cylch gorchwyl. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal cyfarfodydd preifat â Phennaeth Archwilio Mewnol y Grŵp, Pennaeth Cydymffurfiaeth y Grŵp a Deloitte yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar drefniadau'r Grŵp sy'n galluogi cyflogeion i godi pryderon penodol a manylion unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd yn sgil adroddiadau penodol.

Mae gan y Grŵp bolisi trosedd ariannol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod am unrhyw dwyll perthnasol a'r camau a gymerwyd yn gysylltiedig â hynny.

Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl ysgrifenedig a adolygir bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ei weithgareddau.

Annibyniaeth yr archwilwyr

Mae'r broses o benodi archwilwyr allanol yn cael ei chydlynu trwy'r Pwyllgor Archwilio, sy'n cyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd ynglŷn â phenodi neu ailbenodi. Gwneir hyn trwy broses o dendro cystadleuol fel arfer. Nid oes unrhyw rwymedigaethau cytundebol wedi'u sefydlu sy'n cyfyngu ar ddewis y Gymdeithas o archwilwyr allanol, ac nid yw'r Gymdeithas wedi sefydlu cytundeb atebolrwydd archwilwyr. Mae'r archwilwyr presennol wedi gwasanaethu

am fwy na phum mlynedd ac, yn unol â'r fframwaith polisi presennol, mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried bob blwyddyn pa un a ddylid cychwyn y broses tendro cystadleuol ar gyfer yr archwiliad. Yn 2011, daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod yr archwilwyr allanol yn parhau i fodloni'r prawf ar gyfer annibyniaeth a chytunodd nad oedd angen cychwyn y broses tendro cystadleuol yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r archwilwyr allanol gylchdroi'r partner archwilio sy'n gyfrifol am y Gymdeithas bob pum mlynedd. Mae partner archwilio newydd wedi ei benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd yn gynnar yn 2012.

Mae'r cwmni archwilwyr allanol yn cadarnhau i'r Pwyllgor Archwilio bob blwyddyn ei fod yn ei ystyried ei hun yn annibynnol yn ôl y diffiniad yn rheolau cyfredol Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr.

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cadeirir y Pwyllgor hwn o gyfarwyddwyr anweithredol gan Christopher Jones. Yr aelodau eraill yn ystod y flwyddyn oedd Keith Brooks a Dyfrig John. Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl ysgrifenedig a gaiff ei adolygu bob blwyddyn. Mae'n ystyried polisi cydnabyddiaeth ac mae'r Bwrdd yn dirprwyo i'r Pwyllgor hwn benderfyniadau ar gydnabyddiaeth y swyddogion gweithredol a phecynnau iawndal. Mae'r Pwyllgor yn monitro newidiadau mewn tueddiadau o ran cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr yn y farchnad, gan gynnwys ystyried Cod yr FSA ar Arferion Cydnabyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynnal Polisi Cydnabyddiaeth y Grŵp. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'r Pwyllgor yn derbyn cyngor gan ymgynghorwyr annibynnol – Hewitt New Bridge Street – nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad arall â'r Gymdeithas. Nid oes unrhyw unigolyn yn bresennol mewn cyfarfod lle y trafodir ei dâl ef neu ei thâl hi ei hun. Y Bwrdd sy'n penderfynu ar y ffioedd sy'n daladwy i'r Cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol eraill, ar sail argymhellion gan y cyfarwyddwyr gweithredol. Nodir manylion cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr ar dudalen 33. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar ei weithgareddau i'r Bwrdd.

Y Pwyllgor Enwebiadau

Cadeirir y Pwyllgor Enwebiadau gan Dyfrig John ac, fel arfer, mae'n cynnwys o leiaf ddau gyfarwyddwr anweithredol arall a'r Prif Weithredwr. Mae ganddo gylch gorchwyl ysgrifenedig a gaiff ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gynllunio ar gyfer olyniaeth gan weithredu fel pwyllgor enwebu ar gyfer pob penodiad newydd i'r Bwrdd. Mae modd gwneud cais i Ysgrifennydd y Grŵp am gopi o'r telerau a ddilynir wrth benodi cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar ei weithgareddau i'r Bwrdd.

Pwyllgor Risg y Grŵp

Cadeirir Pwyllgor Risg y Grŵp gan Langley Davies. Mae aelodau eraill y Pwyllgor yn cynnwys Keith Brooks, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp, y Cyfarwyddwr Gweithredol (y Gymdeithas Adeiladu a PropCo), Cyfarwyddwr Risg y Grŵp, Ysgrifennydd y Grŵp a nifer o uwch reolwyr eraill o bob rhan o'r Grŵp. Mae gan y Pwyllgor gylch gorchwyl ysgrifenedig a gaiff ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am ystyried ac argymell parodrwydd y Grŵp i dderbyn risg, a digonolrwydd ei lefelau cyfalaf a hylifedd i'r Bwrdd. Mae'n gyfrifol am gynnal strwythur llywodraethu priodol er mwyn sicrhau y nodir ac y rheolir risgiau yn effeithiol ym mhob rhan o'r Grŵp, ac am fonitro ac adolygu risgiau mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar ei weithgareddau i'r Bwrdd.

Mae modd gofyn i Ysgrifennydd y Grŵp am gopi o Gylch Gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd. Maent hefyd ar gael ar wefan y Gymdeithas – www.principality.co.uk.

Cydbwysedd ac annibyniaeth y Bwrdd

Ar ddiwedd 2011, roedd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd anweithredol, pum cyfarwyddwr anweithredol arall a thri chyfarwyddwr gweithredol. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gan bob un o'r cyfarwyddwyr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, farn annibynnol a'i fod yn rhydd rhag unrhyw gydberthnasau sy'n debygol o effeithio ar ei farn ef neu ei barn hi.

Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Y Cadeirydd sy'n arwain y Bwrdd ac nid yw'n ymwneud â'r gwaith o reoli'r Gymdeithas o ddydd i ddydd. Mae proffil swyddogaeth y Cadeirydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Mae cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr wedi eu nodi mewn proffil swyddogaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Penodiadau i'r Bwrdd

Ceisir ymgeiswyr anweithredol mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy hysbysebion yn y wasg a chyda chymorth ymgynghorwyr chwilio allanol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyrraedd safonau addasrwydd a phriodoldeb yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Yn ogystal, mae Rheolau'r Gymdeithas yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddwyr newydd sefyll etholiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y flwyddyn ar ôl y flwyddyn iddynt gael eu penodi. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd yn rhaid i bob cyfarwyddwr sefyll ailetholiad bob blwyddyn o 2012 ymlaen. Mae modd gofyn i Ysgrifennydd y Grŵp am gopi o'r llythyr penodi ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol.

Gwybodaeth a hyfforddiant

Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gael yn llawn ac yn brydlon i'r Bwrdd er mwyn iddo allu cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob cyfarwyddwr yn cael y wybodaeth briodol am faterion sy'n codi yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Gall pob cyfarwyddwr fanteisio ar gyngor a gwasanaethau Ysgrifennydd y Grŵp. Caiff aelodau'r Bwrdd geisio cyngor proffesiynol annibynnol ar draul y Gymdeithas er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Ysgrifennydd y Grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau'r Bwrdd yn cael eu dilyn.

Mae gan y Gymdeithas raglen ar gyfer bodloni gofynion cyfarwyddwyr o ran hyfforddiant. Rhoddir hyfforddiant priodol ar eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau i gyfarwyddwyr anweithredol sydd newydd eu penodi. Darperir hyfforddiant dilynol yn barhaus i ddiwallu anghenion penodol.

Gwerthuso perfformiad

Mae'r Cadeirydd yn cynnal cyfweliad gwerthuso perfformiad blynyddol gyda phob cyfarwyddwr anweithredol a'r Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal arfarniad perfformiad blynyddol gyda phob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol eraill.

Ym mis Ionawr 2012, cynhaliodd y Bwrdd werthusiad o berfformiad y Cadeirydd a gwerthusiad o'i berfformiad ei hun. Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor Risg y Grŵp adolygiad o'u heffeithiolrwydd eu hunain yn ystod y flwyddyn.

Cyfathrebu â'r Aelodau a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Mae'r Gymdeithas yn ymroddedig i gyfathrebu'n effeithiol ag Aelodau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Fforwm Aelodau ddau gyfarfod yn ogystal â thair sesiwn 'talkback' gyda grwpiau o Aelodau. Roedd amryw o gyfarwyddwyr y Gymdeithas yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn, ac maent yn ddull gwerthfawr i'r cyfarwyddwyr glywed barn yr Aelodau am y Gymdeithas.

Mae'r Gymdeithas yn annog pob Aelod cymwys i gymryd rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, naill ai drwy fynd iddo yn bersonol neu drwy bleidleisio trwy ddirprwy. Mae'r agenda'n cynnwys penderfyniad ar yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr. Anogir Aelodau i bleidleisio trwy roi rhodd i elusen ar gyfer pob papur pleidleisio a dderbynnir. Caiff pob pleidlais trwy ddirprwy ei rhoi i swyddogion craffu annibynnol, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod i gyfrif y pleidleisiau a gaiff eu bwrw gan Aelodau yn bersonol. Yn unol â Rheolau'r Gymdeithas, anfonir yr Hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol at bob Aelod cymwys o leiaf 21 diwrnod cyn y cyfarfod.

Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn a thros adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae hyn yn cynnwys rheolaethau ariannol a gweithredol, ac o ran cydymffurfiad yn ogystal â rheoli risg. Dyma rai o'r prosesau a ddefnyddir i asesu pa mor effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol, ac sydd wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn:

- Adolygiadau gweithredol ac ariannol rheolaidd, gan y rheolwyr a'r Bwrdd, er mwyn cymharu perfformiad â chyllidebau a rhagolygon;
- Adolygiadau rheolaidd gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio yn edrych ar gwmpas a chanlyniadau'r gwaith archwilio mewnol ar draws y Grŵp. Mae cwmpas y gwaith yn cynnwys pob un o weithgareddau allweddol y Grŵp ac yn canolbwyntio ar feysydd lle ceir mwy o risg;
- Adolygiadau gan y Pwyllgor Archwilio yn edrych ar gwmpas gwaith yr archwilwyr allanol ac unrhyw faterion o bwys sy'n codi;
- Adolygiadau gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd o bolisïau cyfrifyddu a lefelau awdurdod dirprwyedig; ac
- Ystyriaeth gan y Bwrdd o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp a'r gweithdrefnau i'w rheoli.

Mae proses barhaus wedi'i sefydlu ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau o bwys a wynebir gan y Grŵp. Ar hyn o bryd mae'r broses yn cynnwys:

- Y rheolwyr ar draws y Grŵp yn defnyddio proses hunanasesu er mwyn nodi'n ffurfiol y risgiau allweddol i'w allu i gyflawni ei amcanion busnes a'r mesurau sydd ar waith i'w rheoli. Gwerthusir tebygolrwydd ac effaith bosibl pob risg;
- Adolygiad annibynnol gan yr archwilwyr mewnol o fodolaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau rheoli risg; ac
- Adolygiad rheolaidd gan y Bwrdd a Phwyllgor Risg y Grŵp o'r risgiau strategol canfyddedig.

Mae'r broses hon wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn. Mae Pwyllgor Risg y Grŵp yn derbyn adroddiadau ar statws y risgiau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar hyn i'r Bwrdd sydd, ar ben hynny, yn cynnal ymarferion rheolaidd i ddilysu casgliadau'r rheolwyr ynglŷn â'r prif risgiau strategol sy'n wynebu'r Grŵp.

Dyfrig D. J. John
Cadeirydd
31 Ionawr 2012

Ariannodd y Principality fenthyciad o £12 miliwn tuag at Bartneriaeth Tai Cymru i greu model rhentu â mwy o hygrededd i Gymru. Yn y llun fe welir Pennaeth Adran Fasnachol y Principality, Peter Hughes, y Gweinidog Jane Hutt, Cadeirydd Partneriaeth Tai Cymru, Ian Williams, y tenant cyntaf, Charlotte Awcock, Prif Weithredwr Cartrefi Cymunedol Cymru, Nick Bennett, a'r Gweinidog Huw Lewis

Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n adrannau ar wahân ar gyfer gwybodaeth archwiliedig a gwybodaeth anarchwiliedig.

Gwybodaeth anarchwiliedig

Egwyddorion cydnabyddiaeth

Mae'r Principality yn falch o fod yn fusnes cydfuddiannol sy'n cael ei redeg i ddarparu buddiannau i'w Aelodau. Trwy ein polisi cydnabyddiaeth, rydym yn ceisio hyrwyddo pennaf les ein Haelodau ac, yn arbennig, sicrhau y caiff y busnes ei redeg yn ddiogel a llwyddiannus er mwyn cadw cynilion ein Haelodau'n ddiogel a'u cysylltiadau ariannol eraill â ni yn ddiogel a dibynadwy. O ganlyniad, y ddwy egwyddor bwysicaf sy'n darparu sail i'n hagwedd at gydnabyddiaeth, a chydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol yn arbennig, yw:

- Pennu cydnabyddiaeth yn gyffredinol ar lefel sy'n gystadleuol ond nid yn ormodol, er mwyn i ni allu denu a chadw pobl o ansawdd uchel sy'n gallu sicrhau bod y Principality yn parhau i fasnachu'n llwyddiannus mewn marchnad hynod gystadleuol ac ansicr; a
- Strwythuro'r gydnabyddiaeth honno, a'r elfennau amrywiol yn enwedig, mewn modd sy'n ysgogi ein pobl ac yn eu gwobrwyo am waith da sy'n hybu lles yr Aelodau, ond heb eu hannog i gymryd risgiau gormodol neu weithredu mewn unrhyw ffordd arall sy'n amhriodol i sefydliad cydfuddiannol.

Mae'r Principality yn ceisio cynnal safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno gwybodaeth sy'n bodloni gofynion allweddol y Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol o ran datgelu.

Datblygiadau Rheoliadol Diweddar: Cod Cydnabyddiaeth yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Mae darpariaethau a gofynion 'Cod Cydnabyddiaeth' yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (yr FSA) yn berthnasol i'r Grŵp, gan ei fod yn gwmni 'Haen 2'. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar strwythurau tâl a chymhelliant cyffredinol y Grŵp. Cyhoeddwyd y Cod ym mis Rhagfyr 2010 yn y lle cyntaf, a daeth i rym yn llawn ar 1 Ionawr 2011 gyda chyfnod trosiannol ar gyfer gweithredu gofynion y Cod tan 30 Mehefin 2011.

Mae'r gwaith yr ydym wedi ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi golygu ein bod eisoes yn cydymffurfio â llawer o'r Cod. Yn ystod 2011, rydym wedi parhau i ymateb i ofynion yr FSA ac wedi cyflwyno i'r FSA yr ymagwedd at y Cod y cytunodd y Grŵp arno, gan gynnwys ein hymagwedd at nodi staff y mae'r Cod yn berthnasol iddynt, y cymarebau cydnabyddiaeth sefydlog:amrywiol, a'r trefniadau gohirio ar gyfer cynlluniau bonws Staff y Cod. Yn fwy penodol, rydym wedi ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr FSA ar ddatgelu cydnabyddiaeth yn ymwneud â gofynion y Gyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf, a chanllawiau gan y Pwyllgor Goruchwylwyr Bancio Ewropeaidd. Yn ystod 2012, bydd y Pwyllgor yn parhau i gydymffurfio â'r Cod a phob datblygiad rheoliadol yn y dyfodol.

Gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys Christopher Jones (Cadeirydd), Keith Brooks a Dyfrig John, sydd oll yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol. Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn ystod y flwyddyn (cyfarfu chwe gwaith yn 2010). Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu, ar ran y Bwrdd, yr arferion a'r polisïau cydnabyddiaeth cyffredinol ar gyfer pob aelod o staff ac, yn arbennig, lefel cydnabyddiaeth y tri chyfarwyddwr gweithredol ac wyth uwch aelod arall o Staff y Cod, a nodwyd gan y Pwyllgor fel rhai a allai gael effaith o bwys ar broffil risg y Gymdeithas.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor y canlynol:

- yr adolygiad cyflog blynyddol ar gyfer staff ym mhob rhan o'r Grŵp;
- strwythur cynlluniau bonws am gyflawni targedau, ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol a Staff y Cod, gan gynnwys ystyried Cod Cydnabyddiaeth yr FSA;
- y rheolau ar gyfer Cynllun Bonws Blynyddol y cyfarwyddwyr gweithredol a Chynllun Bonws Perfformiad y Grŵp;
- y strategaeth ynglŷn â phensiynau o ran cynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig (a gaewyd i groniadau pellach ym mis Gorffennaf 2010);
- cydymffurfiad â phob elfen o God Cydnabyddiaeth yr FSA; a'r
- Polisi Gwobrwyo ar gyfer y Grŵp, a pholisïau eraill, yn ogystal â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Mae Cylch Gorchwyl llawn y Pwyllgor ar gael ar wefan y Gymdeithas.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio cyngor gan gynghorwyr allanol, annibynnol os yw o'r farn y byddai hyn yn fuddiol wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Eleni, cynhaliodd Hewitt New Bridge Street waith meincnodi ar becynnau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol, y Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol. Nid oes gan yr ymgynghorwyr hyn unrhyw gysylltiad arall â'r Gymdeithas. Rhoddodd KPMG ac Eversheds gyngor ar y newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod ynglŷn â phensiynau, ac ar drethi, a'r strategaeth ynglŷn â phensiynau.

Mae Elaine Morris, Ysgrifennydd y Grŵp, yn gweithredu fel ysgrifennydd y Pwyllgor. Mae Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor, yn ogystal â Phennaeth Adnoddau Dynol y Grŵp. Gwahoddir y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp a Chyfarwyddwr

Risg y Grŵp i gyfarfodydd y Pwyllgor fel bo'r angen ac mae'r Pwyllgor yn ystyried eu barn wrth adolygu cydnabyddiaeth uwch swyddogion gweithredol, rheolwyr a staff. Nid ydynt yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn â'u tâl eu hunain.

Elfennau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Mae tâl y cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys pum elfen - cyflog sylfaenol, bonws blynyddol, bonws perfformiad y Grw^p, buddiannau pensiwn a buddiannau eraill (nodir manylion y rhain ar dudalennau 33 a 34). Nid yw pensiwn yn daladwy ar daliadau dan y naill gynllun bonws na'r llall.

Cyflog sylfaenol

Mae'r cyflog sylfaenol a bennir gan y Pwyllgor yn adlewyrchu sgiliau, profiad a pherfformiad yr unigolyn, yn ogystal â chyfrifoldebau'r swydd. Mae'r Pwyllgor yn ystyried lefelau cyflog trwy gymharu â swyddi tebyg mewn grŵp sy'n cynnwys y cymdeithasau adeiladu mwyaf. Wrth benderfynu ar gyflogau swyddogion gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried ffactorau economaidd, tueddiadau o ran cydnabyddiaeth a'r codiadau cyflog a roddwyd yn gyffredinol yn y Grŵp cyfan. Yn 2011, gwnaed cynnydd o 2.5% i gyflogau swyddogion gweithredol, sy'n cyfateb i'r cynnydd cyfartalog ar gyfer holl staff y Gymdeithas.

Bonws blynyddol

Mae'r Cynllun Bonws Blynyddol yn rhoi cyfle i wobrwyo cyfarwyddwyr gweithredol am gyflawni targedau anodd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n seiliedig ar gyflawni cyfres o dargedau perfformiad yn ymwneud â mesurau ariannol, a mesurau o ran gwasanaeth i gwsmeriaid, pobl a phrosesau yn ogystal ag amcanion personol. Pennir y mesur ariannol ar ffurf targed elw anodd, er mwyn sicrhau y gellir fforddio'r bonws ac er mwyn gwarchod buddiannau'r Aelodau. 40% o'r cyflog yw'r bonws uchaf posibl dan y Cynllun Bonws Blynyddol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi gofynion rheoliadol o ran cyfalaf a hylifedd y mae'n rhaid i'r Gymdeithas eu bodloni cyn y gellir rhoi unrhyw fonws.

Mae tri chyfarwyddwr gweithredol, sef Peter Griffiths, Guy Thomas a Graeme Yorston, yn gymwys i gael taliadau bonws blynyddol o 20% yn sgil perfformiad yn ystod 2011. Yn unol â'r Cod Cydnabyddiaeth, telir 60% o'r bonws hwn ym mis Chwefror 2012, ac yna telir y balans mewn tri rhandaliad cyfartal ym mis Chwefror 2013, 2014 a 2015. Dan reolau'r cynllun, mae gweddill y bonws gohiriedig yn destun adolygiad blynyddol, a gellir ei leihau neu ei dynnu'n ôl yn ôl disgresiwn y Pwyllgor yn unol â'r gofynion a nodir yng Nghod Cydnabyddiaeth yr FSA.

Bonws Perfformiad y Grŵp

Bwriad Bonws Perfformiad y Grŵp (GPB) yw cymell cyfarwyddwyr gweithredol i sicrhau bod y Grŵp yn parhau i gyflawni enillion, yn arbennig trwy dwf busnes newydd proffidiol yn y Grŵp. Mae'r GPB yn seiliedig ar gymharu perfformiad blynyddol y Grŵp (o ran enillion ar ôl treth ar asedau cymedrig) â grŵp sy'n cynnwys y cymdeithasau adeiladu mwyaf. 60% o'r cyflog yw'r bonws mwyaf sy'n daladwy dan y cynllun GPB. Mae'n rhaid bodloni'r trothwyon rheoliadol o ran cyfalaf a hylifedd hefyd cyn cymharu perfformiad y Grŵp â pherfformiad y grŵp o gymdeithasau adeiladu mwyaf a chyn rhoi unrhyw fonws. Ni wneir taliadau os bydd perfformiad islaw 90% o gyfartaledd y grŵp o gwmnïau y cymharwyd â hwy.

Yn unol â'r Cod Cydnabyddiaeth, bydd 60% o fonws y cynllun hwn ar gyfer 2011 yn cael ei gyfrifo a'i dalu ym mis Mehefin 2012, pan fydd y canlyniadau'n hysbys ar gyfer y grŵp o gwmnïau y cymharwyd â hwy, oherwydd mai mis Mawrth 2012 yw dyddiad diwedd blwyddyn rhai ohonynt. Mae swm sy'n hafal i'r hyn a delir am berfformiad yng nghyfartaledd yn y grŵp o gymaryddion wedi ei gronni yn y cyfrifon hyn. Dan reolau'r cynllun, telir gweddill y bonws gohiriedig (40%) mewn rhandaliadau cyfartal yn ystod y tair blynedd nesaf, yn amodol ar adolygiad blynyddol, a gellir ei leihau neu ei dynnu'n ôl yn ôl disgresiwn y Pwyllgor yn unol â'r gofynion a nodir yng Nghod Cydnabyddiaeth yr FSA.

Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr anweithredol

Nid oes gan y Cadeirydd na'r cyfarwyddwyr anweithredol gontractau gwasanaeth, ac mae'n rhaid iddynt sefyll ailetholiad bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Telir ffi sylfaenol i gyfarwyddwyr anweithredol am fod ar Fwrdd y Gymdeithas. Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn derbyn ffioedd ychwanegol sy'n daladwy am ddarparu gwasanaethau ar Bwyllgorau'r Bwrdd ac am fod yn aelodau o Fyrddau'r is-gwmnïau.

Pennir ffioedd y Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol gan y Bwrdd yn unol ag argymhellion y cyfarwyddwyr gweithredol.

Yn 2011, cafwyd data meincnodi gan Hewitt New Bridge Street gan fod y Gymdeithas yn cydnabod bod cyfrifoldebau ei chyfarwyddwyr anweithredol a'r gofynion ar eu hamser wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar yn sgil mwy fyth o ofynion rheoliadol. Mae'r data meincnodi yn dangos bod ffioedd cyfarwyddwyr anweithredol y Gymdeithas islaw canolrif y farchnad o'u cymharu â'r grŵp o gymdeithasau adeiladu mwyaf. Felly, cynyddwyd ffioedd sylfaenol y Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol 2.5%, sef yr un faint â'r cynnydd cyfartalog ar gyfer yr holl staff a chyfarwyddwyr gweithredol, a chynyddwyd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau ar Bwyllgorau'r Bwrdd hefyd.

Nodir manylion cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr anweithredol ar y dudalen ganlynol. Nid oes unrhyw gynlluniau bonws na threfniadau pensiwn ar gyfer y Cadeirydd na'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Gwybodaeth archwiliadwy

Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

Mae'r datgeliad canlynol yn yr adroddiad hwn (a'r adran ganlynol sy'n ymwneud â threfniadau pensiwn y cyfarwyddwyr gweithredol) yn cynnwys gwybodaeth a archwilir.

	Cyflog a ffioedd	Buddiannau	Bonws blynyddol	Bonws perfformiad y Grŵp	Is-gyfanswm	Cynnydd mewn pensiwn cronedig	Pensiwn	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cyfarwyddwyr Gweithredol 2011								
Peter Griffiths	302	13	60	106	481	-	45	526
Guy Thomas	211	13	42	74	340	-	32	372
Graeme Yorston	200	11	40	70	321	-	30	351
Cyfanswm	**713**	**37**	**142**	**250**	**1,142**	**-**	**107**	**1,249**
Cyfarwyddwyr Gweithredol 2010								
Peter Griffiths	296	13	74	177	560	5	19	584
Haydn Warman (hyd 9/3/10)	34	3	-	12	49	3	-	52
Guy Thomas	207	13	52	124	396	3	13	412
Graeme Yorston	196	11	49	118	374	-	27	401
Cyfanswm	**733**	**40**	**175**	**431**	**1,379**	**11**	**59**	**1,449**

	Cyflog a Ffioedd	
	£000	£000
Cyfarwyddwyr anweithredol		
David Williams (hyd 23/04/10)	-	22
Dyfrig John	68	55
Eurfyl ap Gwilym (hyd 23/04/10)	-	20
Christopher Rowlands (hyd 01/10/11)	34	38
Christopher Jones	35	35
Gordon MacLean	45	44
Langley Davies	63	46
Keith Brooks	54	45
Joanne Kenrick	34	32
Is-gyfanswm	333	337
Cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol	1,249	1,449
Cyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr	**1,582**	**1,786**

1. Cyfrifwyd Bonws Perfformiad y Grŵp (GPB) ar gyfer 2010 ym mis Gorffennaf 2011 pan oedd y gyfres lawn o ganlyniadau ar gyfer y grŵp o gymaryddion ar gael. Arweiniodd hyn at hawl bonws ychwanegol o £174,000 a enillwyd gan y cyfarwyddwyr gweithredol o ran canlyniad terfynol y Cynllun. Mae'r swm hwn yn daladwy dros dair blynedd.
2. Mae GPB 2011 yn seiliedig ar ragdybiaeth o berfformiad cyfartalog o'i gymharu â'r grŵp o gymaryddion, a chaiff ei addasu i fyny neu i lawr i adlewyrchu'r perfformiad gwirioneddol pan fydd canlyniadau eraill 2011 yn hysbys.
3. Mae'r ffigurau dan y pennawd Buddiannau yn cynnwys ceir, tanwydd ac yswiriant meddygol personol.

Contractau gwasanaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Mae gan y cyfarwyddwyr canlynol gontractau gwasanaeth ar gyfer eu dyletswyddau gweithredol, sy'n nodi cyfnod rhybudd o flwyddyn neu daliad terfynu:

	Dyddiad y contract
Peter Griffiths	14/11/06
Guy Thomas	14/11/06
Graeme Yorston	31/12/07

Trefniadau pensiwn y cyfarwyddwyr gweithredol

Caewyd y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn ystod 2010. Ar ddiwedd 2010, gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig oedd £334,000 ar gyfer Peter Griffiths a £363,000 ar gyfer Guy Thomas.

Er 1 Awst 2010, derbyniodd pob un o'r tri chyfarwyddwr gweithredol gyfraniadau pensiwn o 15% o'r cyflog sylfaenol. Gellid eu talu i gynllun cyfraniadau diffiniedig, neu ddewis iddo gael ei dalu fel lwfans arian parod. Cofnodir y cyfraniadau pensiwn hyn yn nhabl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr uchod. Parheir i dalu pedair gwaith y cyflog sylfaenol os bydd rhywun yn marw yn ei swydd.

Casgliad

Mae'r Grŵp wedi perfformio'n dda yn 2011, gan adlewyrchu trefniadau rheoli cadarn a manteision y strategaethau a sefydlwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Llwyddwyd i sicrhau'r canlyniad hwn mewn blwyddyn pan oedd amgylchiadau'r farchnad yn anodd ac ansicr dros ben. Mae ein perfformiad masnachu da wedi amddiffyn buddiannau ein Haelodau ac wedi ein galluogi i barhau i roi gwerth da iddynt. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau a'r polisïau cydnabyddiaeth priodol sydd wedi'u sefydlu, fel a nodir yn yr adroddiad hwn, wedi cyfrannu at y canlyniad cadarnhaol hwn.

Mae'r Pwyllgor yn argymell yr adroddiad hwn i'r Aelodau i'w gymeradwyo yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Christopher Jones
Cadeirydd
31 Ionawr 2012

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol
ar gyfer Aelodau Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp a Chymdeithas y Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Gymdeithas o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Gymdeithas o Incwm a Threuliau Cydnabyddedig, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Gymdeithas o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Gymdeithas o Lif Arian Parod a'r Nodiadau cysylltiedig 1 i 41. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw deddfwriaeth berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 78 Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Aelodau'r Gymdeithas am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu amdanynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd eithaf yr hyn a ganiateir dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb tuag at unrhyw un ac eithrio'r Gymdeithas ac Aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio a mynegi barn ar y datganiadau ariannol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â'r Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol, pa un a achoswyd hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o ba un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp a'r Gymdeithas ac a ydynt wedi eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r holl wybodaeth nad yw'n ariannol yn yr adroddiad blynyddol er mwyn nodi anghysondebau o bwys â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os ydym yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad neu anghysondeb ymddangosiadol o bwys, byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn ni:

- Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â'r IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, o sefyllfa'r Grŵp a'r Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2011 ac o incwm a gwariant y Grŵp a'r Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- Maent wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 ac, o ran datganiadau ariannol y Grŵp, Erthygl 4 Rheoliad IAS.

Barn ar faterion eraill a ragnodir gan Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986

Yn ein barn ni:

- Mae'r Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986; ac
- Mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu a'r datganiadau ariannol; ac
- Mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Busnes Blynyddol (heblaw'r wybodaeth nad yw'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arni) yn rhoi darlun cywir o'r materion y mae'n ymwneud â hwy.

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt trwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd arno o ran y materion canlynol lle y mae Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

- Nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol; neu
- Nad yw datganiadau ariannol y Gymdeithas yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- Nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau a'r hawl i weld y dogfennau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Mark McQueen
Uwch Archwilydd Statudol
ar gyfer ac ar ran Deloitte LLP
Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd, Y Deyrnas Unedig
31 Ionawr 2012

Mae staff yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol wastad wrth law i helpu

Datganiad cyfunol o'r incwm cynhwysfawr

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	4	235.4	222.4
Llog taladwy a thaliadau tebyg	5	(130.4)	(110.6)
Incwm llog net		105.0	111.8
Ffioedd a chomisiynau derbyniadwy	6	20.6	17.9
Ffioedd a chomisiynau taladwy	7	(1.4)	(1.6)
Incwm ffioedd a chomisiynau net		19.2	16.3
Incwm gweithredu arall		1.4	0.8
(Colledion)/enillion gwerth teg eraill	8	(0.1)	0.2
Incwm gweithredu net		125.5	129.1
Treuliau gweinyddol	9	(60.0)	(56.4)
Dibrisiant ac amorteiddiad	24 a 25	(6.2)	(5.7)
Treuliau gweithredu		(66.2)	(62.1)
Darpariaeth lleihad mewn gwerth ar gyfer colledion ar fenthyciadau a blaensymiau	21a	(24.6)	(22.2)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	21b	(11.2)	(17.1)
Elw gweithredu		23.5	27.7
Enillion eraill	35	1.0	3.1
Elw cyn treth		24.5	30.8
Treuliau treth	13	(7.1)	(7.6)
Elw ar gyfer y flwyddyn		**17.4**	**23.2**

Datganiad cyfunol o gyfanswm yr incwm a'r treuliau cydnabyddedig

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Elw ar gyfer y flwyddyn		17.4	23.2
Colled actiwaraidd ar rwymedigaethau buddiannau ymddeol	12	(4.2)	(0.5)
Symudiadau mewn treth ohiriedig yn ymwneud â rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	34	0.9	-
Cyfanswm yr incwm cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	**37**	**14.1**	**22.7**

Mae pob eitem yr ymdrinnir â hi wrth bennu'r elw cyn treth a'r elw ar gyfer y flwyddyn ariannol, a'r flwyddyn ariannol flaenorol, fel yr uchod, yn ymwneud â gweithrediadau sy'n parhau.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r Nodiadau ar dudalennau 43 i 92 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o incwm cynhwysfawr y Gymdeithas

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	4	192.5	177.3
Llog taladwy a thaliadau tebyg	5	(130.1)	(110.6)
Incwm llog net		62.4	66.7
Ffioedd a chomisiynau derbyniadwy	6	9.9	10.1
Ffioedd a chomisiynau taladwy	7	(0.5)	(0.5)
Incwm ffioedd a chomisiynau net		9.4	9.6
Incwm gweithredu arall		1.5	1.2
Enillion/(colledion) gwerth teg eraill	8	(0.1)	0.2
Incwm gweithredu net		73.2	77.7
Treuliau gweinyddol	9	(45.0)	(42.4)
Dibrisiant ac amorteiddiad	24 a 25	(5.0)	(4.6)
Treuliau gweithredu		(50.0)	(47.0)
Darpariaeth lleihad mewn gwerth ar gyfer colledion ar fenthyciadau a blaensymiau	21a	(11.3)	(12.4)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	21b	(1.9)	(1.0)
Elw gweithredu		10.0	17.3
Enillion eraill		1.0	3.1
Elw cyn treth		11.0	20.4
Treuliau treth	13	(2.7)	(4.6)
Elw ar gyfer y flwyddyn		**8.3**	**15.8**

Datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig y Gymdeithas

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Elw ar gyfer y flwyddyn		8.3	15.8
Colled actiwaraidd ar rwymedigaethau buddiannau ymddeol	12	(4.2)	(0.5)
Symudiadau mewn treth ohiriedig yn ymwneud â rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	34	0.9	-
Cyfanswm yr incwm cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	**37**	**5.0**	**15.3**

Mae pob eitem yr ymdrinnir â hi wrth bennu'r elw cyn treth a'r elw ar gyfer y flwyddyn ariannol, a'r flwyddyn ariannol flaenorol, fel yr uchod, yn ymwneud â gweithrediadau sy'n parhau.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 43 i 92 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol
ar 31 Rhagfyr 2011

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Asedau			
Asedau hylifol:			
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr		532.9	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	14	172.1	73.3
Gwarannau dyledion	15	409.7	800.8
		1,114.7	1,194.8
Offerynnau ariannol deilliadol	16	45.5	38.7
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid:			
Benthyciadau wedi'u gwarantu'n llawn ar eiddo preswyl	18	4,644.9	4,338.1
Benthyciadau eraill wedi'u gwarantu'n llawn ar dir	19	530.0	571.5
Benthyciadau eraill	18	45.2	50.8
	20	5,220.1	4,960.4
Buddsoddiad mewn cyd-fentrau	23	-	-
Asedau sefydlog anniriaethol	24	2.5	2.1
Eiddo, offer trwm a chyfarpar	25	43.7	40.9
Asedau treth ohiriedig	34	3.3	3.3
Asedau eraill	26	4.9	3.8
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	27	15.0	18.1
Cyfanswm yr asedau		**6,449.7**	**6,262.1**
Rhwymedigaethau			
Cyfranddaliadau	28	5,013.8	5,039.0
Adneuon a gwarannau dyledion:			
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	29	115.4	245.4
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	30	306.9	286.9
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd	31	386.3	86.3
		808.6	618.6
Offerynnau ariannol deilliadol	16	57.4	55.7
Rhwymedigaethau treth presennol		3.1	1.3
Rhwymedigaethau eraill	32	8.6	6.7
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	21b	26.7	24.8
Croniadau ac incwm gohiriedig	33	9.9	12.7
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	34	1.0	1.5
Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	12	11.5	9.3
Rhwymedigaethau isradd	35	107.0	112.3
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	36	75.4	69.2
Cyfanswm y rhwymedigaethau		6,123.0	5,951.1
Cronfa gyffredinol wrth gefn	37	324.7	310.6
Cronfeydd wrth gefn eraill	38	2.0	0.4
Cyfanswm yr ecwiti a'r rhwymedigaethau		**6,449.7**	**6,262.1**

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 43 i 92 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y cyfrifon hyn gan y Bwrdd ar 31 Ionawr 2012.

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd:

Dyfrig D. J. John Cadeirydd

Peter L. Griffiths Prif Weithredwr

W. Guy Thomas Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

Datganiad o sefyllfa ariannol y Gymdeithas

ar 31 Rhagfyr 2011

	Nodiadau	2011 £m	2010 £m
Asedau			
Asedau hylifol:			
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr		532.9	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	14	72.3	71.8
Gwarannau dyledion	15	409.7	800.8
		1,014.9	1,193.3
Offerynnau ariannol deilliadol	16	45.5	38.7
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid:			
Benthyciadau wedi'u gwarantu'n llawn ar eiddo preswyl	18	4,068.5	3,711.2
Benthyciadau eraill wedi'u gwarantu'n llawn ar dir	19	530.0	571.5
	20	4,598.5	4,282.7
Buddsoddiadau mewn sefydliadau is-gwmni	22	587.5	653.7
Buddsoddiad mewn cyd-fentrau	23	-	-
Asedau sefydlog anniriaethol	24	1.8	1.4
Eiddo, offer trwm a chyfarpar	25	39.3	36.7
Asedau treth ohiriedig	34	3.3	3.1
Asedau eraill	26	2.9	3.7
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	27	14.0	17.3
Cyfanswm yr asedau		**6,307.7**	**6,230.6**
Rhwymedigaethau			
Cyfranddaliadau	28	5,013.8	5,039.0
Adneuon a gwarannau dyledion:			
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	29	317.5	242.6
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	30	306.9	286.9
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd	31	83.8	86.3
		708.2	615.8
Offerynnau ariannol deilliadol	16	57.4	55.7
Rhwymedigaethau treth presennol		0.6	0.9
Rhwymedigaethau eraill	32	6.4	4.8
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau	21b	5.1	4.9
Croniadau ac incwm gohiriedig	33	8.9	11.4
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	34	1.1	1.6
Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	12	11.5	9.3
Rhwymedigaethau isradd	35	107.0	112.3
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	36	75.4	69.2
Cyfanswm y rhwymedigaethau		5,995.4	5,924.9
Cronfa gyffredinol wrth gefn	37	310.3	305.3
Cronfeydd wrth gefn eraill	38	2.0	0.4
Cyfanswm yr ecwiti a'r rhwymedigaethau		**6,307.7**	**6,230.6**

Mae'r polisïau cyfrifyddu a'r nodiadau ar dudalennau 43 i 92 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y cyfrifon hyn gan y Bwrdd ar 31 Ionawr 2012.

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd:

Dyfrig D. J. John Cadeirydd

Peter L. Griffiths Prif Weithredwr

W. Guy Thomas Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

Datganiad llifau arian parod cyfunol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

	2011 £m	2010 £m
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu (gweler isod)	(120.5)	(118.8)
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Asedau anniriaethol ac eiddo, offer trwm a chyfarpar a brynwyd	(9.9)	(9.9)
Gwarannau buddsoddi a brynwyd	(1,342.9)	(2,228.2)
Enillion o werthu ac aeddfedrwydd gwarannau buddsoddi	1,736.1	2,510.1
Cyfranddaliadau a waredwyd mewn cyd-fentrau	-	1.9
Llif arian parod o weithgareddau ariannu		
Adbrynu dyled isradd	(2.0)	(6.9)
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	260.8	148.2
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	390.9	242.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	**651.7**	**390.9**
Cynrychiolir gan:		
Arian parod a balansau gyda Banc Lloegr	532.9	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd sy'n ad-daladwy ar alwad	118.8	70.2
	651.7	**390.9**
Llif arian parod net i mewn o weithgareddau gweithredu		
Elw cyn treth	24.5	30.8
Wedi'i addasu ar gyfer:		
Dibrisiant ac amorteiddiad	6.2	5.7
Colled wrth werthu eiddo, offer trwm a chyfarpar	0.4	0.3
Cynnydd mewn colledion o ran lleihad mewn gwerth ar fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	24.6	22.2
Newid mewn gwerthoedd teg	9.4	(1.2)
Symudiadau eraill nad ydynt mewn arian parod	(0.9)	(2.9)
Newidiadau mewn asedau gweithredu net		
(Cynnydd)/gostyngiad mewn benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	(50.1)	50.0
(Cynnydd) mewn benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	(280.8)	(242.5)
(Cynnydd) mewn asedau eraill	(1.1)	(2.6)
Gostyngiad mewn rhagdaliadau ac incwm cronedig	3.1	0.9
(Gostyngiad)/cynnydd mewn offerynnau ariannol deilliadol	(5.1)	2.8
(Gostyngiad)/cynnydd mewn cyfranddaliadau	(34.2)	103.8
Cynnydd/(gostyngiad) mewn adneuon a gwarannau dyledion	189.9	(94.6)
Cynnydd mewn rhwymedigaethau eraill	1.9	1.0
(Gostyngiad)/cynnydd mewn croniadau ac incwm gohiriedig	(0.9)	15.9
(Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn	(2.0)	(1.1)
Treth	(5.4)	(7.3)
	(120.5)	**(118.8)**

Mae'n ofynnol i'r Grŵp gynnal balansau di-log gyda Banc Lloegr. Roedd y rhain yn £5.5 miliwn (2010: £4.8 miliwn) ar 31 Rhagfyr 2011.

Datganiad llifau arian parod y Gymdeithas

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

	2011 £m	2010 £m
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu (gweler isod)	(170.2)	(120.5)
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Asedau anniriaethol ac eiddo, offer trwm a chyfarpar a brynwyd	(8.5)	(8.5)
Gwarannau buddsoddi a waredwyd	(1,342.9)	(2,228.2)
Enillion o werthu ac aeddfedrwydd gwarannau buddsoddi	1,736.1	2,510.1
Cyfranddaliadau a waredwyd mewn cyd-fenter	-	1.9
Llif arian parod o weithgareddau ariannu		
Adbrynu dyled isradd	(2.0)	(6.9)
Cynnydd mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	212.5	147.9
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	389.4	241.5
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	**601.9**	**389.4**
Cynrychiolir gan:		
Arian parod a balansau gyda Banc Lloegr	532.9	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd sy'n ad-daladwy ar alwad	69.0	68.7
	601.9	389.4
Llif arian parod i mewn o weithgareddau gweithredu		
Elw cyn treth	11.0	20.4
Wedi'i addasu ar gyfer:		
Dibrisiant ac amorteiddiad	5.0	4.6
Colled wrth werthu eiddo, offer trwm a chyfarpar	0.4	0.1
Cynnydd mewn colledion o ran lleihad mewn gwerth ar fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	11.3	12.4
Newid mewn gwerthoedd teg	9.4	(1.2)
Symudiadau eraill nad ydynt mewn arian parod	(1.1)	(2.8)
Newidiadau mewn asedau gweithredu net		
(Cynnydd)/gostyngiad mewn benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	(0.1)	49.9
(Cynnydd) mewn benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	(323.5)	(222.0)
Gostyngiad mewn benthyciadau i is-gwmnïau	66.2	15.2
Gostyngiad/(cynnydd) mewn asedau eraill	0.8	(2.7)
Gostyngiad mewn rhagdaliadau ac incwm cronedig	3.3	1.0
(Gostyngiad)/cynnydd mewn offerynnau ariannol deilliadol	(5.1)	2.8
(Gostyngiad)/cynnydd mewn cyfranddaliadau	(34.2)	103.7
Cynnydd/(gostyngiad) mewn adneuon a gwarannau dyledion	92.3	(95.8)
Cynnydd mewn rhwymedigaethau eraill	1.5	0.4
(Gostyngiad) mewn croniadau ac incwm gohiriedig	(2.3)	(0.3)
(Gostyngiad) mewn rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn	(2.0)	(1.1)
Treth	(3.1)	(5.1)
	(170.2)	**(120.5)**

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Polisïau cyfrifyddu

Sail y paratoi

Paratowyd datganiadau ariannol y Grŵp a'r Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011 yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r rhannau hynny o Reoliadau Cymdeithasau Adeiladu (Cyfrifon a Darpariaethau Cysylltiedig) 1998 sy'n berthnasol i Gymdeithasau sy'n cyflwyno adroddiadau dan yr IFRS.

Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol. Trafodir hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar dudalen 25, dan y pennawd 'Busnes gweithredol'. Ar ddyddiad awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn, roedd y safonau a'r dehongliadau canlynol, nad ydynt wedi'u defnyddio yn y datganiadau ariannol hyn, wedi'u cyhoeddi ond nid oeddent wedi dod i rym eto:

Cyhoeddiad	Natur y Newid	Dyddiad y Daw i Rym
IFRS 7 Datgeliadau – Trosglwyddo Asedau Ariannol	Mae'r diwygiad yn golygu bod datgeliadau ychwanegol a/neu fanylach yn ofynnol er mwyn cynorthwyo i werthuso amlygiadau i risg yn gysylltiedig â throsglwyddo asedau ariannol ac effaith y risgiau hynny ar sefyllfa ariannol sefydliad, ac yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â gwaranteiddio asedau ariannol. Ni ddisgwylir i'r diwygiad gael effaith sylweddol ar y Grŵp.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2011
Diwygiad i IAS 12 Treth Ohiriedig: Adennill Asedau Sylfaenol	Mae'r diwygiad yn darparu dull ymarferol o fesur rhwymedigaethau treth ohiriedig ac asedau treth ohiriedig wrth fesur eiddo buddsoddi gan ddefnyddio'r model gwerth teg yn *IAS 40 Eiddo Buddsoddi*. Ni ddisgwylir i'r diwygiad gael effaith sylweddol ar y Grŵp.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2012
IFRS 7 Datgeliadau – Trosglwyddo Asedau Ariannol	Mae'r diwygiad yn golygu bod datgeliadau ychwanegol yn ofynnol ynglŷn â gwrthbwyso asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol. Ni ddisgwylir i'r diwygiad gael effaith sylweddol ar y Grŵp.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IFRS 10 Datganiadau Ariannol Cyfunol	Mae'r safon newydd yn disodli *IAS 27 Datganiadau Ariannol Cyfunol ac ar Wahân* a *SIC-12 Cyfuno – Endidau Diben Arbennig* trwy gyflwyno un model cyfuno ar gyfer pob endid ar sail rheolaeth. Mae'r Grŵp yn adolygu'r safon newydd ar hyn o bryd, ond ni ddisgwylir iddi gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IFRS 11 Trefniadau ar y Cyd	Mae'r safon newydd yn cyflwyno gofynion cyfrifyddu newydd ar gyfer trefniadau ar y cyd, gan ddisodli *IAS 31 Buddion mewn Mentrau ar y Cyd*. Nid oes gan y Grŵp drefniadau ar y cyd ar hyn o bryd. Ni ddisgwylir i'r safon newydd effeithio ar y Grŵp felly.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl Ionawr 2013
IFRS 12 Datgelu Achosion o Ymwneud ag Endidau Eraill	Mae'r safon newydd yn golygu bod datgeliadau manwl yn ofynnol ynglŷn ag endidau cyfunol ac anghyfunol y mae endid yn ymwneud â hwy. Mae'r Grŵp yn adolygu'r safon newydd ar hyn o bryd, ond ni ddisgwylir iddi gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IFRS 13 Mesur Gwerth Teg	Mae'r safon newydd hon yn disodli arweiniad ar fesur gwerth teg yn nogfennau cyfrifyddu presennol yr IFRS ag un safon unigol. Nid yw'r safon yn newid y gofynion o ran pa eitemau y dylid eu mesur neu eu datgelu yn ôl gwerth teg, ond mae'n gofyn am ddatgeliadau manylach. Mae'r Grŵp yn adolygu'r safon newydd ar hyn o bryd ac, ar wahân i'r datgeliadau manylach, ni ddisgwylir iddi gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Sail y paratoi (parhad)

Cyhoeddiad	Natur y Newid	Dyddiad y Daw i Rym
IAS 19 Buddiannau Gweithwyr Cyflogedig	Mae IAS 19 wedi ei diwygio o ganlyniad i'r prosiectau Buddiannau Ôl-gyflogaeth a Buddiannau Terfynu Cyflogaeth. Mae'r safon yn cyflwyno gwelliannau trwy ddileu opsiwn i ohirio cydnabyddiaeth enillion a cholledion, a elwir y 'dull coridor', symleiddio'r dull o gyflwyno newidiadau mewn asedau a rhwymedigaethau sy'n deillio o gynlluniau buddiannau diffiniedig a newidiadau i'r gyfradd adenillion ar asedau, a phennu gofynion datgelu manylach ar gyfer cynlluniau buddiannau diffiniedig, gan ddarparu gwell gwybodaeth am nodweddion cynlluniau buddiannau diffiniedig a'r risgiau y mae endidau yn agored iddynt o ganlyniad i gymryd rhan mewn cynlluniau o'r fath. Mae'r Grŵp yn adolygu'r safon newydd ar hyn o bryd ac, ar wahân i'r datgeliadau manylach, ni ddisgwylir iddi gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IAS 27 Datganiadau Ariannol ar Wahân	Diwygiwyd IAS 27 i gael gwared ar y gofynion cyfuno a arferai fod yn rhan o'r safon. Mae'r gofynion cyfuno bellach yn rhan o IFRS 10. Mae'r Grŵp yn adolygu'r diwygiad ar hyn o bryd, ond ni ddisgwylir iddo gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IAS 28 Buddsoddi mewn Partneriaid a Mentrau ar y Cyd	Diwygiwyd IAS 28 i gydymffurfio â'r newidiadau sy'n deillio o gyhoeddi IFRS 10, IFRS 11 ac IFRS 12. Mae'r Grŵp yn adolygu'r diwygiad ar hyn o bryd, ond ni ddisgwylir iddo gael effaith sylweddol.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2013
IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad	Diwygiwyd IAS 32 i gydymffurfio â'r newidiadau sy'n deillio o gyhoeddi IFRS 7. Ni ddisgwylir i'r diwygiad gael effaith sylweddol ar y Grŵp.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2014
IFRS 9 Offerynnau Ariannol – Dosbarthu a Mesur	Mae'r safon newydd yn mynd i'r afael â cham 1 o brosiect yr IASB i ddisodli *IAS 39 Offerynnau Ariannol* ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddosbarthu asedau ariannol yn ôl cost wedi'i hamorteiddio neu werth teg. Ni fydd y categori 'ar gael i'w werthu' (AFS), a ddefnyddir gan y Grŵp ar hyn o bryd, ar gael. Caniateir ei mabwysiadu'n gynnar ar ôl iddi gael ei chymeradwyo gan yr UE. Mae effaith IFRS 9 ar y Grŵp yn cael ei hystyried ar hyn o bryd.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015
IFRS 7 Datgeliadau – Trosglwyddo Asedau Ariannol	Diwygiwyd IFRS 7 er mwyn gwneud datgeliadau yn ofynnol ynglŷn â mabwysiadu IFRS 9 am y tro cyntaf. Ni ddisgwylir i'r diwygiad gael effaith sylweddol ar y Grŵp.	Cyfnodau cyfrifyddu yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015

Mae'r cyfarwyddwyr yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol, ac eithrio IFRS 9, yn cael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Grŵp. Mae effaith IFRS 9 wrthi'n cael ei hystyried ond ni ellir mesur unrhyw effaith gan nad yw'r safon hon wedi'i chwblhau'n derfynol na'i mabwysiadu'n ffurfiol gan yr UE.

Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod wedi eu defnyddio'n gyson ar gyfer pob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol cyfunol hyn.

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Confensiwn cyfrifyddu
Mae'r Grŵp yn paratoi ei gyfrifon dan y confensiwn cost hanesyddol, ac eithrio ar gyfer adbrisio gwarannau dyledion – rhai sydd ar gael i'w gwerthu, asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol a ddelir ar werth teg a phob contract deilliadol.

Sail y cyfuno
Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cynnwys datganiadau ariannol y rhiant-gwmni (Cymdeithas Adeiladu'r Principality), a phob endid a reolir gan y Gymdeithas (ei his-gwmnïau ac Endidau Diben Arbennig).

Is-gwmnïau
Endid y mae ei bolisïau gweithredu a ac ariannu'n cael eu rheoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Gymdeithas yw is-gwmni. Cynhwysir datganiadau ariannol is-gwmnïau yn y datganiadau ariannol cyfunol o'r dyddiad y dechreuodd y rheolaeth honno. Dilëir balansau a thrafodion rhyng-Grŵp wrth baratoi'r datganiadau ariannol cyfunol.

Trafodion gwaranteiddio
Mae'r Grŵp wedi gwaranteiddio benthyciadau morgais penodol trwy drosglwyddo'r benthyciadau i endid diben arbennig (SPE) a reolir gan y Grŵp. Mae'r gwaranteiddio hwn yn galluogi'r SPE wedi hynny i ddyroddi dyled i fuddsoddwyr sy'n cael gwarant yr asedau sylfaenol fel sicrwydd cyfochrog. Mae'r SPE wedi ei gyfuno'n llawn yng nghyfrifon y Grŵp o dan Bwyllgor Dehongliadau Sefydlog 12 *Cyfuno – Endidau Diben Arbennig*. Nid yw'r Gymdeithas yn trin trosglwyddo'r benthyciadau morgais i'r SPE fel gwerthiannau. Mae'r Gymdeithas yn parhau i gydnabod y benthyciadau morgais yn ei datganiad ei hun o'r sefyllfa ariannol ar ôl y trosglwyddo oherwydd ei bod yn cadw eu risgiau a'u henillion trwy dderbyn elw neu golledion yr SPE i gyd i bob pwrpas. Yng nghyfrifon y Gymdeithas, cyfrifir am yr elw a dderbynnir o'r trosglwyddo fel benthyciad tybiedig sydd i'w ad-dalu i'r SPE. Er mwyn rheoli risg o ran cyfraddau llog, mae'r Gymdeithas yn sefydlu trafodion deilliadol â'r SPE, gan dderbyn cyfradd llog yn seiliedig ar y morgeisi wedi'u gwaranteiddio a chan dalu cyfradd sy'n rhan annatod o'r dyledion a ddyroddwyd. Yn unol ag IAS 39, caiff y deilliadau mewnol hyn eu trin fel rhan o'r benthyciad tybiedig ac nid eu nodi ar wahân ar sail gwerth teg, gan nad yw'r benthyciadau morgais perthnasol yn cael eu datgydnabod. Caiff y llifau arian parod o'r deilliadau mewnol hyn eu cyfrifyddu ar sail croniadau.

Llog derbyniadwy a llog sy'n daladwy
Caiff llog derbyniadwy a llog sy'n daladwy ar gyfer benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid a chyfrifon cwsmeriaid eu nodi yn y datganiad incwm cynhwysfawr trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae'r dull llog effeithiol yn cyfrifo cost wedi'i hamorteiddio ased ariannol neu rwymedigaeth ariannol, ac yn dyrannu'r incwm llog neu'r treuliau llog dros oes ddisgwyliedig y cynnyrch. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union y derbyniadau neu'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol ar hyd oes ddisgwyliedig y cynnyrch neu, pan fo'n briodol, dros gyfnod byrrach i swm cario net yr ased ariannol neu'r rhwymedigaeth ariannol. Wrth gyfrifo'r gyfradd llog effeithiol, mae'r Grŵp yn amcangyfrif llifau arian parod gan ystyried holl delerau cytundebol y cynnyrch (er enghraifft, dewisiadau rhagdalu) ond nid yw'n ystyried colledion credyd yn y dyfodol. Mae'r cyfrifiad yn cynnwys yr holl symiau a dderbyniwyd neu a dalwyd gan y Grŵp ac sy'n rhan annatod o'r elw cyffredinol a'r costau trafodion cynyddrannol uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chaffael neu ddyroddi cynnyrch.

Caiff incwm llog ar fuddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu, deilliadau ac asedau ariannol eraill a gyfrifir yn ôl gwerth teg trwy'r datganiad incwm cynhwysfawr ei gynnwys mewn llog derbyniadwy ac incwm tebyg.

Pan fydd ased ariannol neu Grŵp o asedau ariannol tebyg wedi cael eu dibrisio o ganlyniad i golled o ran lleihad mewn gwerth, caiff incwm llog ei gydnabod gan ddefnyddio'r gyfradd llog a ddefnyddiwyd i ddisgowntio llifau arian parod yn y dyfodol at ddiben mesur y golled o ran lleihad mewn gwerth.

Ffioedd a chomisiynau
Adlewyrchir ffioedd tarddiad benthyciad wrth gyfrifo'r gyfradd llog effeithiol ar y benthyciad.

Caiff ffioedd a dderbynnir yn sgil cynnal benthyciadau, a phrosesau busnes eraill a drefnir trwy gontract, eu hadlewyrchu yn y datganiad incwm yn y cyfnod y cynhelir y broses. Ar wahân i'r adeg y caiff y benthyciad ei ddatgydnabod, mae pob contract yn darparu ar gyfer codi tâl ar gleientiaid yn fisol yn unol â maint y portffolio.

Mae'r Grŵp yn derbyn comisiwn parhaus ar sail perfformiad gwerthiant blaenorol Yswiriant Diogelu Taliadau yn ôl disgresiwn y cwmni yswiriant bywyd. Cydnabyddir y comisiwn pan dderbynnir y taliad.

Cydnabyddir ffioedd a chomisiynau eraill ar sail croniadau pan fydd y gwasanaeth wedi ei ddarparu.

Mesur asedau a rhwymedigaethau ariannol
Asedau ariannol
Dosberthir asedau ariannol fel a ganlyn:

i) Benthyciadau a symiau derbyniadwy
Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau sefydlog anneilliadol â thaliadau sefydlog neu fesuradwy na chânt eu rhestru mewn marchnad weithredol. Dosberthir benthyciadau morgeisi preswyl a masnachol y Grŵp yn fenthyciadau a symiau derbyniadwy a chânt eu mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, ar ôl ystyried darpariaethau lleihad mewn gwerth, gan nodi'r holl symudiadau yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

ii) Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu
Mae asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneilliadol, sef gwarannau buddsoddi yn bennaf ond nid yn llwyr, y bwriedir eu dal am gyfnod amhenodol ac y gellir eu gwerthu mewn ymateb i anghenion am hylifedd. Cânt eu mesur yn ôl gwerth teg, gan nodi newidiadau mewn gwerth teg yn y cronfeydd wrth gefn, heblaw am golledion o ran lleihad mewn gwerth a nodir yn y datganiad incwm cynhwysfawr. Mae gwerth teg asedau sydd ar gael i'w gwerthu yn deillio o ddata am y farchnad. Os nad yw'r data hwn am y farchnad ar gael, darperir prisiad gan drydydd parti annibynnol. Os gwerthir yr ased cyn iddo aeddfedu, caiff enillion a cholledion cronnol a nodir yn y cronfeydd wrth gefn eu hailgylchu i'r datganiad incwm cynhwysfawr

iii) Asedau ariannol a ddelir hyd nes eu bod wedi aeddfedu
Mae asedau ariannol a ddelir hyd nes eu bod wedi aeddfedu yn asedau ariannol anneilliadol y mae gan y Grŵp y gallu a'r bwriad i'w dal hyd at y dyddiad y maent yn aeddfedu. Cânt eu mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, a nodir yr holl symudiadau yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

iv) Asedau ariannol ar werth teg wedi eu cyfrifyddu trwy'r datganiad incwm cynhwysfawr
Mae'r categori hwn yn cynnwys asedau ariannol deilliadol a ddelir ar werth teg. Caiff yr asedau hyn eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg, gan roi costau'r trafodion yn uniongyrchol yn y datganiad incwm cynhwysfawr. O hynny ymlaen, mesurir yn ôl gwerth teg ac adlewyrchir newidiadau mewn gwerth yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

v) Asedau ariannol a ddelir ar gyfer masnachu
Nid yw'r Grŵp yn dal unrhyw asedau ariannol a ddosberthir fel rhai a ddelir ar gyfer masnachu.

Rhwymedigaethau ariannol
Mesurir rhwymedigaethau ariannol fel a ganlyn:

i) Cost wedi'i hamorteiddio
Nodir benthyciadau'r Grŵp, gan gynnwys cyfranddaliadau Aelodau, adneuon, gwarannau dyledion a ddyroddir a rhwymedigaethau isradd, yn ôl gwerth teg yn y lle cyntaf, sef enillion y dyroddiadau yn glir o bremiymau, disgowntiau a chostau trafodion a gafwyd.

Yna, mesurir benthyciadau yn ôl cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Addasir y gost wedi'i hamorteiddio ar gyfer amorteiddio unrhyw gostau trafodion a phremiymau a disgowntiau. Nodir yr amorteiddiad yn y treuliau llog a thaliadau tebyg gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Dosberthir Cyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog (cyfalaf wedi'i danysgrifio) y gellir eu hadbrynu ar ddyddiadau penodol yn ôl dewis y Gymdeithas yn rhwymedigaethau.

ii) Gwerth Teg Trwy Elw a Cholled (FVTPL)
Dosberthir rhwymedigaethau ariannol yn FVTPL pan fo'r rhwymedigaeth ariannol wedi'i dynodi'n FVTPL.
Gellir dynodi rhwymedigaeth ariannol yn FVTPL wrth ei chydnabod am y tro cyntaf:

a) os bydd dynodiad o'r fath yn dileu neu'n lleihau'n sylweddol unrhyw anghysondeb a fyddai fel arall yn codi o ran mesur neu gydnabod; neu
b) os bydd y rhwymedigaeth ariannol yn rhan o grŵp o asedau ariannol neu rwymedigaethau ariannol neu'r ddau, a hwnnw'n cael ei reoli a'i berfformiad yn cael ei werthuso ar sail gwerth teg, yn unol â strategaeth fuddsoddi neu reoli risg gyhoeddedig y Grŵp, a bod gwybodaeth am y grŵp o asedau neu rwymedigaethau yn cael ei darparu'n fewnol ar y sail honno; neu
c) os bydd yn rhan o gontract sy'n cynnwys un neu fwy o ddeilliadau mewnol, a bod *IAS 29 Offerynnau Ariannol: Cydnabod a Mesur* yn caniatáu ar gyfer dynodi'r contract cyfunol cyfan (ased neu rwymedigaeth) yn FVTPL.

Caiff rhwymedigaethau ariannol a ddosbarthwyd yn FVTPL eu datgan yn ôl gwerth teg, a nodir unrhyw enillion neu golledion wrth ail-fesur o dan elw neu golled. Mae'r elw neu'r golled net a nodir yn cynnwys unrhyw log a dalwyd ar y rhwymedigaeth ariannol, ac fe'i cynhwysir yn y llinell 'enillion a cholledion eraill' yn y datganiad incwm. Pennir gwerth teg trwy'r dull a ddisgrifir yn nodyn 40.

Colledion o ran lleihad mewn gwerth ar fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid
Mae'r Grŵp yn asesu ar ddyddiad pob datganiad o'r sefyllfa ariannol pa un a oes tystiolaeth wrthrychol fod gwerth ased ariannol neu grŵp o asedau ariannol wedi lleihau o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy ar ôl y gydnabyddiaeth gychwynnol. Gall tystiolaeth o leihad mewn gwerth gynnwys arwyddion bod y benthyciwr neu grŵp o fenthycwyr yn cael anawsterau ariannol sylweddol, neu'n diffygdalu neu'n gwrthod talu llog neu brif daliadau, neu fod y ddyled yn cael ei hailstrwythuro i leihau'r baich ar y benthyciwr.

Yn y lle cyntaf, mae'r Grŵp yn asesu pa un a oes tystiolaeth wrthrychol y ceir lleihad mewn gwerth naill ai'n unigol ar gyfer asedau sy'n sylweddol ar eu pennau eu hunain neu'n unigol, neu'n gyfunol ar gyfer asedau nad ydynt yn sylweddol ar eu pennau eu hunain. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer ased a aseswyd yn unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o asedau sydd â nodweddion tebyg o ran risg credyd, er enghraifft morgeisi prynu i osod a chyfrifon sy'n destun camau ymatal rhag blaen-gau, gan asesu'r grŵp ar y cyd o ran lleihad mewn gwerth.

Os oes tystiolaeth wrthrychol y cafwyd colled o ran lleihad mewn gwerth, mesurir swm y golled fel y gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol y llifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Mae'r darpariaethau sy'n deillio o hynny wedi eu didynnu o werthoedd priodol yr ased yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Yn achos benthyciadau masnachol a ystyrir yn sylweddol yn unigol, amcangyfrifir llifau arian parod fesul achos gan ystyried y ffactorau canlynol:

i) cyfanswm yr amlygiad crynswth i'r cwsmer gan gynnwys gwarantu sawl benthyciad â'r un warant gyfochrog;
ii) hyfywedd model busnes y cwsmer a'i allu i fasnachu'n llwyddiannus er mwyn dianc o'r anawsterau ariannol a chynhyrchu llif arian parod digonol i gynnal ei rwymedigaethau o ran dyledion;
iii) swm ac amseriad y derbyniadau a'r adenillion a ddisgwylir;
iv) y cyllid sy'n debygol o fod ar gael ar adeg diddymu'r cwmni neu fethdalu gan gynnwys unrhyw warantau;
v) graddau ymrwymiadau credydwyr eraill sy'n cael mwy o flaenoriaeth na rhai'r Gymdeithas, a pha mor debygol y mae credydwyr eraill o barhau i gefnogi'r cwmni;
vi) gwerth sylweddadwy gwarannau ar y dyddiad y disgwylir gwerthu a pha mor debygol ydyw y bydd yr adfeddiannu'n llwyddiannus; a'r
vii) costau sy'n debygol o gael eu didynnu wrth adennill symiau sy'n ddyledus.

Yn achos benthyciadau masnachol nad ydynt yn cael eu hystyried yn sylweddol yn unigol, amcangyfrifir llifau arian parod ar sail profiad y gorffennol gan ystyried cyfanswm yr amlygiad i'r cwsmer, pa mor debygol ydyw y bydd y benthyciad yn symud trwy amryw gamau'r broses o wrthod talu, gan gynnwys cael ei ddileu, a swm ac amseriad y derbyniadau a'r adenillion a ddisgwylir.

Mae'r Grŵp yn adolygu'n rheolaidd y fethodoleg a'r tybiaethau a ddefnyddir i amcangyfrif llifau arian parod yn y dyfodol er mwyn lleihau unrhyw wahaniaethau rhwng amcangyfrifon o golledion a'r colledion gwirioneddol a brofir.

Os bydd swm y golled o ran lleihad mewn gwerth yn gostwng mewn cyfnod dilynol, ac os gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad ar ôl i'r lleihad mewn gwerth gael ei nodi, addasir y ddarpariaeth a nodir swm y gwrthdro yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Pan nad oes modd adennill benthyciad, caiff ei ddileu yn erbyn y ddarpariaeth gysylltiedig ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciad pan fydd pob un o'r gweithdrefnau angenrheidiol wedi eu cwblhau a swm y golled wedi ei bennu. Mae symiau a gaiff eu hadennill ar ôl cael eu dileu'n flaenorol yn gostwng swm y colledion o ran lleihad mewn gwerth a gofnodir yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Mae benthyciadau sy'n destun asesiad lleihad mewn gwerth unigol yn cael eu hadolygu'n barhaus i bennu pa un a oes lleihad mewn gwerth yn parhau i fodoli neu yr ystyrir nad ydynt wedi'u talu o fewn y terfyn amser.

Caiff benthyciadau eu hasesu ar wahân ar gyfer lleihad mewn gwerth os ydynt wedi bod yn destun gweithgarwch ymatal rhag blaen-gau yn y gorffennol a bod tystiolaeth y bydd ymatal rhag blaen-gau yn dylanwadu ar berfformiad y benthyciad yn y dyfodol. At ddibenion asesu, caiff benthyciadau eu hasesu ar y cyd yn ôl y math o weithgarwch ymatal rhag blaen-gau, gan roi ystyriaeth i berfformiad y cyfrifon yn y gorffennol. Ystyrir diffiniadau o ymatal rhag blaen-gau yn Nodyn 40 ac mewn cysylltiad â phapur yr FSA, 'Forbearance and Impairment Provisions – Mortgages', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2011. Mae'r Adran Rheoli Ôl-ddyledion yn cadw gwybodaeth am ymatal rhag blaen-gau ac yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd i Bwyllgor Risg y Grŵp.

Yn achos buddsoddiadau wedi eu rhestru a heb eu rhestru a ddosbarthwyd fel bod ar gael i'w gwerthu, mae gostyngiad sylweddol neu dros gyfnod hir yng ngwerth teg y gwarannau islaw eu cost yn cael ei ystyried yn dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth. Mae Pwyllgor Trysorlys y Grŵp yn adolygu benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd bob wythnos er mwyn nodi risgiau credyd cyfredol a disgwyliedig, gyda'r bwriad o amlygu pa mor debygol ydyw y ceir unrhyw anawsterau o ran perfformiad a cholledion yn y dyfodol, ar sail data a gwybodaeth a gyhoeddwyd.

Offerynnau ariannol deilliadol a chyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Mae'r Grŵp yn cynnal trafodion mewn offerynnau ariannol deilliadol, sy'n cynnwys cyfnewidiadau arian cyfred, cyfnewidiadau cyfraddau llog, cyfradd llog gyfyngedig, cytundebau blaen gyfradd, opsiynau ac offerynnau tebyg. Cyflawnir gweithgareddau deilliadol y Grŵp at ddiben paru neu ddileu risg o symudiadau posibl mewn cyfraddau llog, cyfraddau cyfnewid tramor a mynegeion y farchnad sy'n rhan annatod o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfaoedd y Grŵp. Cynhelir yr holl drafodion deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Nodir offerynnau ariannol yn ôl gwerth teg i ddechrau.

i) Offerynnau ariannol deilliadol
Mesurir deilliadau i ddechrau yn ôl gwerth teg ac yna cânt eu hailfesur i'w gwerth teg ar bob dyddiad adrodd a chofnodir symudiadau yn y datganiad incwm cynhwysfawr. Cyfrifir gwerthoedd teg trwy fodelau llif arian parod wedi ei ddisgowntio gan ddefnyddio cromliniau elw sy'n seiliedig ar ddata am y farchnad neu brisiadau gan wrthbartïon. Cyfrifir gwerthoedd teg gan ddefnyddio prisiau canolig. Dosberthir pob deilliad yn ased os yw ei werth teg yn gadarnhaol ac yn rhwymedigaeth os yw ei werth teg yn negyddol. Pan fo bwriad a gallu cyfreithiol i wneud setliad net, yna dosberthir y deilliad yn ased neu'n rhwymedigaeth net, fel y bo'n briodol.

Pan dderbynnir arian parod fel gwarant gyfochrog, er mwyn lliniaru'r risg sy'n annatod mewn symiau sy'n ddyledus i'r Grŵp, caiff ei gynnwys fel rhwymedigaeth dan y pennawd 'symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd'. Pan roddir gwarant gyfochrog, er mwyn lliniaru'r risg sy'n annatod mewn symiau sy'n ddyledus gan y Grŵp, caiff ei gynnwys fel ased dan y pennawd 'benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd'.

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

ii) Deilliadau mewnol
Mae rhai deilliadau wedi'u sefydlu o fewn offerynnau cynnal anneilliadol eraill i greu offeryn hybrid. Pan nad oes cysylltiad agos rhwng nodweddion economaidd na risgiau'r deilliadau mewnol, a nodweddion economaidd a risg yr offeryn sy'n eu cynnal, mae'r Grŵp yn gwahanu'r deilliad mewnol oddi wrth yr offeryn sy'n ei gynnal ac yn ei fesur yn ôl gwerth teg, gan nodi'r newidiadau mewn gwerth teg yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

iii) Cyfrifyddu ar sail rhagfantoli
Pan fo trafodion yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS39, mae'r Grŵp yn cyfrifyddu ar sail rhagfantoli gwerth teg fel bod newidiadau yng ngwerth teg yr ased neu'r rhwymedigaeth sylfaenol y gellir eu priodoli i'r risg wedi ei rhagfantoli yn cael eu cofnodi yn y datganiad incwm cynhwysfawr i wrthbwyso symudiad gwerth teg y deilliad cysylltiedig.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o'r cychwyn, mae'n rhaid i'r berthynas ragfantoli gael ei chofnodi'n glir. O'r dechrau, rhaid disgwyl i'r deilliad fod yn effeithiol iawn o ran gwrthbwyso'r risg a ragfantolir, a rhaid profi ei effeithiolrwydd trwy gydol oes y berthynas ragfantoli.

Mae'r Grŵp yn rhoi'r gorau i gyfrifyddu ar sail rhagfantoli:
i) pan ei bod yn amlwg wrth gynnal profion nad yw deilliad yn effeithiol iawn o ran gwrthbwyso'r risg a ragfantolir, neu ei fod wedi peidio â bod yn effeithiol iawn yn hyn o beth;
ii) pan fo'r deilliad yn dod i ben, neu'n cael ei werthu, ei derfynu neu ei arfer; neu
iii) pan fo'r eitem sylfaenol yn aeddfedu neu'n cael ei gwerthu neu ei had-dalu.

Gallai'r Grŵp hefyd benderfynu rhoi'r gorau i gyfrifyddu ar sail rhagfantoli hyd yn oed os yw'r berthynas ragfantoli yn parhau i fod yn effeithiol iawn, trwy roi'r gorau i ddynodi'r offeryn ariannol yn un a ragfantolir. Os nad yw'r deilliad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli mwyach, caiff yr addasiad rhagfantoli gwerth teg cronnus ei amorteiddio dros gyfnod hyd at aeddfedrwydd y berthynas a arferai gael ei dynodi yn un ragfantoli. Os caiff yr eitem sylfaenol ei gwerthu neu ei had-dalu, adlewyrchir yr addasiad gwerth teg heb ei amorteiddio ar unwaith yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

O ran microragfantoli, addasir gwerth cario'r eitem wedi ei rhagfantoli ar gyfer y newid yng ngwerth y risg wedi ei rhagfantoli. Yn achos portffolio a ragfantolir, cynhwysir yr addasiad mewn addasiadau gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli.

Trosi arian cyfred tramor
Cyflwynir y datganiadau ariannol cyfunol mewn Sterling, sef yr arian cyfred a ddefnyddir gan y rhiant-gwmni. Trosir trafodion arian cyfred tramor i Sterling gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid sy'n weithredol ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir eitemau ariannol sydd mewn arian cyfred tramor gan ddefnyddio'r gyfradd sy'n weithredol ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Asedau anniriaethol
i) Ewyllys da
Mae ewyllys da yn cynrychioli cost ychwanegol caffaeliad uwchben gwerth teg cyfran y Grŵp o asedau canfyddadwy net yr is-gwmni a gaffaelwyd ar ddyddiad ei gaffael. Cynhwysir ewyllys da ar adeg caffael is-gwmnïau fel ased anniriaethol. Profir ewyllys da bob blwyddyn o ran lleihad mewn gwerth, a chaiff ei gario yn ôl ei gost namyn colledion cronedig o ran lleihad mewn gwerth. Mae'r prawf lleihad mewn gwerth yn cymharu gwerth cario ewyllys da â gwerth yr ased cysylltiedig sylfaenol wrth ei ddefnyddio. Os yw'r gwerth cario yn fwy na'r gwerth wrth ei ddefnyddio, ystyrir bod lleihad o ran gwerth ewyllys da ac fe'i cydnabyddir yn y datganiad incwm cynhwysfawr ar unwaith.

Nid yw ewyllys da a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn dan UK GAAP cyn cyflwyno FRS 10 *'Goodwill and Intangible Assets'* ym 1998 wedi ei adfer ac ni chaiff ei gynnwys wrth benderfynu ar unrhyw elw neu golled ddilynol wrth waredu.

ii) Meddalwedd gyfrifiadurol
Mae IAS38 *'Intangible Assets'* yn ei gwneud yn ofynnol i gyfalafu gwariant penodol sy'n ymwneud â chostau datblygu meddalwedd. Caiff costau datblygu meddalwedd eu cyfalafu os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol. Nodir costau a gafwyd wrth sefydlu dichonolrwydd technolegol neu gynnal lefelau perfformiad cyfredol fel traul.

Caiff costau sy'n gysylltiedig â'r we eu cyfalafu lle y ceir gwariant ar ddatblygu gwefan sy'n cynhyrchu incwm.

Pan gaiff costau meddalwedd eu cyfalafu, cânt eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, sef tair i bum mlynedd. Adolygir y cyfnodau amorteiddio a ddefnyddir bob blwyddyn.

Caiff y costau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw meddalwedd eu nodi fel treuliau wrth iddynt godi.

Treth
Mae'r gost treth yn cynrychioli swm y dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd a threth ohiriedig.

Mae'r dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd yn seiliedig ar elw trethadwy am y flwyddyn. Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net fel y'i cofnodir yn y datganiad incwm cynhwysfawr gan nad yw'n cynnwys eitemau incwm neu dreuliau sy'n drethadwy neu'n ddidynadwy mewn blynyddoedd eraill, ac nid yw ychwaith yn cynnwys eitemau nad ydynt byth yn drethadwy nac yn ddidynadwy.

Treth ohiriedig yw'r dreth y disgwylir iddi fod yn daladwy neu'n adenilladwy ar y gwahaniaethau rhwng symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol a'r seiliau treth cyfatebol a ddefnyddir wrth gyfrifo elw trethadwy, a chyfrifir ar ei chyfer trwy ddefnyddio dull rhwymedigaeth y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Cydnabyddir

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

rhwymedigaethau treth ohiriedig fel arfer ar gyfer yr holl wahaniaethau trethadwy dros dro. I'r gwrthwyneb, ni chaiff asedau treth ohiriedig ond eu cydnabod i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio'r gwahaniaethau dros dro yn ei erbyn.

Caiff newidiadau yn sgil ailfesur gwerth teg buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu eu credydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu neu eu codi'n uniongyrchol arni, a chaiff treth ohiriedig sy'n gysylltiedig â'r ailfesur hwn hefyd ei chredydu'n uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu neu ei chodi'n uniongyrchol arni. Caiff ei nodi wedyn yn y datganiad incwm cynhwysfawr ynghyd â'r elw neu'r golled ohiriedig.

Cyfrifir balansau treth presennol a gohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau treth a gyflawnwyd neu a gyflawnwyd yn sylweddol erbyn dyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol ac y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i'r cyfnod pan gaiff y rhwymedigaeth ei setlo neu y caiff yr ased ei sylweddu.

Eiddo, offer trwm a chyfarpar
Canghennau ac adeiladau swyddfa yw'r eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo â phrydlesau hir yn bennaf. Mae syrfewyr annibynnol yn eu prisio bob blwyddyn.

Caiff eiddo, offer trwm a chyfarpar eu datgan yn ôl eu cost namyn dibrisiant cronedig a darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth, fel y bo'n briodol. Cynhwysir ychwanegiadau a gwariant dilynol yng ngwerth cario'r ased, neu cânt eu nodi fel ased ar wahân pan fyddant yn gwella'r buddion economaidd y disgwylir iddynt ddeillio o'r ased yn y dyfodol.

Nodir yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall fel cost ar y datganiad incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod y maent yn codi ynddo.

Caiff eiddo sydd yn y broses o gael ei adeiladu at ddibenion cynhyrchu neu gyflenwi, dibenion gweinyddol, neu at ddibenion nad ydynt wedi'u pennu eto, ei gario yn ôl ei gost, namyn unrhyw golled a gydnabyddir o ran lleihad mewn gwerth. Mae costau'n cynnwys ffioedd proffesiynol ac, ar gyfer asedau sy'n gymwys, costau benthyca wedi'u cyfalafu yn unol â pholisi cyfrifyddu'r Grŵp. Dechreuir dibrisio'r asedau hyn, ar yr un sail ag asedau eiddo eraill, pan fydd yr asedau'n barod ar gyfer eu defnydd arfaethedig.

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio. Caiff asedau eraill eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth i ddyrannu costau namyn gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, fel a ganlyn:

Eiddo rhydd-ddaliadol	2%
Eiddo prydles	2%*
Newidiadau mawr i adeiladau	10%
Offer trwm, cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau	10%-15%
Offer cyfrifiadurol	20%-33%
Cerbydau modur	25%

*neu'r cyfnod sy'n weddill ar y brydles

Caiff gwerthoedd gweddilliol a chyfnodau defnyddiol asedau eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar ddyddiad pob datganiad o'r sefyllfa ariannol. Pan fo modd nodi cost tir rhydd-ddaliadol ar wahân i adeiladau, nid yw gwerth y tir yn cael ei ddibrisio. Mae asedau sefydlog yn destun profion lleihad mewn gwerth, os ystyrir bod hynny'n briodol.

Pennir yr enillion a'r colledion wrth waredu trwy gymharu'r elw net wrth waredu â swm cario'r ased, a chânt eu cynnwys yn y datganiad incwm cynhwysfawr.

Costau pensiwn
Mae'r Gymdeithas yn gweithredu dau gynllun pensiwn, cynllun cyfraniadau diffiniedig a chynllun buddiannau diffiniedig.

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn un y mae'r Grŵp a'r cyflogai yn talu cyfraniadau sefydlog tuag ato, heb unrhyw rwymedigaeth i dalu cyfraniadau ychwanegol. Nodir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig fel cost ar y datganiad incwm cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn daladwy yn unol â rheolau'r cynllun. Mae'r mwyafrif o gyflogeion y Grŵp yn aelodau o'r cynllun hwn.

Mae cynllun buddiannau diffiniedig yn un sy'n diffinio'r buddiannau y bydd cyflogai yn eu derbyn pan fydd yn ymddeol, yn dibynnu ar ffactorau megis oedran a hyd gwasanaeth. Mesurir asedau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio gwerthoedd marchnad terfynol. Mesurir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a chânt eu disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaethol o ansawdd uchel sydd â chyfnod ac arian cyfred sy'n cyfateb i'r rhwymedigaeth. Caewyd y cynllun hwn i groniadau pellach ar 31 Gorffennaf 2010.

Nodir y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun buddiannau diffiniedig y disgwylir iddynt ddeillio o wasanaeth cyflogeion yn y cyfnod fel cost ar y datganiad incwm cynhwysfawr. Caiff yr adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun a'r cynnydd yn ystod y cyfnod yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun, sy'n deillio o dreigl amser, eu cynnwys dan y pennawd incwm gweithredu arall.

Nodir enillion a cholledion actiwaraidd yn llawn yn y datganiad incwm a threuliau cydnabyddedig.

Prydlesau
Prydlesau gweithredu yw'r prydlesau y mae'r Grŵp yn cytuno arnynt. Prydlesau nad ydynt yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau ac enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth y brydles yw prydlesau gweithredu.

i) Fel prydlesai
Nodir taliadau prydlesau gweithredu fel cost ar y datganiad incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

ii) Fel prydleswr
Nodir incwm prydles sy'n dderbyniadwy dan brydlesau gweithredu fel credyd ar y datganiad incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

Gwarannau dyledion a ddyroddwyd, rhwymedigaethau isradd a Chyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog
Cyfrifir ar gyfer premiymau a disgowntiau, ynghyd â chostau sy'n gysylltiedig â dyroddi gwarannau dyledion, rhwymedigaethau isradd a Chyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog, fel addasiad i swm y rhwymedigaeth a chânt eu hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Adroddiadau cylchrannol
Diffinnir cylchran busnes fel grŵp o asedau a gweithrediadau sy'n darparu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n agored i wahanol risgiau ac adenillion o'r cylchrannau busnes hynny. Mae'r Grŵp yn ystyried mai cylchrannau busnes yw ei brif fformat adrodd ar gyfer dadansoddiad cylchrannol. Cyflwynir adroddiadau ar gylchrannau busnes mewn modd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r Bwrdd, a nodwyd fel y prif benderfynwr ynglŷn â materion gweithrediadol.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod
At ddibenion y datganiad llif arian parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys balansau sy'n aeddfedu o fewn llai na thri mis o'r dyddiad caffael, gan gynnwys: arian parod a balansau anghyfyngedig â banciau canolog, biliau'r trysorlys a biliau cymwys eraill, benthyciadau a blaensymiau i fanciau, symiau eraill sy'n ddyledus gan fanciau a gwarannau byrdymor y Llywodraeth.

Darpariaethau a rhwymedigaethau dichonadwy
Nodir darpariaeth pan fo rhwymedigaeth bresennol yn bodoli o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, pan ei bod yn debygol y caiff y rhwymedigaeth ei setlo a phan ellir ei hamcangyfrif yn ddibynadwy. Pan nad yw'n debygol y bydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo a/neu pan nad oes modd ei hamcangyfrif yn ddibynadwy, datgelir rhwymedigaeth ddichonadwy yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Grantiau'r Llywodraeth
Nodir grantiau'r Llywodraeth yn ôl eu gwerth teg pan fo sicrwydd rhesymol y caiff y grant ei dderbyn ac y bydd y Grŵp yn cydymffurfio â'r holl amodau sydd ynghlwm wrtho.

Nodir grantiau'r Llywodraeth fel incwm yn y datganiad incwm cynhwysfawr dros y cyfnodau sydd eu hangen i'w paru â'r costau cysylltiedig y bwriedir iddynt eu digolledu, ar sail systematig.

Cytundebau gwerthu ac ail-brynu
Gellir benthyca neu werthu buddsoddiadau a gwarannau eraill yn amodol ar ymrwymiad i'w hailbrynu ('repo'). Cedwir gwarannau o'r fath ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol pan fo cyfran helaeth o'r holl risgiau ac enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth yn aros o fewn y Grŵp, a chynhwysir y rhwymedigaeth gwrthbarti ar wahân ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel sy'n briodol.

Yn yr un modd, pan fo'r Grŵp yn benthyca neu'n prynu gwarannau yn amodol ar ymrwymiad i'w hailwerthu ('repo gwrthdro') ond nad yw'n caffael y risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth, ymdrinnir â'r trafodion fel benthyciadau â gwarant gyfochrog, ac ni chaiff y gwarannau eu cynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

2. Penderfyniadau o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Wrth weithredu ei bolisïau cyfrifyddu, mae'n rhaid i'r Grŵp wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y symiau a nodir yn y datganiadau ariannol. Yn ogystal â hyn, gwneir amcangyfrifon a thybiaethau a allai effeithio ar swm yr asedau a'r rhwymedigaethau yr adroddir amdanynt o fewn y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae'r canlynol ymhlith y meysydd mwyaf arwyddocaol lle y gwneir penderfyniadau ac amcangyfrifon:

Darpariaeth lleihad mewn gwerth ar fenthyciadau a blaensymiau

Yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar leihad mewn gwerth asedau ariannol a gaiff eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio lle y ceir tystiolaeth wrthrychol o golled, mesurir y golled fel y gwahaniaeth rhwng swm cario'r ased a gwerth presennol llifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased.

Mae'r tybiaethau allweddol a gynhwysir wrth fesur y golled a gafwyd yn cynnwys data ynglŷn â'r tebygolrwydd y bydd diffygdalu yn codi mewn unrhyw gyfrif, y tebygolrwydd y bydd cyfrifon sy'n diffygdalu yn arwain at feddiannu, a'r golled yn y pen draw yn sgil gwerthu gorfodol neu ddileu'r ddyled. Mae'r Mynegai Prisiau Tai a'r disgownt ar werthiannau gorfodol yn dybiaethau allweddol ar y llyfrau morgeisi preswyl. Pe byddai'r symudiadau yn y Mynegai Prisiau Tai 1% yn wahanol i'r hyn a welir ar hyn o bryd, byddid yn gweld effaith o £1.2 miliwn ar y darpariaethau. Byddai 1% o newid o'i gymharu â'r disgowntiau ar werthiannau gorfodol a welir ar hyn o bryd yn cael effaith o £1.2 miliwn ar y darpariaethau.

Mae'r tybiaethau hyn yn seiliedig ar ddata hanesyddol a arsylwyd a chânt eu diweddaru yn ôl yr hyn sy'n briodol ym marn rheolwyr i adlewyrchu amgylchiadau presennol ac amgylchiadau yn y dyfodol. O'r herwydd, byddai newidiadau annisgwyl yn y tybiaethau uchod yn effeithio ar gywirdeb y ddarpariaeth lleihad mewn gwerth.

Caiff gwerthoedd gwarantau cyfochrog eu diweddaru ar ddyddiad pob datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael yn gyhoeddus. Defnyddir data'r Gofrestrfa Tir yn y sector Gwasanaethau Ariannol Manwerthu, a defnyddir Hometrack yn y sector Benthyciadau Personol Gwarantedig. Defnyddir prisiadau allanol i amcangyfrif gwerthoedd gwarannau masnachol a llifau arian parod yn y dyfodol.

Darpariaeth o ran lleihad mewn gwerth ar warannau buddsoddi

Mae gan y Grŵp amlygiad gwerth £10.0 miliwn (2010: £10.0 miliwn) i Anglo Irish Bank Corporation Ltd sydd i'w ad-dalu ym mis Mehefin 2012, ac ar hyn o bryd mae gwarant arno dan Gynllun Gwarantu Rhwymedigaethau Cymwys Llywodraeth Iwerddon. Cymeradwyir y cynllun hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd dan reolau cymorth gwladwriaethol Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y cytundeb rhwng Llywodraeth Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) ar gyfer cynllun ailstrwythuro ym mis Tachwedd 2010 yn cynnwys sicrwydd y byddai ei fondiau uwch anwarantedig yn cael eu had-dalu'n llawn. Mae'r ad-daliadau llog i gyd wedi eu talu hyd yma. Yn sgil y ffeithiau hyn, mae'r cyfarwyddwyr yn ystyried nad yw'r amlygiad hwn wedi lleihau mewn gwerth. Nid oes gan y Grŵp unrhyw amlygiad uniongyrchol i Wlad Groeg, yr Eidal, Portiwgal na Sbaen ar 31 Rhagfyr 2011.

Ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael, cynhaliwyd asesiad o wrthbartïon allweddol y Gymdeithas o ran lefelau posibl yr amlygiad anuniongyrchol i economïau dirwasgedig Ardal yr Ewro. Ar ôl cynnal asesiad o'r fath, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oes angen gwneud darpariaethau lleihad mewn gwerth ar gyfer amlygiadau anuniongyrchol i ddyledion sofran Ardal yr Ewro.

Gwerth teg deilliadau ac asedau sydd ar gael i'w gwerthu

Mae offerynnau ariannol deilliadol ac asedau sydd ar gael i'w gwerthu yn cael eu nodi yn ôl eu gwerth teg. Pennir gwerth offerynnau ariannol deilliadol trwy fodelau llif arian parod wedi'i ddisgowntio gan ddefnyddio cromliniau elw sydd wedi eu seilio ar ddata y gellir ei arsylwi yn y farchnad. Yn y rhan fwyaf o achosion, pennir gwerth asedau sydd ar gael i'w gwerthu gan ddefnyddio prisiau'r farchnad neu brisiau a gafwyd gan wrthbartïon. Mewn achosion lle nad oes prisiau'r farchnad ar gael, defnyddir modelau llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Gallai newidiadau yn y tybiaethau a ddefnyddir yn y modelau effeithio ar y gwerth teg a adroddir ar gyfer asedau sydd ar gael i'w gwerthu.

Mae'r Grŵp yn defnyddio dull cyfrifyddu gwerth teg ar sail rhagfantoli sy'n dibynnu ar nifer o dybiaethau, ac mae'r pwysicaf ohonynt yn ymwneud ag amcangyfrifon ynglŷn â rhagdaliadau benthyciadau.

Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Mae'n rhaid i'r Grŵp wneud tybiaethau ynglŷn â'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn, chwyddiant marwoldeb a chodiadau cyflog yn y dyfodol wrth brisio ei rwymedigaethau pensiwn a chost y buddiannau a ddarperir. Gallai newidiadau mewn tybiaethau effeithio ar y rhwymedigaeth a adroddir, costau cynnal ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn.

Byddai cynnydd o 0.1% yn y tybiaethau o ran chwyddiant yn arwain at gynnydd o tua £1.0 miliwn yng ngwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn. Byddai cynnydd o 0.1% yn y gyfradd ddisgowntio yn arwain at ostyngiad o tua £1.0 miliwn yng ngwerth y rhwymedigaethau pensiwn. Ceir mwy o fanylion am y tybiaethau a ddefnyddir wrth bennu gwerth rhwymedigaethau buddiannau ymddeol yn Nodyn 12.

2. Penderfyniadau o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

i) Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI)

Gwnaed darpariaethau ar gyfer hawliadau mewn cysylltiad â chynhyrchion Yswiriant Diogelu Taliadau a werthwyd yn flaenorol ac, yn achos y Grŵp, roedd y rhain yn ymwneud â chynhyrchion o'r fath ar gyfer benthyciadau personol gwarantedig. Ym mis Awst 2010, cyhoeddodd yr FSA ei Ddatganiad Polisi PS10/12, sef *The Assessment and Redress of Payment Protection Complaints*. Mae'r gost derfynol yn ansicr yn ei hanfod, ac wrth bennu lefel y darpariaethau sydd ei hangen, mae angen i reolwyr wneud penderfyniadau yn ofalus. Mae'r prif dybiaethau sy'n sail i'r darpariaethau yn ymwneud â nifer yr achosion y mae angen gwneud taliadau iawndal ynglŷn â hwy, cost gyfartalog amcangyfrifedig yr iawndal fesul achos a nifer y cwsmeriaid sy'n gwneud cais am iawndal lle mae'n ymddangos y gellid cefnogi eu hachos.

Mae gan y Grŵp ddarpariaeth o £21.6 miliwn ar 31 Rhagfyr 2011, (2010: £19.8 miliwn), ac mae'n disgwyl i hynny fod yn ddigon i gyflawni ei rwymedigaethau mewn cysylltiad â chynhyrchion Yswiriant Diogelu Taliadau a werthwyd yn flaenorol. Cyfrifir lefel y ddarpariaeth ar sail amcangyfrifon o nifer y cwynion, cyfran yr hawliadau sy'n cael eu cadarnhau, a lefel yr iawndal a delir ar gyfer pob cwyn. Byddai cynnydd o 1% yn lefel ddisgwyliedig y cwynion yn golygu cynnydd o £0.3 miliwn yng ngwerth y ddarpariaeth a fyddai'n ofynnol.

Gwneir darpariaethau dim ond pan fo'r Grŵp yn gyfrifol am werthu'r cynnyrch yn wreiddiol. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwerthiannau gan drydydd partïon, gan y cafwyd cyngor cyfreithiol allanol ei bod yn annhebygol y byddai'n rhaid i'r Grŵp dalu iawndal am werthiannau o'r fath.

ii) Ardoll Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol

Mae gan y Grŵp, ynghyd â sefydliadau eraill sy'n derbyn adneuon, ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau dan Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Mae gan y Grŵp ddarpariaeth o £3.7 miliwn, ar 31 Rhagfyr 2011, mewn cysylltiad ag ardollau sy'n daladwy ym mis Medi 2012 a 2013.

Mae'r brif dybiaeth sy'n sail i'r ddarpariaeth yn ymwneud â'r llog a godir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar y benthyciadau sy'n cyllido'r cynllun. Byddai cynnydd o 1% yn lefel ddisgwyliedig y llog yn golygu cynnydd o £0.7 miliwn yng ngwerth y ddarpariaeth a fyddai'n ofynnol.

Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)

Mae rhwymedigaeth y Grŵp yn y pen draw am ardollau sy'n daladwy i'r FSCS mewn cysylltiad â sefydliadau ariannol sy'n methu yn parhau'n ansicr. Mae'r swm a ddarperir yn dibynnu ar y ffactorau canlynol:

- Cyfraddau llog yn y dyfodol;
- Diffygion cyfalaf yn sgil adennill symiau annigonol i ad-dalu benthyciadau gan Drysorlys Ei Mawrhydi yn llawn;
- Cyfran y Grŵp o adneuon y diwydiant a ddiogelir ar 31 Rhagfyr 2011; a
- Strwythur y cynllun yn y dyfodol.

Ceir mwy o fanylion am yr FSCS a'r darpariaethau a ddelir yn Nodyn 39.

Treth

Mae angen gwneud amcangyfrifon sylweddol wrth bennu'r ddarpariaeth ar gyfer treth gorfforaeth. Ceir nifer o drafodion lle mae'r penderfyniad terfynol ynglŷn â threth yn ansicr ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Cyfradd llog effeithiol (EIR)

Mae'r Grŵp yn defnyddio'r dull EIR i nodi incwm ar gyfer offerynnau ariannol penodol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio. Er mwyn cyfrifo'r EIR briodol, mae'r Grŵp yn gwneud tybiaethau ynglŷn â chyfnod defnyddiol disgwyliedig offerynnau ariannol a lefel y taliadau cosb a ragwelir am adbrynu'n gynnar.

Byddai newid o 10% mewn cyfnod defnyddiol disgwyliedig offerynnau ariannol yn arwain at gynnydd/gostyngiad o £0.1 miliwn/(£0.1 miliwn) yng ngwerth y benthyciadau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Byddai newid o 10% yn y lefel adbrynu cynnar a ragwelir yn arwain at gynnydd/gostyngiad o £0.3 miliwn/(£0.3 miliwn) yng ngwerth y benthyciadau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

3. Cylchrannau busnes

Mae'r Grŵp yn gweithredu pedair prif gylchran busnes: sef gwasanaethau ariannol manwerthu, benthyciadau personol gwarantedig, gwasanaethau eiddo gan gynnwys asiantaeth dai a benthyciadau masnachol. Defnyddir y cylchrannau hyn ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn fewnol i'r Bwrdd, sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau o bwys. Mae trafodion rhwng y cylchrannau busnes yn dilyn y telerau ac amodau masnachol arferol.

	2011					
	Gwasanaethau ariannol manwerthu	Benthyciadau masnachol	Benthyciadau personol gwarantedig	Gwasanaethau eiddo	Addasiad ar gyfer trafodion y Grŵp	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Incwm llog net	53.1	9.3	42.6	-	-	105.0
Incwm a thaliadau eraill	8.3	1.1	2.6	11.0	(2.5)	20.5
Incwm gweithredu net	61.4	10.4	45.2	11.0	(2.5)	125.5
Treuliau gweinyddol	(43.2)	(2.0)	(9.3)	(9.7)	(2.0)	(66.2)
Darpariaeth lleihad mewn gwerth ar gyfer colledion ar fenthyciadau a blaensymiau	(4.3)	(7.0)	(13.3)	-	-	(24.6)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	(1.5)	-	(9.3)	(0.4)	-	(11.2)
Elw/(colled) gweithredu	**12.4**	**1.4**	**13.3**	**0.9**	**(4.5)**	**23.5**
Enillion eraill	1.0	-	-	-	-	1.0
Elw cyn treth	**13.4**	**1.4**	**13.3**	**0.9**	**(4.5)**	**24.5**

	2010					
	Gwasanaethau ariannol manwerthu	Benthyciadau masnachol	Benthyciadau personol gwarantedig	Gwasanaethau eiddo	Addasiad ar gyfer trafodion y Grŵp	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Incwm llog net	55.9	10.8	45.1	-	-	111.8
Incwm a thaliadau eraill	8.9	0.9	(0.1)	9.5	(1.9)	17.3
Incwm gweithredu net	64.8	11.7	45.0	9.5	(1.9)	129.1
Treuliau gweinyddol	(39.6)	(2.0)	(9.3)	(9.0)	(2.2)	(62.1)
Darpariaeth lleihad mewn gwerth ar gyfer colledion ar fenthyciadau a blaensymiau	(2.8)	(9.6)	(9.8)	-	-	(22.2)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	(0.5)	-	(16.2)	(0.4)	-	(17.1)
Elw/(colled) gweithredu	**21.9**	**0.1**	**9.7**	**0.1**	**(4.1)**	**27.7**
Enillion eraill	3.1	-	-	-	-	3.1
Elw cyn treth	**25.0**	**0.1**	**9.7**	**0.1**	**(4.1)**	**30.8**

Mae'r ffigurau cymharol yn cynnwys £3.6 miliwn a drosglwyddwyd o'r prif gylchrannau busnes i 'Addasiad ar gyfer trafodion y Grŵp' er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y dulliau o gyflwyno adroddiadau mewnol yn ystod y flwyddyn.

Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

3. Cylchrannau busnes (parhad)

	Y Grŵp	
	2011	2010
	£m	£m
Cyfanswm yr asedau fesul cylchran busnes		
Gwasanaethau ariannol manwerthu	4,904.9	4,640.0
Benthyciadau personol gwarantedig	627.0	680.2
Benthyciadau masnachol	913.0	937.9
Gwasanaethau eiddo	4.8	4.0
Cyfanswm yr asedau	**6,449.7**	**6,262.1**
Cyfanswm y rhwymedigaethau fesul cylchran busnes		
Gwasanaethau ariannol manwerthu	5,819.3	5,577.9
Benthyciadau personol gwarantedig	625.6	680.2
Benthyciadau masnachol	-	-
Gwasanaethau eiddo	4.8	4.0
Cyfanswm y rhwymedigaethau	**6,449.7**	**6,262.1**

Mae'r Grŵp yn gweithredu'n gyfan gwbl yn y DU ac felly ni chyflwynir dadansoddiad cylchrannol daearyddol.

4. Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Ar fenthyciadau a warantwyd yn llawn ar eiddo preswyl	237.6	232.1	179.0	172.9
Ar fenthyciadau eraill a warantwyd yn llawn ar dir	21.7	22.2	21.7	22.2
Ar fenthyciadau eraill i is-gwmnïau	-	-	15.9	14.1
Ar warannau dyledion	7.7	11.7	7.5	11.7
Elw wrth sylweddu buddsoddiadau	0.8	6.3	0.8	6.3
Ar asedau hylifol eraill	2.9	1.7	2.9	1.7
Ar offerynnau ariannol deilliadol	(35.3)	(51.6)	(35.3)	(51.6)
	235.4	**222.4**	**192.5**	**177.3**

Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

5. Llog sy'n daladwy a thaliadau tebyg

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Ar gyfranddaliadau a ddelir gan unigolion	132.8	124.5	132.8	124.5
Ar adneuon a gwarannau dyledion	12.4	7.9	12.1	7.9
Ar gyfalaf wedi'i danysgrifio	4.2	4.2	4.2	4.2
Ar rwymedigaethau isradd	4.1	5.9	4.1	5.9
Ar offerynnau ariannol deilliadol	(23.1)	(31.9)	(23.1)	(31.9)
	130.4	**110.6**	**130.1**	**110.6**

6. Ffioedd a chomisiynau sy'n dderbyniadwy

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Yswiriant a chynhyrchion gwasanaethau ariannol cysylltiedig	7.2	6.3	5.5	5.4
Asiantaeth dai	4.8	4.9	-	-
Ffioedd sy'n gysylltiedig â morgeisi	3.3	3.4	3.3	3.4
Ffioedd a chomisiynau eraill	5.3	3.3	1.1	1.3
	20.6	**17.9**	**9.9**	**10.1**

7. Ffioedd a chomisiynau sy'n daladwy

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Ffioedd sy'n gysylltiedig â morgeisi	1.0	1.2	0.1	0.1
Taliadau banc	0.4	0.4	0.4	0.4
	1.4	**1.6**	**0.5**	**0.5**

8. Enillion a cholledion gwerth teg eraill

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Enillion/(colledion) ar ddeilliadau	5.2	(2.8)
(Colledion)/enillion ar eitemau wedi'u rhagfantoli y gellir eu priodoli i'r risg wedi ei rhagfantoli	(5.3)	3.0
	(0.1)	**0.2**

Mae enillion a cholledion gwerth teg eraill yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng newidiadau yn y gwerthoedd teg ac eithrio llif llog y deilliadau rhagfantoli, a'r newidiadau yn y gwerthoedd teg ac eithrio llif llog yr eitemau sylfaenol wedi eu rhagfantoli.

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

9. Treuliau gweinyddol

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Cyflogau	31.0	31.2	22.7	23.5
Costau nawdd cymdeithasol	3.2	2.9	2.4	2.2
Costau pensiwn eraill	1.1	1.1	1.0	1.0
	35.3	35.2	26.1	26.7
Treuliau gweinyddol eraill	24.7	21.2	18.9	15.7
	60.0	**56.4**	**45.0**	**42.4**

Mae treuliau gweinyddol eraill yn cynnwys:		£000	£000	£000	£000
Taliadau cydnabyddiaeth yr archwilwyr:					
Ar gyfer archwilio Cyfrifon Blynyddol y Gymdeithas		104	103	104	103
Ar gyfer archwilio is-gwmnïau'r Gymdeithas		26	26	-	-
Cyfanswm		**130**	**129**	**104**	**103**
Ar gyfer gwasanaethau eraill:					
Cynghori ar faterion treth		57	107	57	107
Gwasanaethau ymgynghori arbenigol		307	-	307	-
Gwasanaethau sicrwydd ychwanegol		90	38	90	38
Pob gwasanaeth arall		12	10	12	10
Taliadau prydlesau gweithredu	- cerbydau modur	252	257	228	228
	- tir ac adeiladau	1,727	1,627	1,019	859

10. Cyflogeion

Nifer y cyflogeion a gyflogwyd ar gyfartaledd, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol, oedd:

	Llawn amser		Rhan-amser	
	2011	2010	2011	2010
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Canolfan Cymorth i Gwsmeriaid y Gymdeithas	467	443	67	71
Canghennau'r Gymdeithas	192	190	131	124
Wedi'u cyflogi gan y Gymdeithas	659	633	198	195
Is-gwmnïau	258	245	58	53
Wedi'u cyflogi gan y Grŵp	**917**	**878**	**256**	**248**

11. Enillion Cyfarwyddwyr y Gymdeithas

Dangosir enillion y cyfarwyddwyr fel rhan o Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 33 yn unol ag Atodlen 5, paragraffau 4 a 5 o Reoliadau Cymdeithasau Adeiladu (Cyfrifon a Darpariaethau Cysylltiedig) 1998. Cyfanswm enillion y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn oedd £1.6 miliwn (2010: £1.8 miliwn).

Yn ogystal, talwyd cyfanswm o £24,000 (2010: £23,000) mewn pensiynau ex-gratia i gyn-gyfarwyddwyr.

12. Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Mae'r Grŵp yn gweithredu dau gynllun pensiwn, sef cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae cynllun buddiannau diffiniedig yn diffinio'r buddiannau y bydd cyflogai yn eu cael pan fydd yn ymddeol, yn dibynnu ar ffactorau megis oedran, hyd gwasanaeth a chyflog. Roedd staff, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol, a ddechreuodd yn eu swydd cyn 1 Ionawr 2001 yn gymwys i ymuno â chynllun buddiannau diffiniedig y Gymdeithas. Lluniwyd y cynllun hwn i ddarparu hawliadau pensiwn yn seiliedig ar gyflog cyfartalog yn ystod gyrfa (cyflog terfynol hyd 31 Rhagfyr 2005) a chaiff yr asedau eu dal y tu allan i'r Gymdeithas mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan yr Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, cynigir aelodaeth o'r Cynllun yn ôl disgresiwn y Gymdeithas ac mae nifer fechan o aelodau newydd wedi'u derbyn i'r Cynllun ar y sail hon ar ôl 1 Ionawr 2001.

Caewyd y cynllun buddiannau diffiniedig i groniadau pellach ar 31 Gorffennaf 2010 ac fe'i disodlwyd gan gynllun cyfraniadau diffiniedig gwell, sef Cynllun Ymddeol Hyblyg y Grŵp (GFRP). Cyfrannodd y Grŵp £1.0 miliwn at y cynllun buddiannau diffiniedig wrth ei gau ac mae wedi cyfrannu £2.0 filiwn arall yn ystod 2011 i gynorthwyo i leihau'r diffyg cyfredol.

Roedd y cynllun buddiannau diffiniedig yn destun prisiad bob tair blynedd gan actiwari annibynnol y Cynllun ar 30 Medi 2010, ac roedd diffyg o £8.2 miliwn ar y dyddiad hwnnw. Cafodd y prisiad hwn ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr ar 2 Rhagfyr 2011. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Gymdeithas wedi cytuno i dalu cyfraniadau ychwanegol ar raddfa o £1.0 miliwn i'r cynllun nes i'r diffyg gael ei ddileu.

Yn achos y cynllun cyfraniadau diffiniedig, mae'r Grŵp a'r cyflogai yn talu cyfraniadau sefydlog, heb unrhyw rwymedigaeth i dalu cyfraniadau ychwanegol. Mae staff a gyflogwyd ar ôl 1 Ionawr 2001 a'r aelodau staff hynny a oedd yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig gynt, yn gymwys i ymuno â'r cynllun hwn. Cost cyfraniadau'r cyflogwr i'r Grŵp a'r Gymdeithas ar gyfer y cynllun yn 2011 (cyn trefniadau aberthu cyflog) oedd £892,000 (2010: £486,000). Nid oedd unrhyw gyfraniadau heb eu talu nac wedi eu rhagdalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae'r cynllun yn cael ei reoli gan Fwrdd Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys pum unigolyn, a dau ohonynt wedi'u hethol gan Aelodau i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn Ymddiriedolwyr a Enwebwyd gan Aelodau. Mae gan y Gymdeithas y pŵer i benodi a diswyddo Ymddiriedolwyr yn unol â Gweithred yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi parhau i weithredu yn unol â'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a fabwysiadwyd ar 1 Tachwedd 2007 fel sy'n ofynnol gan Adran 35 Deddf Pensiynau 1995. Rheolir yr asedau sy'n cefnogi'r Cynllun gan Royal London Asset Management, BlackRock Investment Management (UK) Limited a Standard Life Investments. Bu UBS Global Assets Management yn gyfrifol am asedau yn ystod y flwyddyn hefyd. Yn ogystal, gallai'r Ymddiriedolwyr ddal arian parod o bryd i'w gilydd. Buddsoddwyd yr asedau a reolwyd gan Standard Life Investments, UBS Global Assets Management a BlackRock Investment Management (UK) Limited yn ystod y flwyddyn i dargedu cyfradd adenillion hirdymor sy'n llawer uwch na chwyddiant.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn cyllido cost yswiriant bywyd i aelodau staff, ac yn darparu pensiynau nas ariannwyd yn uniongyrchol i rai cyfarwyddwyr a chyflogeion a ymddeolodd cyn 1997.

Datgelodd cyfrifiadau wedi eu diweddaru a baratowyd gan actiwari'r cynllun ar sail IAS 19 ar 31 Rhagfyr 2011, gan gynnwys y rhwymedigaeth nas ariannwyd y cyfeiriwyd ati uchod, ddiffyg o £11.5 miliwn (2010: £9.3 miliwn). O dan y cynllun adfer a gytunwyd fel rhan o'r prisiad tair blynedd, newidiwyd y gyfradd dybiedig ar gyfer ailbrisio pensiynau gohiriedig a phensiynau isafswm gwarantedig yn ôl i'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI), o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a ddefnyddiwyd yn ystod 2010. Adolygir y defnydd o'r RPI a'r CPI yn ystod 2014. Effaith y newid hwn oedd lleihau'r diffyg £1.3 miliwn.

Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Ar 31 Rhagfyr				
	2011	2010	2009	2008	2007
	%	%	%	%	%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	3.05	3.55	3.60	2.70	3.20
Cyfradd y cynnydd o ran y pensiynau a delir a phensiynau gohiriedig	3.05	3.55	3.60	2.70	3.20
Cyfradd ddisgowntio	4.70	5.40	5.65	6.25	5.70
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant (RPI)	3.05	3.55	3.60	2.70	3.20
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant (CPI)	2.25	3.05	amh.	amh.	amh.
Y cyfraddau adenillion hirdymor a ddisgwylir ar fuddsoddiadau yn y cynlluniau oedd:	5.60	6.30	6.50	6.50	6.50

12. Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol (parhad)

Pennir y tybiaethau ynglŷn â marwoldeb trwy gyfrwng y tablau canlynol:

	2011	2010
Aelodau sydd wedi ymddeol ac aelodau nad ydynt wedi ymddeol	SAPS LC1%B	SAPS LC1%B
Dangosir y tybiaethau trwy'r ffigurau disgwyliad oes canlynol i rai 65 oed:		
Aelodau sydd wedi ymddeol		
Dynion sy'n 65 oed ar hyn o bryd	22.9	22.8
Menywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd	25.7	25.6
Aelodau nad ydynt wedi ymddeol		
Dynion sy'n 45 oed ar hyn o bryd	24.9	24.8
Menywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd	27.7	27.6

Mae'r rhwymedigaeth buddiannau ymddeol sy'n ymwneud â'r cynllun ac a gydnabyddir yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn cynnwys y canlynol:

	Ar 31 Rhagfyr				
	2011	2010	2009	2008	2007
	£m	£m	£m	£m	£m
Cronfeydd adenillion targed	22.6	22.4	18.6	17.8	21.5
Gwarannau dyledion	22.6	20.4	21.4	17.7	17.6
Ecwitïau	-	-	-	-	-
Bondiau ac arian parod	0.9	0.4	0.4	-	-
Cyfanswm gwerth teg asedau'r cynllun	46.1	43.2	40.4	35.5	39.1
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(57.1)	(52.0)	(49.8)	(36.3)	(40.5)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir	(0.5)	(0.5)	(0.5)	(0.5)	(0.5)
Diffyg net a gydnabyddir yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol	**(11.5)**	**(9.3)**	**(9.9)**	**(1.3)**	**(1.9)**

Mae'r symiau a gydnabyddir yn y datganiad incwm cynhwysfawr fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Dadansoddiad o gostau pensiwn (a gynhwysir yn y treuliau gweinyddol)		
Cost cynnal gyfredol	-	(0.5)
	-	**(0.5)**
Dadansoddiad o gredyd cyllid (a gynhwysir yn yr incwm gweithredu arall)		
Adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn	(2.8)	(2.7)
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	2.8	2.8
Credyd net i incwm ariannol arall	**-**	**0.1**
Dadansoddiad o'r swm a nodir yn y datganiad incwm a threuliau cydnabyddedig		
Colled actiwaraidd	(4.2)	(0.5)
Dadansoddiad o'r symudiad yn niffyg y datganiad o'r sefyllfa ariannol		
Diffyg y cynlluniau ar ddechrau'r flwyddyn	(9.3)	(9.9)
Symudiad yn ystod y flwyddyn:		
Cost cynnal gyfredol	-	(0.5)
Credyd cyllid arall	-	0.1
Colled actiwaraidd	(4.2)	(0.5)
Cyfraniadau a dalwyd	2.0	1.5
Diffyg y cynlluniau ar ddiwedd y flwyddyn	**(11.5)**	**(9.3)**

12. Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol (parhad)

Dadansoddiad o'r symudiad yng ngwerth teg asedau cynlluniau pensiwn

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Ar 1 Ionawr	43.2	40.4
Adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynlluniau	2.7	2.6
Cyfraniadau'r Gymdeithas	2.1	1.6
Cyfraniadau aelodau'r cynlluniau	-	0.2
Buddiannau a dalwyd	(1.3)	(1.4)
Colledion actiwaraidd	(0.6)	(0.2)
Ar 31 Rhagfyr	**46.1**	**43.2**

Manylion yr enillion a'r colledion a brofwyd

	Y Grŵp a'r Gymdeithas				
	2011	2010	2009	2008	2007
Y gwahaniaeth rhwng yr adenillion a ddisgwylir a'r adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun:					
Swm y (golled)/yr elw	(£0.6m)	(£0.2m)	£2.8m	(£6.2m)	(£0.7m)
Canran asedau'r cynllun	1.3%	0.4%	6.9%	17.5%	1.8%
Yr enillion a'r colledion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun:					
Swm y (golled)/yr elw	(£3.6m)	(£0.3m)	(£11.6m)	£6.9m	(£0.8m)
Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	6.2%	0.6%	23.0%	18.8%	1.9%
Y cyfanswm a nodir yn y datganiad o gyfanswm yr incwm a'r treuliau cydnabyddedig:					
Swm y (golled)/yr elw	-	(£0.5m)	(£8.8m)	£0.7m	(£1.5m)
Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	0.0%	1.0%	17.5%	1.8%	3.7%

Swm cronnus y colledion actiwaraidd a nodwyd o dan incwm cynhwysfawr arall ers dyddiad trosglwyddo i IFRS yw £7.8 miliwn (2010: £3.6 miliwn).

Yr adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun oedd £2.7 miliwn (2010: £2.6 miliwn).

13. Treth

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Treth bresennol				
Tâl treth gorfforaeth y DU a godwyd am y flwyddyn	6.7	8.3	2.8	5.1
Addasiadau o ran blynyddoedd blaenorol	-	(1.0)	(0.4)	(0.4)
	6.7	7.3	2.4	4.7
Treth ohiriedig				
Tâl treth ohiriedig am y flwyddyn	0.2	(0.3)	0.2	(0.2)
Addasiadau o ran blynyddoedd blaenorol	0.2	0.6	0.1	0.1
	0.4	0.3	0.3	(0.1)
Trethiant ar elw ar weithgareddau arferol	**7.1**	**7.6**	**2.7**	**4.6**

13. Treth (parhad)

Lleihawyd cyfradd statudol treth gorfforaeth i 26.0% o 1 Ebrill 2011. Codwyd treth gorfforaeth o 28.0% ar y Grŵp am y cyfnod 1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2011, a 26.0% am y cyfnod 1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2011. O ganlyniad, 26.5% oedd cyfradd y dreth gorfforaeth ar gyfer y flwyddyn lawn yn 2011.

Mae'r tâl treth gwirioneddol am y flwyddyn yn wahanol i'r hyn a gyfrifwyd gan ddefnyddio cyfradd safonol y dreth gorfforaeth yn y DU. Esbonnir y gwahaniaethau isod.

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Elw cyn trethiant	24.5	30.8	11.0	20.4
Elw wedi ei luosi â chyfradd safonol y dreth gorfforaeth, sef 26.5% (2010: 28.0%)	6.5	8.6	2.9	5.7
Effeithiau:				
Treuliau nad ydynt yn ddidynadwy at ddibenion treth	0.3	0.3	0.3	0.3
Addasiadau i flynyddoedd blaenorol	0.2	(0.4)	(0.2)	(0.3)
Arall	0.1	(0.9)	(0.3)	(1.1)
Cyfanswm y trethiant am y flwyddyn	**7.1**	**7.6**	**2.7**	**4.6**

Mae enillion o £3.1 miliwn wrth ail-brynu £10.0 miliwn o rwymedigaethau isradd, sy'n anhrethadwy, wedi'u cynnwys yn elw'r Grŵp ar gyfer 2010.

14. Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd

Ad-daladwy o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol wrth gynnal busnes arferol:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llog cronedig	0.2	0.1	0.2	0.1
Ar orchymyn	67.9	45.7	18.1	44.2
Llai na thri mis	53.0	3.0	3.0	3.0
Asedau'r Atodiad Cymorth Credyd (CSA)	51.0	24.5	51.0	24.5
	172.1	**73.3**	**72.3**	**71.8**

Prif Gytundeb y Gymdeithas Cyfnewidiadau a Deilliadau Ryngwladol (ISDA) yw'r cytundeb a ffefrir gan y Principality ar gyfer cofnodi gweithgarwch deilliadol. Defnyddiwyd Atodiad Cymorth Credyd (CSA) ar gyfer rhai gwrthbartïon ar y cyd â Phrif Gytundeb yr ISDA. Dan CSA, trosglwyddir gwarant gyfochrog rhwng gwrthbartïon i leihau risg ddichonadwy ar y farchnad i wrthbartïon, sy'n rhan annatod o'r sefyllfaoedd dyledus. Mae £51.0 miliwn wedi ei addo ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol (2010: £24.5 miliwn).

15. Gwarannau dyledion

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Dyroddwyd gan Lywodraeth y DU	242.8	352.9
Dyroddwyd gan endidau Rhyngwladol	25.9	26.6
Dyroddwyd gan fenthycwyr eraill a heb eu rhestru	141.0	421.3
	409.7	**800.8**

Caiff gwarannau dyledion eu dal fel asedau sydd ar gael i'w gwerthu a'u cario yn ôl eu gwerth teg.

Mae'r gwarannau dyledion a nodir uchod yn ad-daladwy o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod busnes arferol fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Llog cronedig	2.3	3.0
Llai na thri mis	132.9	330.1
Rhwng tri mis a blwyddyn	166.4	271.2
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	56.7	196.5
Mwy na phum mlynedd	51.4	-
	409.7	**800.8**

Crynhoir y symudiad mewn gwarannau dyledion sydd ar gael i'w gwerthu fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Ar 1 Ionawr 2011	800.8	1,084.5
Ychwanegiadau	1,342.9	2,228.2
Gwarediadau ac aeddfedrwydd	(1,735.3)	(2,508.2)
Enillion/(colledion)yn sgil newidiadau mewn gwerth teg	2.1	(1.8)
Gostyngiad mewn llog cronedig	(0.8)	(1.9)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**409.7**	**800.8**

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

16. Offerynnau ariannol deilliadol

Defnyddir cyfnewidiadau arian cyfred a chyfradd llog gan y Grŵp at ddibenion rhagfantoli. Ymrwymiadau yw'r rhain i gyfnewid un gyfres o lifau arian parod am un arall. Ni chyfnewidir prifswm.

	Y Grŵp a'r Gymdeithas			
	Contract/swm tybiannol		Gwerth teg	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Asedau deilliadol a ddelir at ddibenion rhagfantoli a chronfeydd rhagfantoli gwerth teg dynodedig:				
Cyfnewidiadau cyfradd llog	1,686.8	2,048.2	38.6	28.3
Cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred	33.4	51.4	6.3	10.4
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti	-	-	0.6	-
Cyfanswm yr asedau deilliadol cydnabyddedig	**1,720.2**	**2,099.6**	**45.5**	**38.7**
Rhwymedigaethau deilliadol a ddelir at ddibenion rhagfantoli a chronfeydd rhagfantoli gwerth teg dynodedig:				
Cyfnewidiadau cyfradd llog	1,678.1	1,594.0	(57.4)	(55.7)
Cyfanswm yr asedau/(rhwymedigaethau) deilliadol cydnabyddedig	**1,678.1**	**1,594.0**	**(57.4)**	**(55.7)**

17. Asedau a fesurwyd yn ôl gwerth teg

	Y Grŵp a'r Gymdeithas		
	2011	Lefel 1	Lefel 2
	£m	£m	£m
Asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy elw neu golled:			
Offerynnau ariannol deilliadol	45.5	-	45.5
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu:			
Gwarannau dyledion	409.7	409.7	-
Cyfanswm	**455.2**	**409.7**	**45.5**

	Y Grŵp a'r Gymdeithas		
	2010	Lefel 1	Lefel 2
	£m	£m	£m
Asedau ariannol yn ôl gwerth teg trwy elw neu golled:			
Offerynnau ariannol deilliadol	38.7	-	38.7
Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu:			
Gwarannau dyledion	800.8	800.8	-
Cyfanswm	**839.5**	**800.8**	**38.7**

Mae'r tablau uchod yn darparu dadansoddiad o offerynnau ariannol a fesurir ar ôl eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl gwerth teg, wedi'u grwpio'n lefelau 1 i 3 yn seiliedig ar y graddau y gellir gweld y gwerth teg.

Lefel	Hierarchaeth ar gyfer datgeliadau gwerth teg
1	Prisiau a restrwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau sydd yn union yr un fath.
2	Mewnbynnau heblaw am brisiau a restrwyd ac sydd wedi'u cynnwys yn lefel 1 y gellir eu gweld ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (h.y. a ddeilliwyd o brisiau).
3	Mewnbynnau ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth nad ydynt wedi'u seilio ar ddata sydd i'w weld yn y farchnad. Nid oes unrhyw offerynnau wedi'u dosbarthu'n lefel 3 yn 2011 (2010: dim).

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

18. Benthyciadau a warantwyd yn llawn ar eiddo preswyl

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Balansau gros	4,669.9	4,357.7	4,042.5	3,682.1
Darpariaeth ar gyfer colledion o ran lleihad mewn gwerth	(63.2)	(55.5)	(27.4)	(20.0)
Ffioedd tarddiad benthyciadau heb eu hamorteiddio	28.2	35.1	(1.8)	(2.5)
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli	55.2	51.6	55.2	51.6
	4,690.1	**4,388.9**	**4,068.5**	**3,711.2**

O fewn cyfansymiau'r Grŵp a nodir uchod roedd £45.2 miliwn wedi'i warantu'n rhannol yn erbyn eiddo preswyl (2010: £50.8 miliwn).

19. Benthyciadau eraill a warantwyd yn llawn ar dir

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Benthyciadau eraill	530.0	571.5

20. Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid

Dadansoddiad aeddfedrwydd o fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llai na thri mis	143.4	163.4	130.4	150.2
Rhwng tri mis a blwyddyn	299.4	267.4	271.7	239.5
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	958.0	1,081.0	795.6	916.1
Mwy na phum mlynedd	3,799.1	3,417.4	3,374.8	2,947.8
	5,199.9	4,929.2	4,572.5	4,253.6
Darpariaeth ar gyfer colledion o ran lleihad mewn gwerth	(63.2)	(55.5)	(27.4)	(20.0)
Ffioedd tarddiad benthyciadau heb eu hamorteiddio	28.2	35.1	(1.8)	(2.5)
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli	55.2	51.6	55.2	51.6
	5,220.1	**4,960.4**	**4,598.5**	**4,282.7**

Ar 11 Awst sefydlodd y Grŵp ddyroddiad Gwarant a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl (RMBS), sef gwaranteiddiad allanol cyntaf y Grŵp. Roedd dyroddiad yr RMBS yn cynnwys ffurfio Friary No.1 plc a gaiff ei gyfuno â chyfrifon y Grŵp. Mae'r plc yn darparu gwarant ar gyfer dyroddiad bond amorteiddio gwerth £814.0 miliwn a wnaed gan y Gymdeithas fel rhan o'r dyroddiad hwn.

Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd £764.2 miliwn o fenthyciadau a ddyroddwyd gan y Gymdeithas wedi eu trosglwyddo i Friary No.1 plc ac mae'r rhain yn aros ar y datganiad o sefyllfa ariannol y Gymdeithas gan ei bod yn cadw'r risgiau a'r enillion. Ymdrinnir â'r asedau hyn fel rhai dan lyffethair. Gwerth y bond wedi'i amorteiddio oedd £814.0 miliwn, ac roedd y Grŵp yn cadw £514.0 miliwn. Mae modd sefydlu cytundeb ail-brynu ('repo') ar gyfer y gwarannau hunan-ddyroddedig hyn, naill ai'n uniongyrchol â'r farchnad neu â banciau canolog y mae gan y Grŵp fynediad iddynt.

Ar 12 Awst 2011 cafodd bond AAA gwerth £700 miliwn a ddyroddwyd yn fewnol gan y Gymdeithas fel rhan o'r Rhaglen Bondiau Gwarantedig ei ddiddymu oddi ar restr y gyfnewidfa, a throsglwyddwyd £832.1 miliwn o forgeisi, a oedd wedi eu trosglwyddo'n flaenorol i Principality Covered Bond LLP, yn ôl i'r Gymdeithas.

Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

21a. Darpariaeth ar gyfer colledion o ran lleihad mewn gwerth

	Gwarantwyd yn llawn ar eiddo preswyl		Gwarantwyd yn llawn ar dir	
	Penodol	Cyfunol	Penodol	Cyfunol
	£m	£m	£m	£m
2011				
Y Grŵp				
Ar 1 Ionawr 2011	43.6	11.9	-	-
Symiau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	(16.9)	-	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau	17.4	3.2	4.0	-
Ar 31 Rhagfyr 2011	**44.1**	**15.1**	**4.0**	**-**
Y Gymdeithas				
Ar 1 Ionawr 2011	8.1	11.9	-	-
Symiau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	(3.9)	-	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau	4.1	3.2	4.0	-
Ar 31 Rhagfyr 2011	**8.3**	**15.1**	**4.0**	**-**
2010				
Y Grŵp				
Ar 1 Ionawr 2010	42.6	6.7	-	-
Symiau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	(16.0)	-	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau	17.0	5.2	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2010	**43.6**	**11.9**	**-**	**-**
Y Gymdeithas				
Ar 1 Ionawr 2010	5.8	6.7	-	-
Symiau a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn	(4.9)	-	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau	7.2	5.2	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2010	**8.1**	**11.9**	**-**	**-**

21b. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Ar 1 Ionawr	24.8	9.4	4.9	5.6
Ychwanegiadau	11.2	17.1	1.9	1.0
Defnydd	(9.3)	(1.7)	(1.7)	(1.7)
Ar 31 Rhagfyr	**26.7**	**24.8**	**5.1**	**4.9**

Mae ardoll Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol o £3.7 miliwn sy'n seiliedig ar gyfran y Grŵp o adneuon a ddiogelir wedi'i chynnwys yn y darpariaethau. Disgrifir yr agwedd wrth gefn ar yr ardoll yn Nodyn 39.

Gwnaed darpariaethau eraill o £21.6 miliwn o ran hawliadau amrywiol gan gwsmeriaid, gan gynnwys hawliadau yn ymwneud â gwerthiannau blaenorol Yswiriant Diogelu Taliadau. Disgwylir y bydd unrhyw rwymedigaeth yn dod i'r amlwg yn ystod y 12 mis nesaf. Disgrifir yr agwedd wrth gefn ar y ddarpariaeth hon yn Nodyn 39.

22. Buddsoddiadau mewn sefydliadau is-gwmni

	Y Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Cyfranddaliadau mewn sefydliadau is-gwmni:		
Yn ôl cost	1.1	1.1
Benthyciadau i sefydliadau is-gwmni	586.4	652.6
	587.5	**653.7**

	Sefydliadau Is-gwmni	
	Cyfranddaliadau	Benthyciadau
	£m	£m
Symudiad o ran buddsoddiadau mewn sefydliadau is-gwmni:		
Ar 1 Ionawr 2011	1.1	652.6
Ad-daliad benthyciadau	-	(66.2)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**1.1**	**586.4**

Mae'r cyfarwyddwyr wedi adolygu'r tebygolrwydd o allu adennill benthyciadau sy'n ddyledus a daliadau mewn is-gwmnïau ac ni thybir bod angen unrhyw ddarpariaeth lleihad mewn gwerth.

Mae gan y Gymdeithas y sefydliadau is-gwmni canlynol a weithredodd yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn ac a gynhwysir yng nghyfrifon y Grŵp:

	Man cofrestru	Prif weithgaredd	Dosbarth y cyfranddaliadau a ddelir	Buddiant y Gymdeithas	Uniongyrchol neu anuniongyrchol
Peter Alan Limited	Cymru a Lloegr	Asiantaeth dai a gwasanaethau ariannol	Cyffredin a dewisol	100%	Uniongyrchol
Nemo Personal Finance Limited	Cymru a Lloegr	Benthyciadau personol gwarantedig	Cyffredin	100%	Uniongyrchol
Loan Link Limited	Cymru a Lloegr	Broceriaeth benthyciadau	Cyffredin	100%	Anuniongyrchol
Principality Mortgage and Insurance Services Limited	Cymru a Lloegr	Darparu gwasanaethau cynghori a gweinyddu	Cyffredin	100%	Uniongyrchol
Principality Covered Bond LLP	Cymru a Lloegr	Caffael morgeisi a darparu sicrwydd ar gyfer bondiau gwarantedig	Cyffredin	100%	Uniongyrchol
Friary Two Limited	Cymru a Lloegr	Endid diben arbennig	Cyffredin	100%	Uniongyrchol

Mae'r Gymdeithas hefyd yn dal 100% o gyfalaf cyfranddaliadau cyffredin y sefydliadau is-gwmni canlynol nad ydynt wedi cynnal busnes yn ystod y flwyddyn:

Brokerpoint Limited
Energy Assess Wales Limited
Home Information Pack Wales Limited
Nemo Loans Limited
Nemo Financial Limited
Nemo Financial Services Limited
Nemo Home Loans Limited
Nemo Secured Loans Limited
Nemo Insurance Services Limited
Peter Alan Black Limited
Peter Alan Property Services Limited
Peter Alan Surveyors Limited
Peter Alan Property Development Services Limited
Principality Limited
Principality Asset Management Limited
Principality Bank Limited
Principality Direct Limited
Principality Estate Agency Limited
Principality Financial Management Limited
Principality Homes Limited
Principality (IFA Services) Limited
Principality Independent Financial Advisers Limited
Principality Life Assurance Services Limited
Principality (Life and Pensions) Limited
Principality Mortgage Corporation Limited
Principality Personal Loans Limited
Principality Property Sales Limited
Principality Property Services Limited
Principality Property Solutions Limited
Principality Surveyors Home Condition Report Limited
Principality Syndicated Loans Limited
The Principality Home Information Pack Limited

23. Buddsoddiad mewn cyd-fentrau

Ar 18 Awst 2010, gwaredodd y Grŵp ei fuddiant 50% yn Friary One Limited ar lawn werth. Nid oedd unrhyw gyd-fentrau eraill yn weithredol yn ystod y flwyddyn.

24. Asedau anniriaethol

	Ewyllys da		Meddalwedd gyfrifiadurol		Cyfanswm	
	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
2011						
Cost:						
Ar 1 Ionawr 2011	0.7	-	4.8	4.8	5.5	4.8
Ychwanegiadau	-	-	1.1	1.1	1.1	1.1
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2011	**0.7**	**-**	**5.9**	**5.9**	**6.6**	**5.9**
Amorteiddio:						
Ar 1 Ionawr 2011	-	-	3.4	3.4	3.4	3.4
Tâl a godwyd am y flwyddyn	-	-	0.7	0.7	0.7	0.7
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2011	**-**	**-**	**4.1**	**4.1**	**4.1**	**4.1**
Swm cario net:						
Ar 31 Rhagfyr 2011	**0.7**	**-**	**1.8**	**1.8**	**2.5**	**1.8**
Ar 31 Rhagfyr 2010	0.7	-	1.4	1.4	2.1	1.4

	Ewyllys da		Meddalwedd gyfrifiadurol		Cyfanswm	
	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
2010						
Cost:						
Ar 1 Ionawr 2010	0.7	-	4.4	4.4	5.1	4.4
Ychwanegiadau	-	-	0.4	0.4	0.4	0.4
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2010	**0.7**	**-**	**4.8**	**4.8**	**5.5**	**4.8**
Amorteiddio:						
Ar 1 Ionawr 2010	-	-	2.6	2.6	2.6	2.6
Tâl a godwyd am y flwyddyn	-	-	0.8	0.8	0.8	0.8
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-
Ar 31 Rhagfyr 2010	**-**	**-**	**3.4**	**3.4**	**3.4**	**3.4**
Swm cario net:						
Ar 31 Rhagfyr 2010	**0.7**	**-**	**1.4**	**1.4**	**2.1**	**1.4**
At 31 Rhagfyr 2009	0.7	-	1.8	1.8	2.5	1.8

Cododd yr ewyllys da yn dilyn caffael 100% o gyfalaf cyfranddaliadau cyffredin Loan Link Limited ar 1 Rhagfyr 2004.

Yn unol â gofynion IAS 36, cwblhaodd y Grŵp adolygiad lleihad mewn gwerth o'r gwerth cario ar gyfer ewyllys da ar 31 Rhagfyr 2011 i sicrhau bod y gwerth cario yn cael ei ddatgan ar ddim mwy na'i swm adenilladwy. Nid oes darpariaeth lleihad mewn gwerth yn ofynnol o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Nodiadau i'r cyfrifon

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

25. Eiddo, offer a chyfarpar

	Tir ac adeiladau		Cyfarpar, gosodiadau, ffitiadau a cherbydau		Cyfanswm	
	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Cost:						
Ar 1 Ionawr 2011	51.6	47.8	29.3	20.1	80.9	67.9
Ychwanegiadau	2.7	2.6	6.1	4.8	8.8	7.4
Gwarediadau	(0.2)	(0.2)	(3.5)	(3.2)	(3.7)	(3.4)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**54.1**	**50.2**	**31.9**	**21.7**	**86.0**	**71.9**
Dibrisiant:						
Ar 1 Ionawr 2011	19.5	17.7	20.5	13.5	40.0	31.2
Tâl a godwyd am y flwyddyn	1.6	1.5	3.9	2.8	5.5	4.3
Gwarediadau	-	-	(3.2)	(2.9)	(3.2)	(2.9)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**21.1**	**19.2**	**21.2**	**13.4**	**42.3**	**32.6**
Swm net ar bapur:						
Ar 31 Rhagfyr 2011	**33.0**	**31.0**	**10.7**	**8.3**	**43.7**	**39.3**
Ar 31 Rhagfyr 2010	32.1	30.1	8.8	6.6	40.9	36.7

Mae £0.9 miliwn (2010: £4.6 miliwn) wedi'i gynnwys mewn ychwanegiadau tir ac adeiladau oherwydd asedau yn ystod gwaith adeiladu.

Gwerth yr asedau sy'n destun prydlesau gweithredu pan fo'r Grŵp yn gweithredu fel prydleswr yw £21.9 miliwn (2010: £17.5 miliwn).

	2011		2010	
	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m
Tir ac adeiladau:				
Rhydd-ddaliad	29.9	28.4	29.4	28.0
Prydles hir	0.5	0.3	0.7	0.5
Prydles fer	2.6	2.3	2.0	1.6
	33.0	**31.0**	**32.1**	**30.1**
Defnyddir gan y Gymdeithas a sefydliadau is-gwmni	22.5	20.5	24.9	23.9

25. Eiddo, offer a chyfarpar (parhad)

	Tir ac adeiladau		Cyfarpar, gosodiadau, ffitiadau a cherbydau		Cyfanswm	
	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas	Y Grŵp	Y Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Cost:						
Ar 1 Ionawr 2010	46.7	42.8	25.5	17.4	72.2	60.2
Ychwanegiadau	5.5	5.4	4.0	2.7	9.5	8.1
Gwarediadau	(0.6)	(0.4)	(0.2)	-	(0.8)	(0.4)
Ar 31 Rhagfyr 2010	**51.6**	**47.8**	**29.3**	**20.1**	**80.9**	**67.9**
Dibrisiant:						
Ar 1 Ionawr 2010	18.3	16.6	17.3	11.1	35.6	27.7
Tâl a godwyd am y flwyddyn	1.5	1.4	3.4	2.4	4.9	3.8
Gwarediadau	(0.3)	(0.3)	(0.2)	-	(0.5)	(0.3)
Ar 31 Rhagfyr 2010	**19.5**	**17.7**	**20.5**	**13.5**	**40.0**	**31.2**
Swm net ar bapur:						
Ar 31 Rhagfyr 2010	32.1	30.1	8.8	6.6	40.9	36.7
Ar 31 Rhagfyr 2009	**28.4**	**26.2**	**8.2**	**6.3**	**36.6**	**32.5**

26. Asedau eraill

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Yn ddyledus o fewn blwyddyn:				
Arall	4.9	3.8	2.9	3.7

27. Rhagdaliadau ac incwm cronedig

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llog cronedig ar offerynnau ariannol deilliadol	11.5	15.0	11.5	15.0
Arall	3.5	3.1	2.5	2.3
	15.0	**18.1**	**14.0**	**17.3**

Nodiadau i'r cyfrifon
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

28. Cyfranddaliadau

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Delir gan unigolion	4,987.1	5,020.2
Cyfranddaliadau eraill	4.2	5.4
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli	22.5	13.4
	5,013.8	**5,039.0**

Mae'r balansau a nodir uchod yn ad-daladwy o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod busnes arferol fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli	22.5	13.4
Llog cronedig	63.6	59.6
Ar orchymyn	1,092.7	1,337.5
Llai na thri mis	1,229.6	1,206.2
Rhwng tri mis a blwyddyn	1,230.9	1,137.0
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	1,374.5	1,285.3
	5,013.8	**5,039.0**

29. Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd

Mae'r ad-daliad o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod busnes arferol fel a ganlyn:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llog cronedig	0.1	0.4	0.1	0.4
Rhwymedigaethau'r Atodiad Cymorth Credyd (CSA)	9.1	5.2	9.1	5.2
Ar orchymyn	2.4	2.8	-	-
Llai na thri mis	56.3	230.0	81.2	230.0
Rhwng tri mis a blwyddyn	3.0	7.0	47.0	7.0
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	2.3	-	137.9	-
Mwy na phum mlynedd	42.2	-	42.2	-
	115.4	**245.4**	**317.5**	**242.6**

30. Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill

Mae'r ad-daliad o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod busnes arferol fel a ganlyn:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llog cronedig	2.9	1.5	2.9	1.5
Ar orchymyn a llai na thri mis	162.0	151.5	162.0	151.5
Rhwng tri mis a blwyddyn	112.4	127.4	112.4	127.4
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	29.6	6.5	29.6	6.5
	306.9	286.9	306.9	286.9

31. Gwarannau dyledion a ddyroddwyd

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Tystysgrifau adneuo	40.0	24.6	40.0	24.6
Nodion cyfraddau sefydlog a chyfnewidiol	43.5	61.5	43.5	61.5
Gwarannau dyledion eraill	302.5	-	-	-
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi'i rhagfantoli	0.3	0.2	0.3	0.2
	386.3	**86.3**	**83.8**	**86.3**

Mae'r ad-daliad o ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ystod busnes arferol fel a ganlyn:

	Y Grŵp	
	2011	2010
	£m	£m
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi'i rhagfantoli	0.3	0.2
Llog cronedig	3.3	0.1
Llai na thri mis	58.8	19.5
Rhwng tri mis a blwyddyn	83.0	5.0
Rhwng blwyddyn a phum mlynedd	240.9	61.5
	386.3	**86.3**

Roedd y cyfraddau llog effeithiol ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol fel a ganlyn:

Tystysgrifau adneuo	1.51%	0.94%
Nodion cyfraddau sefydlog a chyfnewidiol	1.18%	0.90%

32. Rhwymedigaethau eraill

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Yn ddyledus o fewn blwyddyn:				
Treth incwm	1.0	0.9	1.0	0.9
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	1.0	0.9	0.7	0.6
Credydwyr eraill	6.6	4.9	4.7	3.3
	8.6	**6.7**	**6.4**	**4.8**

33. Croniadau ac incwm gohiriedig

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Llog a gronnwyd ar rwymedigaethau isradd	0.5	2.8	0.5	2.8
Llog a gronnwyd ar gyfalaf wedi'i danysgrifio	0.4	0.4	0.4	0.4
Arall	9.0	9.5	8.0	8.2
	9.9	**12.7**	**8.9**	**11.4**

34. Treth ohiriedig

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Ar 1 Ionawr	(1.8)	(2.1)	(1.6)	(1.5)
Y gost/(credyd) wedi'i nodi ar y datganiad incwm cynhwysfawr	0.4	0.3	0.3	(0.1)
Y credyd wedi'i nodi ar y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig ar golledion actiwaraidd	(0.9)	-	(0.9)	-
Ar 31 Rhagfyr	**(2.3)**	**(1.8)**	**(2.2)**	**(1.6)**

Mae'r gostyngiad yng nghyfradd treth Gorfforaeth y DU i 25% o 1 Ebrill 2012 wedi arwain at dâl treth ohiriedig yn codi o'r gostyngiad yng ngwerth cario'r ased treth ohiriedig net a nodwyd yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, i adlewyrchu'r gyfradd dreth y rhagwelir y bydd yr ased yn gwyrdroi ar ôl ei chyrraedd. Nid yw'r tâl perthnasol o bwys.

Gellir priodoli'r asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig i'r eitemau canlynol:

	Y Grŵp		
	Dibrisiant treth wedi ei gyflymu	Arall	Cyfanswm
	£m	£m	£m
Rhwymedigaethau treth ohiriedig			
Ar 1 Ionawr 2011	0.1	1.4	1.5
Credyd wedi'i nodi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr	(0.1)	(0.4)	(0.5)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**-**	**1.0**	**1.0**

	Y Grŵp		
	Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	Arall	Cyfanswm
	£m	£m	£m
Asedau treth ohiriedig			
Ar 1 Ionawr 2011	(2.5)	(0.8)	(3.3)
Credyd wedi'i nodi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr	0.5	0.4	0.9
Cost wedi'i nodi ar y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig	(0.9)	-	(0.9)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**(2.9)**	**(0.4)**	**(3.3)**

	Y Gymdeithas		
	Dibrisiant treth wedi ei gyflymu	Arall	Cyfanswm
	£m	£m	£m
Rhwymedigaethau treth ohiriedig			
Ar 1 Ionawr 2011	0.3	1.2	1.5
Credyd wedi'i nodi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr	-	(0.4)	(0.4)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**0.3**	**0.8**	**1.1**

34. Treth ohiriedig (parhad)

	Y Gymdeithas		
	Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	Arall	Cyfanswm
	£m	£m	£m
Asedau treth ohiriedig			
Ar 1 Ionawr 2011	(2.5)	(0.6)	(3.1)
Credyd wedi'i nodi ar y datganiad o incwm cynhwysfawr	0.5	0.2	0.7
Cost wedi'i nodi ar y datganiad o incwm a threuliau cydnabyddedig	(0.9)	-	(0.9)
Ar 31 Rhagfyr 2011	**(2.9)**	**(0.4)**	**(3.3)**

Disgwylir adennill yr ased treth ohiriedig sy'n ymwneud â rhwymedigaethau buddiannau ymddeol o fewn 9 mlynedd. Mae mwy o wybodaeth am y prisiad bob tair blynedd yn Nodyn 12.

35. Rhwymedigaethau isradd

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Nodion Isradd 5⅜% yn ddyledus yn 2016	107.0	110.0
Premiymau heb eu hamorteiddio a chostau dyroddi	-	(0.1)
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi'i rhagfantoli	-	2.4
	107.0	**112.3**

Nid yw rhwymedigaethau isradd y Gymdeithas wedi'u gwarantu. Mae'r rhwymedigaethau isradd yn gyfartal â'i gilydd a chânt eu rhestru'n is na hawliadau yn erbyn y Gymdeithas gan bob adneuwr, credydwr ac Aelod sy'n buddsoddi yn y Gymdeithas.

Nid arferodd y Gymdeithas ei hawl i alw am y rhwymedigaethau isradd ar 8 Gorffennaf 2011. Caiff y Gymdeithas alw am y nodion hyn bob tri mis tan iddynt aeddfedu'n ariannol ar 8 Gorffennaf 2016. O 8 Gorffennaf 2011, daeth y gyfradd llog yn LIBOR gydag 1.005% ychwanegol wedi ei ailosod yn chwarterol.

Ym mis Rhagfyr 2011, ailbrynodd y Gymdeithas werth £3.0 miliwn o rwymedigaethau isradd ar ddisgownt. O ganlyniad, er ei fod yn parhau i fod â digon o gyfalaf, mae'r Grŵp wedi cael elw untro o £1.0 miliwn.

Ym mis Ionawr 2010, ailbrynodd un o is-gwmnïau'r Gymdeithas werth £10.0 miliwn o rwymedigaethau isradd ar ddisgownt, gan arwain at elw untro o £3.1 miliwn.

36. Cyfalaf wedi'i danysgrifio

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Cyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog ar 7.00%	60.0	60.0
Costau dyroddi heb eu hamorteiddio	(0.7)	(0.8)
Addasiad gwerth teg ar gyfer risg wedi ei rhagfantoli	16.1	10.0
	75.4	**69.2**

Mae'r Cyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog (PIBS) heb eu gwarantu ac wedi eu nodi mewn Sterling. Fe'u dyroddwyd ar 1 Mehefin 2004. Enillion net y dyroddiad oedd £58.6 miliwn.

Mae'r PIBS yn ad-daladwy, yn ôl dewis y Gymdeithas, yn eu cyfanrwydd ar 1 Mehefin 2020 neu ar ddiwedd unrhyw gyfnod o bum mlynedd ar ôl hynny. Mae angen cael caniatâd yr FSA ymlaen llaw i ad-dalu'r PIBS. Os na chaiff y PIBS eu had-dalu ar ddyddiad galw yna caiff y gyfradd llog ei hailosod ar 1 Mehefin 2020 ar 3% uwchlaw'r elw gilt cyfatebol perthnasol ar y pryd.

Cyfranddaliadau gohiriedig y Gymdeithas yw'r PIBS a chânt eu rhestru'n is na hawliadau pob adneuwr, credydwr ac Aelod sy'n buddsoddi yn y Gymdeithas.

Mae'r risg o ran cyfraddau llog sy'n deillio o ddyroddi PIBS cyfradd sefydlog wedi ei lleihau trwy ddefnyddio cyfnewidiadau cyfradd llog.

37. Dadansoddiad o'r gronfa gyffredinol wrth gefn

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Balans ar 1 Ionawr	310.6	287.9	305.3	290.0
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	17.4	23.2	8.3	15.8
Colled actiwaraidd ar rwymedigaethau buddiannau ymddeol	(4.2)	(0.5)	(4.2)	(0.5)
Symudiad mewn treth ohiriedig yn ymwneud â rhwymedigaethau buddiannau ymddeol	0.9	-	0.9	-
Cyfanswm yr incwm cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	14.1	22.7	5.0	15.3
Balans ar 31 Rhagfyr	**324.7**	**310.6**	**310.3**	**305.3**
Cronfeydd wrth gefn ac eithrio rhwymedigaeth pensiwn	336.2	319.9	321.8	314.6
Rhwymedigaeth pensiwn	(11.5)	(9.3)	(11.5)	(9.3)
	324.7	**310.6**	**310.3**	**305.3**

38. Cronfeydd wrth gefn eraill

	Y Grŵp a'r Gymdeithas	
	2011	2010
	£m	£m
Mae cronfeydd wrth gefn eraill yn cynnwys		
Cronfa ailbrisio wrth gefn – buddsoddiadau sydd ar gael i'w gwerthu	2.0	0.4
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn eraill		
Balans ar 1 Ionawr	0.4	1.8
Enillion/(colledion) net o newidiadau mewn gwerth teg, ar ôl trethiant	1.6	(1.4)
Balans ar 31 Rhagfyr	**2.0**	**0.4**
Balans ar 1 Ionawr	0.4	1.8
Enillion a drosglwyddwyd i ecwiti	2.9	4.4
Enillion a ailgylchwyd i elw a cholled ar werthiannau	(0.8)	(6.3)
Trethiant	(0.5)	0.5
Balans ar 31 Rhagfyr	**2.0**	**0.4**

39. Ymrwymiadau ariannol a rhwymedigaethau dichonadwy

a) Ardoll Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol

Yn seiliedig ar ei chyfran o adneuon a ddiogelir, mae'r Gymdeithas yn talu ardollau i Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS) i alluogi'r FSCS i dalu hawliadau yn ei erbyn. Ers 2008, mae'r FSA wedi datgan bod nifer o sefydliadau'n diffygdalu. Mae'r FSCS wedi talu'r hawliadau trwy gyfrwng benthyciadau a gafwyd gan Drysorlys EM. Telerau'r benthyciadau hyn yw llog yn unig am y tair blynedd gyntaf a bydd yr FSCS yn ceisio adennill cost y llog, ynghyd â threuliau rheoli parhaus, trwy gyfrwng ardollau blynyddol ar gwmnïau sy'n aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r FSCS, yn ei dro, wedi caffael yr hawl i sylweddu asedau'r sefydliadau ariannol hyn. Gallai'r FSCS fod â rhwymedigaeth ychwanegol os nad oes digon o arian ar gael o ganlyniad i sylweddu asedau'r sefydliadau ariannol i ad-dalu benthyciadau Trysorlys EM yn llawn. Os nad ad-delir y benthyciadau'n llawn erbyn 31 Mawrth 2012, bydd yr FSCS yn cytuno ar amserlen ad-dalu gyda Thrysorlys EM. Yna bydd yr FSCS yn codi ardoll ar y diwydiant, gan gynnwys y Gymdeithas, yn unol â hynny.

Delir darpariaeth o £1.6 miliwn (31 Rhagfyr 2010: £3.8 miliwn) o ran yr ardollau hyn ac mae hynny'n cynrychioli amcangyfrif gorau'r Gymdeithas o randaliad olaf yr ardoll ar gyfer blwyddyn 2011/12 y cynllun, sy'n daladwy ym mis Medi 2012.

Ceir ansicrwydd sylweddol ynglŷn â gweithrediad y cynllun yn y dyfodol, yr ardollau a fydd yn daladwy ar ôl y dyddiad y disgwylir ad-dalu benthyciadau Trysorlys EM ym mis Mawrth 2012, ac unrhyw ddiffyg o ran cyfalaf. Delir darpariaeth ychwanegol o £2.1 miliwn sy'n cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r ardoll a fydd yn daladwy i'r FSCS ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2013. Amcangyfrifir y tâl ar sail cyfradd llog LIBOR am 12 mis gyda 100 pwynt sylfaen ychwanegol sy'n berthnasol i fenthyciadau Trysorlys EM. Nid yw'r Gymdeithas wedi ei hysbysu'n uniongyrchol am yr ardoll sy'n daladwy o ganlyniad i'r hawliadau yn erbyn yr FSCS, ac mae nifer o ffactorau sy'n golygu nad oes modd cyfrifo'n gywir y rhwymedigaeth hon yn y dyfodol.

b) Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI)

Mae darpariaethau wedi eu gwneud ar gyfer hawliadau yn gysylltiedig â gwerthiannau blaenorol Yswiriant Diogelu Taliadau (PPI) sydd, yn achos y Grŵp, yn ymwneud â chynhyrchion PPI benthyciadau personol gwarantedig. Ym mis Awst 2010, rhyddhaodd yr FSA ei Ddatganiad Polisi PS10/12, sef *The Assessment and Redress of Payment Protection Complaints*.

Mae darpariaeth ychwanegol o £9.3 miliwn wedi ei nodi yn ystod y flwyddyn. Ar 31 Rhagfyr 2011, delir darpariaethau o £21.6 miliwn sy'n cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r rhwymedigaethau iawndal disgwyliedig a gyfrifwyd yn unol â chanllawiau PS10/12, pan oedd y Grŵp yn gyfrifol am werthu'r cynnyrch yn wreiddiol. Disgwylir y bydd y rhwymedigaeth hon yn dod yn eglur yn ystod y 12 mis nesaf wrth i ni weithio trwy'r broses adfer a chysylltu â chwsmeriaid.

Gwneir darpariaethau dim ond pan fo'r Grŵp yn gyfrifol am werthu'r cynnyrch yn wreiddiol. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth am werthiannau gan drydydd partïon, gan y cafwyd cyngor cyfreithiol allanol ei bod yn annhebygol y byddai'n rhaid i'r Grŵp dalu iawndal am werthiannau o'r fath.

c) Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig

Roedd y cynllun buddiannau diffiniedig yn destun prisiad bob tair blynedd gan actiwari annibynnol y Cynllun ar 30 Medi 2010, ac roedd diffyg o £8.2 miliwn ar y dyddiad hwnnw. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Gymdeithas wedi cytuno i dalu £1.0 miliwn y flwyddyn o gyfraniadau ychwanegol i'r cynllun nes i'r diffyg gael ei ddileu.

39. Ymrwymiadau ariannol a rhwymedigaethau dichonadwy (parhad)

ch) Ymrwymiadau dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

	2011		2010	
	Eiddo	Cerbydau, offer trwm a chyfarpar	Eiddo	Cerbydau, offer trwm a chyfarpar
	£m	£m	£m	£m
Ymrwymiadau'r Grŵp o ran rhenti prydlesau gweithredu:				
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	1.8	0.2	1.7	0.2
Yn ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd	6.4	0.3	6.0	0.4
Yn ddyledus ar ôl pum mlynedd	6.4	-	7.0	-
	14.6	**0.5**	**14.7**	**0.6**
Ymrwymiadau'r Gymdeithas o ran rhenti prydlesau gweithredu:				
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	1.0	0.2	0.8	0.2
Yn ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd	3.6	0.3	3.3	0.4
Yn ddyledus ar ôl pum mlynedd	3.9	-	4.0	-
	8.5	**0.5**	**8.1**	**0.6**

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2010 wedi eu hailddatgan er mwyn dileu taliadau rhent o fewn y Grŵp.

d) Incwm sy'n dderbyniadwy dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

Yr incwm rhent ar eiddo a enillwyd yn ystod y flwyddyn oedd £0.8 miliwn (2010: £0.4 miliwn).

Ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol, roedd gan y Gymdeithas gontractau gyda thenantiaid ar gyfer y lleiafswm taliadau prydles canlynol yn y dyfodol:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Yn dderbyniadwy o fewn blwyddyn	0.8	0.4	1.0	0.6
Yn dderbyniadwy rhwng dwy a phum mlynedd	2.9	1.1	3.4	1.6
Yn dderbyniadwy ar ôl pum mlynedd	10.6	2.3	12.7	4.6
	14.3	**3.8**	**17.1**	**6.8**

Ar 28 Ionawr 2011, caniatawyd prydles 25 mlynedd i Travelodge Hotels Limited ar gyfer lloriau un i bedwar o Adeiladau'r Principality.

dd) Ymrwymiadau cyfalaf

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Gwariant cyfalaf lle ceir contract ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer	1.0	1.0	1.0	1.0

40. Offerynnau ariannol

a) Categorïau offerynnau ariannol

Mesurir asedau a rhwymedigaethau ariannol ar sail barhaus naill ai yn ôl gwerth teg neu yn ôl cost wedi'i hamorteiddio.

Mae rhywfaint o'r wybodaeth gymharol a roddir yn y tablau ar dudalennau 85, 88 a 90 wedi ei hailddatgan i adlewyrchu newidiadau yn y dull o gyflwyno adroddiadau mewnol yn ystod y flwyddyn. Ystyrir bod yr ailddatganiad yn cynrychioli'r wybodaeth ariannol hon yn well.

Mae'r nodyn ar bolisïau cyfrifyddu yn disgrifio sut y mesurir y dosbarthiadau o offerynnau ariannol, a sut y nodir incwm a threuliau, gan gynnwys enillion a cholledion gwerth teg. Mae'r tablau canlynol yn dadansoddi'r asedau a'r rhwymedigaethau ariannol ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol yn ôl y dosbarth offeryn ariannol y'u neilltuir iddo, ac yn ôl y sail a ddefnyddir ar gyfer mesur.

Y Grŵp a'r Gymdeithas Ar 31 Rhagfyr 2011	Asedau a rh-wymedigaethau ariannol yn ôl cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a symiau derbyniadwy	Asedau arian-nol sydd ar gael i'w gwerthu	Asedau a rhwymedigae-thau ariannol a ddynodir yn ôl gwerth teg	Deilliadau a ddynodir yn offerynnau rhagfantoli gwerth teg	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau'r Gymdeithas						
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr	532.9	-	-	-	-	532.9
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	-	72.3	-	-	-	72.3
Gwarannau dyledion	-	-	409.7	-	-	409.7
Offerynnau ariannol deilliadol	-	-	-	6.5	39.0	45.5
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	-	4,598.5	-	-	-	4,598.5
Benthyciadau i is-gwmnïau a buddsoddiadau ynddynt	1.1	586.4	-	-	-	587.5
Cyfanswm yr asedau ariannol	**534.0**	**5,257.2**	**409.7**	**6.5**	**39.0**	**6,246.4**
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn ariannol						61.3
Cyfanswm asedau'r Gymdeithas						**6,307.7**
Asedau ychwanegol y Grŵp						
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr	-	-	-	-	-	-
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	-	99.8	-	-	-	99.8
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	-	621.6	-	-	-	621.6
Benthyciadau i is-gwmnïau a buddsoddiadau ynddynt a ddilëwyd	(1.1)	(586.4)	-	-	-	(587.5)
Asedau nad ydynt yn ariannol						8.1
Cyfanswm asedau'r Grŵp						**6,449.7**

40. Offerynnau ariannol (parhad)

a) Categorïau offerynnau ariannol (parhad)

Y Grŵp a'r Gymdeithas Ar 31 Rhagfyr 2011	Asedau a rhwymedigaethau ariannol yn ôl cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a symiau derbyniadwy	Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	Asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir yn ôl gwerth teg	Deilliadau a ddynodir yn offerynnau rhagfantoli gwerth teg	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Rhwymedigaethau'r Gymdeithas						
Cyfranddaliadau	5,013.8	-	-	-	-	5,013.8
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	274.8	-	-	42.7	-	317.5
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	306.9	-	-	-	-	306.9
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd	83.8	-	-	-	-	83.8
Offerynnau ariannol deilliadol	-	-	-	0.5	56.9	57.4
Rhwymedigaethau isradd	107.0	-	-	-	-	107.0
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	75.4	-	-	-	-	75.4
Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol	**5,861.7**	**-**	**-**	**43.2**	**56.9**	**5,961.8**
Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol						33.6
Cronfa gyffredinol wrth gefn a chronfeydd wrth gefn eraill						312.3
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a rhwymedigaethau'r Gymdeithas						**6,307.7**
Rhwymedigaethau ychwanegol y Grŵp						
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	1.7	-	-	-	-	1.7
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd	302.5	-	-	-	-	302.5
Benthyciadau a blaensymiau i SPEs a ddilëwyd	(203.8)	-	-	-	-	(203.8)
Rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol						27.2
Cronfa gyffredinol wrth gefn a chronfeydd wrth gefn eraill						14.4
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a rhwymedigaethau'r Grŵp						**6,449.7**

40. Offerynnau ariannol (parhad)

a) Categorïau offerynnau ariannol (parhad)

Y Grŵp a'r Gymdeithas Ar 31 Rhagfyr 2010	Asedau a rhwymedigaethau ariannol yn ôl cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a symiau derbyniadwy	Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	Asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir yn ôl gwerth teg	Deilliadau a ddynodir yn offerynnau rhagfantoli gwerth teg	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau'r Gymdeithas						
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr	320.7	-	-	-	-	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	-	71.8	-	-	-	71.8
Gwarannau dyledion	-	-	800.8	-	-	800.8
Offerynnau ariannol deilliadol	-	-	-	11.1	27.6	38.7
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	-	4,282.7	-	-	-	4,282.7
Benthyciadau i is-gwmnïau a buddsoddiadau ynddynt	1.1	652.6	-	-	-	653.7
Cyfanswm yr asedau ariannol	**321.8**	**5,007.1**	**800.8**	**11.1**	**27.6**	**6,168.4**
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn ariannol						62.2
Cyfanswm asedau'r Gymdeithas						**6,230.6**
Asedau ychwanegol y Grŵp						
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr	-	-	-	-	-	-
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	-	1.5	-	-	-	1.5
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	-	677.7	-	-	-	677.7
Benthyciadau i is-gwmnïau a buddsoddiadau ynddynt a ddilëwyd	(1.1)	(652.6)	-	-	-	(653.7)
Asedau nad ydynt yn ariannol						6.0
Cyfanswm asedau'r Grŵp						**6,262.1**

40. Offerynnau ariannol (parhad)

a) Categorïau offerynnau ariannol (parhad)

Y Grŵp a'r Gymdeithas Ar 31 Rhagfyr 2010	Asedau a rhwymedigaethau ariannol yn ôl cost wedi'i hamorteiddio	Benthyciadau a symiau derbyniadwy	Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	Asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir yn ôl gwerth teg	Deilliadau a ddynodir yn offerynnau rhagfantoli gwerth teg	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Rhwymedigaethau'r Gymdeithas						
Cyfranddaliadau	5,039.0	-	-	-	-	5,039.0
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	242.6	-	-	-	-	242.6
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	286.9	-	-	-	-	286.9
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd	86.3	-	-	-	-	86.3
Offerynnau ariannol deilliadol	-	-	-	0.3	55.4	55.7
Rhwymedigaethau isradd	112.3	-	-	-	-	112.3
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	69.2	-	-	-	-	69.2
Cyfanswm y rhwymedigaethau ariannol	**5,836.3**	**-**	**-**	**0.3**	**55.4**	**5,892.0**
Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol						32.9
Cronfa gyffredinol wrth gefn a chronfeydd wrth gefn eraill						305.7
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a rhwymedigaethau'r Gymdeithas						**6,230.6**
Rhwymedigaethau ychwanegol y Grŵp						
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	2.8	-	-	-	-	2.8
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	-	-	-	-	-	-
Rhwymedigaethau nad ydynt yn ariannol						23.4
Cronfa gyffredinol wrth gefn a chronfeydd wrth gefn eraill						5.3
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a rhwymedigaethau'r Grŵp						**6,262.1**

40. Offerynnau ariannol (parhad)

b) Gwerthoedd cario a gwerthoedd teg

Mae'r tabl isod yn cymharu gwerthoedd cario a gwerthoedd teg offerynnau ariannol y Grŵp yn ôl categori. Fe'i hategir gan esboniad o'r dulliau a ddefnyddir i bennu gwerth teg.

	Nodyn	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
		2011		2011	
		Gwerth cario	Gwerth teg	Gwerth cario	Gwerth teg
		£m	£m	£m	£m
Asedau ariannol					
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr		532.9	532.9	532.9	532.9
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd (ac eithrio adneuon CSA)	i.	121.1	121.1	21.3	21.3
Adneuon CSA		51.0	51.0	51.0	51.0
Gwarannau dyledion – ar gael i'w gwerthu	ii.	409.7	409.7	409.7	409.7
Offerynnau ariannol deilliadol					
Cyfnewidiadau cyfradd llog		38.6	38.6	38.6	38.6
Cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred		6.3	6.3	6.3	6.3
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti		0.6	0.6	0.6	0.6
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	iv.	5,220.1	5,191.8	4,598.5	4,600.2
Benthyciadau a blaensymiau i is-gwmnïau		-	-	587.5	587.5
		6,380.3	**6,352.0**	**6,246.4**	**6,248.1**
Rhwymedigaethau ariannol					
Cyfranddaliadau	vi.	5,013.8	5,013.8	5,013.8	5,013.8
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	vii.	106.3	106.3	308.4	308.4
Rhwymedigaethau CSA	vii.	9.1	9.1	9.1	9.1
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	vii.	306.9	306.9	306.9	306.9
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd		386.3	370.3	83.8	83.1
Offerynnau ariannol deilliadol					
Cyfnewidiadau cyfradd llog		57.0	57.0	57.0	57.0
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti		0.4	0.4	0.4	0.4
Rhwymedigaethau isradd	viii.	107.0	76.5	107.0	76.5
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	viii.	75.4	42.6	75.4	42.6
		6,062.2	**5,982.9**	**5,961.8**	**5,897.8**

Ystyrir nad yw risg credyd rhwymedigaethau'r Grŵp a llog cronedig arnynt o bwys, ac felly nid oes addasiad wedi ei wneud.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

b) Gwerthoedd cario a gwerthoedd teg (parhad)

	Nodyn	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
		2010		2010	
		Gwerth cario	Gwerth teg	Gwerth cario	Gwerth teg
		£m	£m	£m	£m
Asedau ariannol					
Arian parod mewn llaw a balansau gyda Banc Lloegr		320.7	320.7	320.7	320.7
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd (ac eithrio adneuon CSA)	i.	48.8	48.8	47.3	47.3
Adneuon CSA		24.5	24.5	24.5	24.5
Gwarannau dyledion – ar gael i'w gwerthu	ii.	800.8	800.8	800.8	800.8
Offerynnau ariannol deilliadol					
Cyfnewidiadau cyfradd llog		28.3	28.3	28.3	28.3
Cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred		10.4	10.4	10.4	10.4
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti		-	-	-	-
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	iv.	4,960.4	4,925.3	4,282.7	4,285.2
Benthyciadau a blaensymiau i is-gwmnïau		-	-	653.7	653.7
		6,193.9	**6,158.8**	**6,168.4**	**6,170.9**
Rhwymedigaethau ariannol					
Cyfranddaliadau	vi.	5,039.0	5,039.0	5,039.0	5,039.0
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd	vii.	240.2	240.2	237.4	237.4
Rhwymedigaethau CSA	vii.	5.2	5.2	5.2	5.2
Symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill	vii.	287.0	287.5	287.0	287.5
Gwarannau dyledion a ddyroddwyd		86.3	84.4	86.3	84.4
Offerynnau ariannol deilliadol					
Cyfnewidiadau cyfradd llog		55.7	55.7	55.7	55.7
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti		-	-	-	-
Rhwymedigaethau isradd	viii.	112.3	72.5	112.3	72.5
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	viii.	69.2	44.9	69.2	44.9
		5,894.9	**5,829.4**	**5,892.1**	**5,826.6**

Swm gros y cyfnewidiadau arian cyfred tramor a ddaliwyd oedd €40.0 miliwn (2010: €60.0 miliwn).
Gwerth teg yw'r swm y gellid cyfnewid ased amdano, neu setlo rhwymedigaeth, rhwng partïon gwybodus, bodlon mewn trafodiad hyd braich. Defnyddiwyd y dulliau a'r tybiaethau canlynol wrth bennu gwerth teg:

i) Tybir bod swm cario benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd gydag aeddfedrwydd o lai na 12 mis yn cyfateb i'w gwerth teg.
ii) Mesurir gwarannau dyledion a ddosberthir yn rhai sydd ar gael i'w gwerthu yn ôl gwerth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad.
iii) Delir yr holl ddeilliadau at ddibenion rhagfantoli economaidd. Cyfrifir gwerth teg cyfnewidiadau cyfradd llog trwy ddefnyddio modelau prisio llifau arian parod wedi'u disgowntio. Gwrthbartïon allanol sy'n darparu gwerth teg cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred.
iv) Tybir bod gwerth teg benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid ar gyfradd amrywiol yn agos i'w symiau cario. Mae gwerth teg benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid ar gyfradd llog sefydlog yn cynrychioli swm wedi'i ddisgowntio llifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol y disgwylir iddynt gael eu derbyn ar ôl cyfrif am lefelau disgwyliedig ad-daliadau cynnar a disgowntio ar gyfraddau cyfredol y farchnad.
v) Tybir bod gwerth teg benthyciadau a blaensymiau i is-gwmnïau ar gyfradd amrywiol yn agos i'w symiau cario.
vi) Tybir bod gwerth teg cyfrifon cwsmeriaid yn agos i'r swm sy'n daladwy ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.
vii) Pennir gwerthoedd teg y symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd, y symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid eraill a gwarannau dyledion a ddyroddwyd gan ddefnyddio modelau prisio llifau arian parod wedi'u disgowntio, neu tybir eu bod yn agos i'r swm sy'n daladwy ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.
viii) Ceir gwerth teg rhwymedigaethau isradd a chyfalaf wedi'i danysgrifio o brisiau'r farchnad.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd

Y dosbarthiadau o offerynnau ariannol y mae'r Grŵp yn fwyaf agored i risg o ran credyd ynglŷn â hwy yw benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid, benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd, gwarannau dyledion a deilliadau ariannol.

Mae'r tablau canlynol yn dangos amlygiad amcangyfrifedig mwyaf y Grŵp i risg o ran credyd heb ystyried unrhyw warant gyfochrog a ddelir nac ychwanegiadau credyd eraill.

O ran asedau ariannol a nodir yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol, mae'r amlygiad i risg o ran credyd yn cyfateb i'w swm cario. O ran benthyciadau a gwarantau, yr amlygiad i risg o ran credyd yw'r swm llawn yr ymrwymwyd iddo.

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Asedau ariannol				
Benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd	172.1	73.3	72.3	71.8
Gwarannau dyledion	409.7	800.8	409.7	800.8
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	5,220.1	4,960.4	4,598.5	4,282.7
Benthyciadau a blaensymiau i is-gwmnïau	-	-	587.5	653.7
Offerynnau ariannol deilliadol				
Cyfnewidiadau cyfradd llog a deilliadau eraill	45.5	33.4	45.5	33.4
	5,847.4	**5,867.9**	**5,713.5**	**5,842.4**

O ran benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd, gwarannau dyledion ac offerynnau deilliadol:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	£m	£m	£m	£m
Gwarannau llywodraeth y DU a symiau a ddelir gan fanciau canolog	207.7	683.3	207.7	683.3
Gwarannau rhyngwladol	25.9	26.6	25.9	26.6
Sefydliadau ariannol yn y DU	393.7	197.6	293.9	196.2
	627.3	**907.5**	**527.5**	**906.1**

Nid oedd yr un o'r amlygiadau hyn heibio'r dyddiad dyledus nac wedi lleihau mewn gwerth, ac nid oes unrhyw asedau a fyddai fel arall heibio'r dyddiad dyledus neu wedi lleihau mewn gwerth y mae eu telerau wedi eu haildrafod.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd (parhad)

Canran yr amlygiadau hyn a gaiff eu graddio rhwng A ac AAA yn ôl statws credyd Fitch ar gyfer 2011 yw 97.1% (2010: 98.9%).

Ni ddelir gwarant gyfochrog ar gyfer benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd a gwarannau dyledion. Delir gwarant gyfochrog o £9.1 miliwn (2010: £5.2 miliwn) ar gyfer offerynnau ariannol deilliadol.

Mae gan y Grŵp amlygiad gwerth £10.0 miliwn (2010: £10.0 miliwn) i Anglo Irish Bank Corporation Ltd sydd i'w ad-dalu ym mis Mehefin 2012, ac ar hyn o bryd mae gwarant arno dan Gynllun Gwarantu Rhwymedigaethau Cymwys Llywodraeth Iwerddon. Cymeradwyir y cynllun hwn gan y Comisiwn Ewropeaidd dan reolau cymorth gwladwriaethol Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd. Roedd y cytundeb rhwng Llywodraeth Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) ar gyfer cynllun ailstrwythuro ym mis Tachwedd 2010 yn cynnwys sicrwydd y byddai ei fondiau uwch anwarantedig yn cael eu had-dalu'n llawn. Mae'r ad-daliadau llog i gyd wedi eu talu hyd yma. Yn sgil y ffeithiau hyn, mae'r cyfarwyddwyr o'r farn nad yw'r amlygiad hwn wedi lleihau mewn gwerth. Nid oes gan y Grŵp unrhyw amlygiad uniongyrchol i Wlad Groeg, yr Eidal, Portiwgal na Sbaen ar 31 Rhagfyr 2010.

Ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael, gwnaed asesiad o wrthbartïon allweddol y Gymdeithas o ran lefelau posibl yr amlygiad anuniongyrchol i economïau dirwasgedig Ardal yr Ewro. Ar ôl cynnal asesiad o'r fath, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad oes angen gwneud darpariaethau lleihad mewn gwerth gyfer amlygiadau anuniongyrchol i ddyledion sofran Ardal yr Ewro.

Mae swyddogaeth risg y trysorlys yn monitro crynodiadau o amlygiadau o'u cymharu ag amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys terfynau gwrthbartïon a gwledydd, a chaiff yr holl amlygiadau eu lledaenu'n dda ar draws y fframwaith asesu risg hwn.

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011		2011	
	£m	%	£m	%
O ran benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid:				
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar eiddo preswyl	4,032.6	77.2	4,032.6	87.7
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar dir	510.7	9.8	510.7	11.1
Gwarantwyd yn llawn gan ail arwystl ar eiddo preswyl	576.4	10.9	-	-
Gwarantwyd yn rhannol gan ail arwystl ar eiddo preswyl	45.2	1.0	-	-
Addasiadau gwerth teg	55.2	1.1	55.2	1.2
	5,220.1	**100.0**	**4,598.5**	**100.0**
Gwasanaethau ariannol manwerthu	3,630.3	69.5	3,630.3	78.9
Benthyciadau masnachol	913.0	17.5	913.0	19.9
Benthyciadau personol gwarantedig	621.6	11.9	-	-
Addasiadau gwerth teg	55.2	1.1	55.2	1.2
	5,220.1	**100.0**	**4,598.5**	**100.0**
Gan ddefnyddio'r system graddio risg o ran credyd manwerthu, gellir dosbarthu benthyciadau manwerthu fel a ganlyn:				
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar eiddo preswyl neu dir				
Boddhaol	2,981.9	82.1	2,981.9	82.1
Rhestr wyliadwriaeth	575.4	15.9	575.4	15.9
Sylw arbennig ond heb leihau mewn gwerth	73.0	2.0	73.0	2.0
	3,630.3	**100.0**	**3,630.3**	**100.0**
Gan ddefnyddio'r system graddio risg o ran credyd masnachol, gellir dosbarthu benthyciadau masnachol fel a ganlyn:				
Boddhaol	822.3	90.1	822.3	90.1
Rhestr wyliadwriaeth	90.7	9.9	90.7	9.9
	913.0	**100.0**	**913.0**	**100.0**
Gwarantwyd yn llawn gan ail arwystl ar eiddo preswyl				
Benthyciadau personol – cyflogedig	523.6	84.2	-	-
Benthyciadau personol – hunangyflogedig	98.0	15.8	-	-
	621.6	**100.0**	**-**	**-**
Cyfanswm y benthyciadau a'r blaensymiau i gwsmeriaid (ac eithrio gwerth teg)	**5 ,164.9**		**4,543.3**	

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd (parhad)

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2010		2010	
	£m	%	£m	%
O ran benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid:				
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar eiddo preswyl	3,659.6	73.9	3,659.6	85.5
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar dir	571.5	11.5	571.5	13.3
Gwarantwyd yn llawn gan ail arwystl ar eiddo preswyl	626.9	12.6	-	-
Gwarantwyd yn rhannol gan ail arwystl ar eiddo preswyl	50.8	1.0	-	-
Addasiadau gwerth teg	51.6	1.0	51.6	1.2
	4,960.4	**100.0**	**4,282.7**	**100.0**
Gwasanaethau ariannol manwerthu	3,293.2	66.4	3,293.2	76.9
Benthyciadau masnachol	937.9	18.9	937.9	21.9
Benthyciadau personol gwarantedig	677.7	13.7	-	-
Addasiadau gwerth teg	51.6	1.0	51.6	1.2
	4,960.4	**100.0**	**4,282.7**	**100.0**
Gan ddefnyddio'r system graddio risg o ran credyd manwerthu, gellir dosbarthu benthyciadau manwerthu fel a ganlyn:				
Gwarantwyd yn llawn gan arwystl cyntaf ar eiddo preswyl neu dir				
Boddhaol	2,703.7	82.1	2,703.7	82.1
Rhestr wyliadwriaeth	517.0	15.7	517.0	15.7
Sylw arbennig ond heb leihau mewn gwerth	72.5	2.2	72.5	2.2
	3,293.2	**100.0**	**3,293.2**	**100.0**
Gan ddefnyddio'r system graddio risg o ran credyd masnachol, gellir dosbarthu benthyciadau masnachol fel a ganlyn:				
Boddhaol	875.8	93.4	875.8	93.4
Rhestr wyliadwriaeth	62.1	6.6	62.1	6.6
	937.9	**100.0**	**937.9**	**100.0**
Gwarantwyd yn llawn gan ail arwystl ar eiddo preswyl				
Benthyciadau personol – cyflogedig	584.2	86.2	-	-
Benthyciadau personol – hunangyflogedig	93.5	13.8	-	-
	677.7	**100.0**	**-**	**-**
Cyfanswm y benthyciadau a'r blaensymiau i gwsmeriaid (ac eithrio gwerth teg)	**4,908.8**		**4,231.1**	

Amcangyfrifir mai'r gymhareb benthyciad a gwerth (LTV) gyfartalog seiliedig ar y mynegai, o ran benthyciadau'r Grŵp a warantwyd ar eiddo preswyl, gan gynnwys morgeisi dan gynnig, yw 62.6% (2010: 61.6%). Dangosir bandiau LTV seiliedig ar y mynegai isod:

	Y Grŵp		Y Gymdeithas	
	2011	2010	2011	2010
	%	%	%	%
Llai na 70%	58.0	59.4	64.1	67.1
Mwy na 70% ond llai nag 80%	17.1	14.8	16.3	14.3
Mwy nag 80% ond llai na 90%	10.8	10.7	10.0	9.4
Mwy na 90%	14.1	15.1	9.6	9.2
	100.0	**100.0**	**100.0**	**100.0**

Caiff gwerthoedd gwarantau cyfochrog eu diweddaru ar ddyddiad pob datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael yn gyhoeddus. Defnyddir data'r Gofrestrfa Tir yn y sector Gwasanaethau Ariannol Manwerthu, a defnyddir Hometrack yn y sector Benthyciadau Personol Gwarantedig. Mae'r ddau fynegai yn ystyried lleoliad daearyddol y warant gyfochrog. Defnyddir prisiadau allanol i amcangyfrif gwerthoedd gwarannau masnachol a llifau arian parod yn y dyfodol.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd (parhad)

Mae'r Grŵp yn darparu benthyciadau a warentir ar eiddo preswyl ar draws Cymru a Lloegr ac mae'r rhan fwyaf o bresenoldeb daearyddol y Gymdeithas, gan ei bod yn gymdeithas adeiladu ranbarthol, yng Nghymru. Ar 31 Rhagfyr 2011, roedd tua 34.2% (2010: 37.3%) o'r amlygiadau i fenthyciadau personol gwarantedig a manwerthu, yn ôl cyfrifon, a 34.9% (2010: 37.5%) yn ôl eu gwerth, yng Nghymru.

O ran benthyciadau manwerthu a warentir yn llawn gan arwystl cyntaf, mae gan 0.98% (2010: 1.04%) ôl-ddyledion ar hyn o bryd o fwy na 2.5% o gyfanswm y balans sy'n ddyledus. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y diwydiant o 1.44% (data ôl-ddyledion a meddiannau CML ar 30 Medi 2011).

Cyfanswm y balansau ôl-ddyledion o ran benthyciadau preswyl a warentir yn llawn gan arwystl cyntaf oedd £1.4 miliwn (2010: £1.6 miliwn), ac mae 140 (2010: 197) o achosion preswyl sydd â chwe mis neu fwy o ôl-ddyledion.

Canran y benthyciadau personol gwarantedig sydd ag ôl-ddyledion ar hyn o bryd yw 9.38% (2010: 9.25%) yn ôl nifer, sef 12.19% (2010: 11.39%) yn ôl gwerth.

Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am fenthyciadau'r Grŵp a warentir ar eiddo preswyl yn ôl statws dyddiad dyledus:

	Y Grŵp		Y Grŵp	
	2011		2010	
	£m	%	£m	%
Cyfredol	4,072.0	95.9	3,782.6	95.4
Hyd at 3 mis heibio'r dyddiad dyledus	99.2	2.3	108.9	2.7
Rhwng 3 mis a 6 mis heibio'r dyddiad dyledus	34.4	0.8	33.7	0.8
Rhwng 6 mis a 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	22.8	0.5	23.8	0.6
Dros 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	17.3	0.4	17.4	0.4
Meddiannu	6.3	0.1	4.5	0.1
	4,252.0	**100.0**	**3,970.9**	**100.0**

	Y Gymdeithas		Y Gymdeithas	
	2011		2010	
	£m	%	£m	%
Cyfredol	3,507.3	96.6	3,170.1	96.2
Hyd at 3 mis heibio'r dyddiad dyledus	71.8	2.0	72.0	2.2
Rhwng 3 mis a 6 mis heibio'r dyddiad dyledus	26.7	0.7	25.8	0.8
Rhwng 6 mis a 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	14.9	0.4	15.8	0.5
Dros 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	3.2	0.1	5.0	0.2
Meddiannu	6.3	0.2	4.5	0.1
	3,630.2	**100.0**	**3,293.2**	**100.0**

Ar sail prisiadau mynegeion, amcangyfrifir mai cyfanswm y gwarantau cyfochrog a ddelir yn erbyn benthyciadau a warentir ar eiddo preswyl yw £9,444.2 miliwn (2010:£9,016.6 miliwn).

Mae'r Grŵp yn dal gwarantau cyfochrog yn erbyn benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid preswyl ar ffurf buddiannau morgais dros eiddo. Delir £7.9 miliwn (2010: £7.1 miliwn) o'r gwarantau cyfochrog yn erbyn achosion meddiannu. Caiff eiddo a adfeddiennir ei roi ar werth yn unol â chanllawiau statudol a defnyddir yr elw i leihau neu ad-dalu'r benthyciad sy'n ddyledus. Mae gan y Grŵp ddyletswydd statudol i gael y pris rhesymol gorau ac i werthu'r eiddo cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol bosibl.

Mae'r amgylchiadau economaidd anodd wedi parhau trwy gydol 2011. Rydym yn parhau i gynnal ein gwerthoedd cydfuddiannol ac yn archwilio'r holl ddewisiadau rhesymol a phriodol o ran rheoli cyfrifon ac ymatal rhag blaen-gau ar gyfer benthycwyr sy'n cael anawsterau ariannol.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd (parhad)

Mae'r Grŵp yn cynnig ystod o ddewisiadau rheoli cyfrif ac ymatal rhag blaen-gau ar gyfer benthycwyr. Yn achos anhawster tymor byr, mae'r Grŵp yn cynnig gostyngiadau dros dro mewn taliadau ac yn gweithredu dulliau 'adfer' ar gyfer benthycwyr sydd ag ôl-ddyledion neu sy'n dangos arwyddion y byddant yn gwrthod talu yn y dyfodol. Gallai'r camau a gymerir gynnwys caniatáu amserlen ddiwygiedig ar gyfer taliadau, trosglwyddo i ad-daliad llog yn unig dros dro, trefniadau i'r benthyciwr dalu llai na'r swm sy'n ddyledus a newid y dyddiad talu neu'r dull o dalu.

Mae dewisiadau ymatal rhag blaen-gau yn y tymor hwy yn cynnwys cyfalafu ôl-ddyledion, consesiynau llog yn unig, trefniadau i dalu llai na'r swm sy'n ddyledus ac ymestyn cyfnod y benthyciad. Yn ystod y flwyddyn, mae 204 o gyfrifon wedi eu cyfalafu gyda balansau o £9.0 miliwn. Er mwyn cyfalafu ôl-ddyledion mae angen cyfnod cymhwyso o chwe mis fel arfer, neu wneud nifer o daliadau cymhwyso cyn ailstrwythuro'r ddyled. Bydd unrhyw ailstrwythuro yn golygu y bydd yr achosion yn cael eu dosbarthu ac yr hysbysir yn eu cylch fel petaent yn gyfredol. Ymestynnwyd cyfnod 101 o forgeisi yn ystod y flwyddyn gyda balansau o £4.5 miliwn.

Pan fo'n briodol, bydd yr adran benthyciadau personol gwarantedig yn cytuno i ryddhau'r tâl cyfreithiol ar eiddo sydd mewn ecwiti negyddol, a thrwy hynny hwyluso gwerthiant a reolir gan y gwerthwr a'i alluogi i gael y pris gwerthu mwyaf buddiol iddo ef. Yn dilyn hynny, byddwn o bosibl yn ceisio cytuno ar daliad ar gyfer y diffyg anwarantedig gyda'r benthycwyr. Hyd yn hyn, bu 25 o achosion llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyda balansau o £0.8 miliwn. Derbyniwyd ffigurau setliad gostyngol ar bum cyfrif gwarantedig gyda balansau o £0.2 miliwn.

Ystyrir yr holl ddewisiadau ar gyfer rheoli cyfrif ac ymatal rhag blaen-gau ar sail amgylchiadau ariannol y benthyciwr. Cytunir arnynt yn amodol ar gyfres o feini prawf ac fe adolygir pob achos yn unigol. Byddwn yn ceisio cytuno ar y camau i'w cymryd yn dilyn proses gynhwysfawr o ganfod ffeithiau ariannol. Gallai hyn gynnwys cadarnhau bod benthyciwr yn ceisio neu wedi derbyn cyngor neu arweiniad annibynnol gan un o nifer o Asiantaethau Cyngor.

Adfeddiannu eiddo yw'r dewis olaf a bydd hyn yn digwydd dim ond ar ôl i'r holl ddewisiadau eraill gael eu hadolygu ac nad oes unrhyw atebion eraill ar gael. Adfeddiannwyd 73 eiddo yn ystod 2011 (2010: 62) gyda balansau o £9.6 miliwn. Penodwyd derbynwyr y Ddeddf Cyfraith Eiddo (LPA) ar gyfer 18 (2010: 17) eiddo Prynu i Osod gyda balansau o £1.6 miliwn.

Llwyddodd 37 (2010: 19) o fenthycwyr gyda balansau o £1.4 miliwn i aros yn eu cartrefi dan Gynllun Achub Morgeisi ac rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau cyngor ar ddyled yng Nghymru a Lloegr i sicrhau bod yr holl ddewisiadau ar gael.

Adlewyrchir perfformiad sylfaenol cyfalafiadau blaenorol, consesiynau llog yn unig a threfniadau i dalu llai na'r swm sy'n ddyledus yn y fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer y broses ddarparu, ac nid yw o bwys yn unigol nac yn gyfunol. Nid oes unrhyw dystiolaeth i'w gweld sy'n awgrymu bod y nodweddion risg sy'n gysylltiedig ag ymestyn cyfnod benthyciad yn wahanol i'r nodweddion risg sy'n gysylltiedig â morgeisi eraill, ac felly ni ddefnyddir unrhyw driniaeth benodol o ran darparu.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

c) Y risg o ran credyd (parhad)

	Y Grŵp a'r Gymdeithas			
	2011		2010	
	£m	%	£m	%
Benthyciadau masnachol – Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a warantwyd ar eiddo preswyl	150.9	16.5	135.4	14.4
Benthyciadau masnachol – eraill	762.1	83.5	802.5	85.6
	913.0	**100.0**	**937.9**	**100.0**

Ceir amrywiaeth dda o fenthyciadau a warentir ar eiddo masnachol o ran y math o ddiwydiant ac mae'r amlygiad mwyaf i un gwrthbarti yn dod i £36.9 miliwn (2010: £40.6 miliwn) neu 4.0% (2010: 4.2%) o falansau gros. Mae ansawdd asedau yn parhau i fod yn gryf gyda chyfanswm balansau ôl-ddyledion o £0.5 miliwn a dim ond 11 achos masnachol ag ôl-ddyledion o dri mis neu fwy.

Gohiriwyd llog ar naw cyfrif masnachol (2010: chwech) ac mae'n dod i £0.4 miliwn (2010: £0.3 miliwn) gyda balansau o £15.6 miliwn (2010: £10.3 miliwn).

Amcangyfrifir mai'r gymhareb benthyciad a gwerth (LTV) gyfartalog seiliedig ar y mynegai, o ran benthyciadau masnachol y Grŵp, yw 78.6% (2010: 77.1%). Cynhaliwyd dadansoddiad LTV trwy ddefnyddio cyfuniad o brisiadau allanol ac adolygiadau pen bwrdd mewnol ac allanol sy'n ystyried y math o warant a'i hansawdd, cyfnod/gwrthbarti'r brydles, a lleoliad daearyddol.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y warant gyfochrog a ddelir yn erbyn benthyciadau masnachol yw £1,415.6 miliwn (2010: £1,412.5 miliwn). Mae 90.4% o'r warant gyfochrog yn cael ei chategoreiddio'n ddosbarth cyntaf neu'n ail ddosbarth. Mae'r categorïau mewnol hyn o warant gyfochrog yn ystyried ansawdd yr eiddo, ansawdd y tenant (os oes tenant), telerau'r brydles a'r galw am eiddo o'r fath neu ddefnydd arall ar ei gyfer. Ni fwriadwyd i'r categorïau hyn adlewyrchu pa un a yw'r eiddo ei hun yn ddosbarth cyntaf, ail ddosbarth neu drydydd dosbarth o reidrwydd.

Mae'r tabl isod yn darparu mwy o wybodaeth am fenthyciadau a blaensymiau masnachol yn ôl statws dyddiad dyledus:

	Y Grŵp a'r Gymdeithas			
	2011		2010	
	£m	%	£m	%
Cyfredol	898.2	98.4	923.3	98.4
Hyd at 3 mis heibio'r dyddiad dyledus	2.4	0.3	7.1	0.8
Rhwng 3 mis a 6 mis heibio'r dyddiad dyledus	1.3	0.1	-	-
Rhwng 6 mis a 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	5.5	0.6	3.3	0.3
Dros 12 mis heibio'r dyddiad dyledus	-	-	-	-
Derbynwyr y Ddeddf Cyfraith Eiddo wedi'u Penodi	5.6	0.6	4.2	0.5
	913.0	**100.0**	**937.9**	**100.0**

Mewn rhai achosion o ddiffygdalu, rhoddir cynlluniau gweithredu ar waith a allai olygu bod angen caniatáu consesiwn sy'n cynnwys diwygiadau i delerau cytundebol benthyciad, megis ymestyn dyddiad aeddfedu, lleihau'r gyfradd llog neu beidio â gorfodi cyfamodau. Cydnabyddir mai'r ffordd orau yn aml o osgoi diffygdalu a lleihau colledion yw darparu dulliau ymatal rhag blaen-gau o'r fath, gan roi amser i'r cwsmer gymryd camau i wella ei sefyllfa. Ystyrir gweithgarwch ymatal rhag blaen-gau o'r fath yn ofalus bob amser gyda'r nod o sicrhau'r budd gorau a'r canlyniad gorau ar gyfer y Grŵp a'r benthyciwr.

Yn 2011, rhoddwyd consesiynau ymatal rhag blaen-gau i 17 o gyfrifon gyda balansau'n dod i gyfanswm o £58.3 miliwn mewn gwerth. Mae'r posibilrwydd o golledion ar y cyfrifon hyn yn cael ei asesu a'i ystyried yn lefel y darpariaethau cyffredinol a ddelir yn erbyn y portffolio Benthyciadau Masnachol.

Rhwymedigaethau nas gwarentir yw benthyciadau a blaensymiau i is-gwmnïau ac nid oes unrhyw ddyddiad ad-dalu penodol ar eu cyfer. Nid oedd unrhyw un o'r amlygiadau hyn heibio'r dyddiad dyledus nac wedi lleihau mewn gwerth.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

ch) Y risg o ran hylifedd

Ar gyfer pob dosbarth perthnasol o rwymedigaeth ariannol anneilliadol, darperir dadansoddiad aeddfedrwydd yn Nodiadau 28 i 31, sy'n cynrychioli aeddfedrwydd cytundebol. Yn ymarferol, caiff adneuon cwsmeriaid eu had-dalu'n hwyrach na'r dyddiad cytundebol y gellir gofyn am ad-daliad arno. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r prif lifau arian parod cytundebol gros sy'n daladwy dan rwymedigaethau ariannol, heb gynnwys llog cronedig ac addasiadau gwerth teg:

	Cyfanswm	Aeddfedrwydd anniffiniedig	Hyd at 3 mis	3-12 mis	1-5 mlynedd	Mwy na 5 mlynedd
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Y Grŵp						
Ar 31 Rhagfyr 2011						
Rhwymedigaethau anneilliadol						
Cyfranddaliadau	4,927.8	-	2,322.3	1,230.9	1,374.6	-
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd, cwsmeriaid eraill a gwarannau dyledion a ddyroddwyd	805.0	9.1	289.5	198.4	265.9	42.1
Rhwymedigaethau isradd	107.0	-	-	-	107.0	-
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	60.0	-	-	-	-	60.0
	5,899.8	**9.1**	**2,611.8**	**1,429.3**	**1,747.5**	**102.1**
Y Gymdeithas						
Ar 31 Rhagfyr 2011						
Rhwymedigaethau anneilliadol						
Cyfranddaliadau	4,927.8	-	2,322.3	1,230.9	1,374.6	-
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd, cwsmeriaid eraill a gwarannau dyledion a ddyroddwyd	704.6	9.1	275.2	177.3	200.9	42.1
Rhwymedigaethau isradd	107.0	-	-	-	107.0	-
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	60.0	-	-	-	-	60.0
	5,799.4	**9.1**	**2,597.5**	**1,408.2**	**1,682.5**	**102.1**
Y Grŵp a'r Gymdeithas						
Ar 31 Rhagfyr 2011						
Rhwymedigaethau deilliadol						
Cyfnewidiadau cyfradd llog	57.0	-	0.4	4.7	21.9	30.0
Cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred	-	-	-	-	-	-
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti	0.4	-	-	-	-	0.4
	57.4	**-**	**0.4**	**4.7**	**21.9**	**30.4**

Amlinellir strategaeth rheoli risg hylifedd y Grŵp yn yr Adroddiad Rheoli Risgiau ar dudalennau 15 i 19.

Ni fydd y balansau yn y tabl uchod yn cyfateb yn uniongyrchol i'r balansau ar y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol gan fod y tabl yn cynnwys pob llif arian parod heb ei ddisgowntio sy'n gysylltiedig â phrif daliadau a thaliadau llog yn y dyfodol yn seiliedig ar y cyfraddau sy'n berthnasol ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

40. Offerynnau ariannol (parhad)

ch) Y risg o ran hylifedd (parhad)

Gweler Nodyn 39 o'r datganiadau ariannol i gael gwybodaeth am ymrwymiadau blynyddol dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo.

	Cyfanswm	Aeddfedrwydd anniffiniedig	Hyd at 3 mis	3-12 mis	1-5 mlynedd	Mwy na 5 mlynedd
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Y Grŵp						
Ar 31 Rhagfyr 2010						
Rhwymedigaethau anneilliadol						
Cyfranddaliadau	4,965.9	-	2,543.6	1,137.0	1,285.3	-
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd, cwsmeriaid eraill a gwarannau dyledion a ddyroddwyd	616.4	5.2	403.8	139.4	68.0	-
Rhwymedigaethau isradd	110.0	-	-	-		110.0
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	60.0	-	-	-	-	60.0
	5,752.3	**5.2**	**2,947.4**	**1,276.4**	**1,353.3**	**170.0**
Y Gymdeithas						
Ar 31 Rhagfyr 2010						
Rhwymedigaethau anneilliadol						
Cyfranddaliadau	4,965.9	-	2,543.6	1,137.0	1,285.3	-
Symiau sy'n ddyledus i sefydliadau credyd, cwsmeriaid eraill a gwarannau dyledion a ddyroddwyd	613.6	5.2	401.0	139.4	68.0	-
Rhwymedigaethau isradd	110.0	-	-	-		110.0
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	60.0	-	-	-	-	60.0
	5,749.5	**5.2**	**2,944.6**	**1,276.4**	**1,353.3**	**170.0**
Y Grŵp a'r Gymdeithas						
Ar 31 Rhagfyr 2010						
Rhwymedigaethau deilliadol						
Cyfnewidiadau cyfradd llog	55.7	-	0.7	4.0	35.6	15.4
Cyfnewidiadau cyfradd llog rhwng gwahanol arian cyfred	-	-	-	-	-	-
Cyfnewidiadau cyfradd llog seiliedig ar y mynegai RPI ac ecwiti	-	-	-	-	-	-
	55.7	**-**	**0.7**	**4.0**	**35.6**	**15.4**

40. Offerynnau ariannol (parhad)

e) Y risg o ran y farchnad

Gellir rhannu'r risg o ran y farchnad yn risg o ran cyfraddau llog a risg o ran arian cyfred.

Risg o ran cyfraddau llog

Mae risg o ran cyfraddau llog yn cyfeirio at ba mor ymatebol yw incwm llog net i'r broses gyfnodol o ailbrisio asedau a rhwymedigaethau a'r gydberthynas amherffaith a achosir gan risg sylfaen. Mesurir amlygiad y Grŵp i risg o ran cyfraddau llog yn nhermau'r risg net ar ôl ystyried camau gweithredu'r rheolwyr i ragfantoli amlygiadau cynhenid gan ddefnyddio dadansoddiad bwlch mewn cyfraddau llog. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, neilltuir pob un o offerynnau ariannol y Grŵp, gan gynnwys asedau a rhwymedigaethau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol ac oddi ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol, i gyfnodau yn y dyfodol ar sail eu haeddfedrwydd cytundebol neu drefniadau ailbrisio cytundebol. Wrth gyfrifo'r amlygiad net ar gyfer pob cyfnod yn y dyfodol, ystyrir hefyd yr asedau a'r rhwymedigaethau hynny sydd â dewisiadau yn rhan ohonynt, megis y risg sy'n gysylltiedig â cheisiadau yn yr arfaeth a'r risg o ran rhagdaliad ar forgeisi cyfradd sefydlog. Pe byddai symudiad cyfochrog o 1% i fyny mewn cyfraddau llog, byddai hynny'n cael effaith andwyol o £4.5 miliwn (2010: £4.2 miliwn) ar gronfeydd wrth gefn.

Risg o ran arian cyfred

Ar ôl ystyried effaith cyfnewidiadau rhwng gwahanol arian cyfred, nid oes gan y Grŵp unrhyw amlygiad o bwys i anwadaliadau cyfraddau cyfnewid tramor na newidiadau mewn cyfraddau llog arian cyfred tramor.

41. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Nodir cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr (gan gynnwys cyfarwyddwyr anweithredol), sef staff rheoli allweddol y Grŵp, yn Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 33.

Benthyciadau i gyfarwyddwyr a chyfranddaliadau a ddelir gan gyfarwyddwyr

Roedd crynswth o £0.4 miliwn (2010: £0.5 miliwn) yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o ran blaensymiau gwarantedig a wnaed cyn neu yn ystod y flwyddyn i gyfarwyddwyr.

I'r graddau y mae'n ofynnol dan Adran 68(1) ac Adran 68(3) o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986, cedwir manylion benthyciadau o'r fath mewn cofrestr a gedwir yn Adeiladau'r Principality, Heol y Frenhines, Caerdydd, a bydd datganiad yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol ar gael i'w archwilio gan Aelodau yn yr un cyfeiriad am gyfnod o 15 niwrnod cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i'w gynnal ar 20 Ebrill 2012.

Fel sy'n ofynnol gan Reolau'r Gymdeithas, mae gan bob cyfarwyddwr gyfrif cyfranddaliadau. Mae dyletswydd cyfrinachedd y Gymdeithas i'w Haelodau yn atal y manylion hyn rhag cael eu datgelu yn unigol; cyfanswm crynswth yr adneuon a oedd yn cael eu dal gan gyfarwyddwyr oedd £0.2 miliwn (2010: £1.2 miliwn).

Trafodion y cyfarwyddwyr

Nid oedd unrhyw drafodion eraill gyda'r cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2010, gwnaed taliad o £75,000 i un cyfarwyddwr fel rhan o iawndal yn gysylltiedig â chostau adfer ar gyfer adeilad a brynwyd fel rhan o becyn adleoli lle na nodwyd diffygion yn ystod yr arolwg o'r adeilad.

Trafodion â chwmnïau'r Grŵp

Cynhaliodd y Gymdeithas y trafodion canlynol gyda chwmnïau'r Grŵp yn ystod y flwyddyn:

	Llog a dder-byniwyd gan y Gymdeithas	Llog a dalwyd i'r Gymdeithas	Ffioedd a dder-byniwyd gan y Gymdeithas	Ffioedd a dalwyd i'r Gymdeithas	Rhent a dder-byniwyd gan y Gymdeithas	Rhent a dalwyd i'r Gymdeithas
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011						
Nemo Personal Finance Limited	-	16.0	-	0.2	-	-
Peter Alan Limited	-	-	-	-	-	0.2
	-	**16.0**	**-**	**0.2**	**-**	**0.2**
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2010						
Nemo Personal Finance Limited	-	14.1	-	0.1	-	-
Peter Alan Limited	-	-	-	-	-	0.2
	-	**14.1**	**-**	**0.1**	**-**	**0.2**

Roedd y balansau canlynol yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn:

	Benthyciadau sy'n ddyledus i'r Gymdeithas	Benthyciadau sy'n ddyledus gan y Gymdeithas	Benthyciadau sy'n ddyledus i'r Gymdeithas	Benthyciadau sy'n ddyledus gan y Gymdeithas
	2011	**2011**	**2010**	**2010**
Nemo Personal Finance Limited	584.8	-	651.3	-
Peter Alan Limited	1.6	-	1.2	-
	586.4	**-**	**652.5**	**-**

Datganiad Busnes Blynyddol

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

1. Canrannau statudol

	Ar 31 Rhagfyr 2011	Ar 31 Rhagfyr 2010	Terfyn statudol
	%	%	%
Y terfyn benthyca	11.6	13.2	25.0
Y terfyn cyllido	14.0	11.0	50.0

Cyfrifir y canrannau yn unol ag Adrannau 6 a 7 Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 (fel y'i disodlwyd gan Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1997), a'r terfynau statudol yw'r rhai a nodir gan yr adrannau hynny, ac maent yn seiliedig ar y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol.

Y terfyn benthyca yw cyfran yr asedau busnes nad ydynt ar ffurf benthyciadau wedi eu gwarantu'n llawn ar eiddo preswyl.

Y terfyn cyllido yw cyfran y cyfranddaliadau a'r benthyciadau nad ydynt ar ffurf cyfrifon cwsmeriaid a ddelir gan unigolion.

Asedau busnes yw cyfanswm asedau'r Gymdeithas a'i sefydliadau is-gwmni fel y dangosir ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol ynghyd â darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau, namyn asedau sefydlog ac asedau hylifol.

Benthyciadau wedi eu gwarantu'n llawn ar eiddo preswyl yw'r prifswm sy'n ddyledus gan fenthycwyr a'r llog cronedig nad yw'n daladwy hyd yn hyn. Hwn yw'r swm a ddangosir ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol ynghyd â darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth benthyciadau, namyn ffioedd tarddiad benthyciadau heb eu hamorteiddio.

2. Canrannau eraill

	2011	2010
	%	%
Fel canran o'r cyfranddaliadau a'r benthyciadau:		
Cyfalaf gros	8.75	8.71
Cyfalaf rhydd	9.04	8.93
Asedau hylifol	19.14	21.12
Fel canran o gymedr cyfanswm yr asedau:		
Elw ar ôl trethiant	0.27	0.37
Treuliau rheoli	1.04	1.00

Mae cyfalaf gros yn cynrychioli enillion a gadwyd, cyfalaf wedi'i danysgrifio a rhwymedigaethau isradd fel y'u dangosir ar y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol.

Cyfalaf rhydd yw cyfalaf gros ynghyd â darpariaeth ar gyfer colledion lleihad mewn gwerth namyn asedau anniriaethol ac eiddo, offer trwm a chyfarpar.

Mae asedau hylifol yn cynrychioli cyfanswm yr arian parod mewn llaw a'r balansau gyda Banc Lloegr, benthyciadau a blaensymiau i sefydliadau credyd a gwarannau dyledion.

Mae cymedr cyfanswm yr asedau yn cynrychioli cyfartaledd cyfanswm yr asedau ar y datganiad cyfunol o'r sefyllfa ariannol ar ddechrau a diwedd y flwyddyn.

Mae treuliau rheoli yn cynrychioli crynswth y treuliau gweinyddol, dibrisiant ac amorteiddio.

Datganiad Busnes Blynyddol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2011

3. Y Cyfarwyddwyr

Ceir manylion y cyfarwyddwyr ar dudalennau 21 a 22.

Ceir manylion am gontractau gwasanaeth y cyfarwyddwyr yn Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 34.

Gellir cyflwyno dogfennau i unrhyw un o'r cyfarwyddwyr d/o Eversheds LLP, Cyfeirnod PDV, 1 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT.

Rheolwyr
David Cunningham-Jones
Peter Hughes
Susan Lane
Michael Jones
Elaine Morris
Steven Hughes
Julie-Ann Haines
Stuart Deane

Nid oes gan unrhyw gyfarwyddwr nac unrhyw swyddog arall, gan gynnwys unigolion cysylltiedig, unrhyw hawl i danysgrifio ar gyfer cyfranddaliadau na dyledebau mewn unrhyw sefydliad is-gwmni sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas.

Is-gwmnïau
Peter Alan Limited
Rheolwr Gyfarwyddwr:
Andrew Barry

Nemo Personal Finance Limited
Rheolwyr Gyfarwyddwyr:
Phillip E. Jones
Samuel F. Marshall

Rhestr Termau

Adenillion ar Gyfalaf (ROC)
Elw ar ôl treth fel canran o gyfalaf gros cyfartalog (cronfa gyffredinol wrth gefn, cronfa ailbrisio wrth gefn, cronfa wrth gefn eitemau sydd ar gael i'w gwerthu, PIBS a rhwymedigaethau isradd). Nid yw elw ar ôl treth yn cynnwys cost llog PIBS a rhwymedigaethau isradd.

Addasiad credyd ei hun
Addasiad ar gyfer effaith sefyllfa gredyd y Grŵp ar werth teg ei rwymedigaethau ariannol. Cyfeirir at hwn weithiau fel addasiad prisiad debyd.

Addasiad Prisiad Credyd (CVA)
Addasiad sy'n cynrychioli amcangyfrif o'r newid i werth teg y byddai cyfranogwr yn y farchnad yn ei wneud er mwyn cynnwys y risg credyd sy'n rhan annatod o amlygiadau i ddeilliadau gwrthbartïon.

Aeddfedrwydd
Gweddill yr amser mewn blynyddoedd y caniateir i fenthyciwr ei gymryd i gyflawni ei rwymedigaethau cytundebol yn llawn (prifswm, llog a ffioedd) o dan delerau cytundeb benthyciad.

Aeddfedrwydd cytundebol
Dyddiad talu olaf ar gyfer benthyciad neu offeryn ariannol arall, sef y dyddiad y mae'n rhaid talu gweddill y prifswm a'r llog sy'n ddyledus i gyd.

Aelod
Rhywun 18 oed neu hŷn sydd â buddsoddiad cyfranddaliadau neu fenthyciad morgais gwerth dros £100 gyda'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Ailstrwythuro dyled
Newid telerau a darpariaethau cytundebau dyled nad ydynt wedi dod i ben. Gellir ailstrwythuro er mwyn gwella llif arian parod a gallu'r benthyciwr i dalu'r ddyled. Gall gynnwys newid yr amserlen ad-dalu yn ogystal â newid y taliadau llog neu daliadau'r ddyled.

ALCO
Y Pwyllgor Asedau a Rhwymedigaethau.

Amlygiad
Y golled fwyaf y gallai sefydliad ariannol ei dioddef pe byddai benthyciwr, gwrthbarti neu grŵp yn peidio â chyflawni ei rwymedigaethau neu pe byddai angen sylweddu asedau ac eitemau oddi ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Amlygiad ar Adeg Diffygdalu (EAD)
Un o baramedrau Basel II a ddefnyddir i amcangyfrif y swm sy'n ddyledus ar yr adeg diffygdalu.

Arweiniad Hylifedd Unigol (ILG)
Arweiniad gan yr FSA ar swm adnoddau hylifedd cwmni, a phroffil cyllido'r cwmni.

Asedau hylifol
Arian parod neu asedau eraill y gellir eu trosi'n rhwydd yn arian parod heb golli gwerth.

Asedau hylifol sy'n gymwys i'w defnyddio fel byffer
Mae'r rhain yn cynnwys gwarannau dyledion o ansawdd uchel a ddyroddir gan lywodraeth neu fanc canolog, gwarannau a ddyroddir gan fanc datblygu amlochrog dynodedig, neu gronfeydd wrth gefn ar ffurf adneuon mewn banc canolog yn un o Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu Ganada, Cymanwlad Awstralia, Siapan, y Swistir neu Unol Daleithiau America, ac y gellir eu codi o'r banciau hynny heb roi rhybudd.

Asedau wedi'u Pwysoli o ran Risg (RWA)
Gwerth asedau, ar ôl eu haddasu, o dan reolau cyfalaf Basel II i adlewyrchu graddfa'r risg y maent yn ei chynrychioli.

Asesiad Unigol o Ddigonolrwydd Hylifedd (ILAA)
Asesiad y Grŵp ei hun o'r lefelau hylifedd y mae arno eu hangen i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol cyfredol a disgwyliedig. Caiff y rhain eu hasesu o dan amgylchiadau arferol a than straen.

Basel II
Datganiad arferion gorau Pwyllgor Basel ar Oruchwylio Bancio sy'n diffinio'r dulliau y dylai cwmnïau eu defnyddio i gyfrifo eu gofynion cyfalaf rheoliadol er mwyn cadw digon o gyfalaf i ddiogelu'r system ariannol rhag colledion annisgwyl. Daeth Basel II yn gyfraith yng Nghyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf yr UE ac fe'i rhoddwyd ar waith yn y DU trwy gyfrwng Llawlyfr yr FSA.

Basel III
Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Pwyllgor Basel ar Oruchwylio Bancio destun rheolau Basel III, sy'n cyflwyno manylion safonau rheoleiddio byd-eang cryfach ar hylifedd a lefelau cyfalaf banciau. Cyflwynir y safonau'n raddol fesul cam o 2013 ymlaen.

Benthyca masnachol
Benthyciadau wedi'u gwarantu ar eiddo masnachol a benthyciadau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Benthyciadau a aildrafodwyd
Gellir aildrafod benthyciadau a blaensymiau naill ai fel rhan o berthynas barhaus â chwsmer teilwng o gredyd neu mewn ymateb i anawsterau ariannol y sawl sydd â'r benthyciad. Yn yr achos olaf hwn, ni ellir ymdrin â'r benthyciad a aildrafodwyd mwyach fel un sydd heibio ei ddyddiad dyledus neu un sydd wedi lleihau mewn gwerth os nad oes unrhyw newid yn y llifau a amcangyfrifir ar gyfer y dyfodol. Mae benthyciadau sy'n sylweddol yn unigol ac yr aildrafodwyd eu telerau yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn penderfynu a ydynt heibio eu dyddiad dyledus neu wedi lleihau mewn gwerth.

Benthyciadau ansafonol
Mae'r rhain yn cynnwys morgeisi Prynu i Osod a morgeisi eraill nad ydynt yn rhai safonol.

Benthyciadau eilaidd
Benthyciadau i fenthycwyr sydd, yn nodweddiadol, â hanes credyd gwan gan gynnwys achosion o wrthod talu ac, o bosibl, broblemau mwy difrifol megis dyfarniadau llys a methdaliadau a ryddhawyd. Fe allant hefyd arddangos nodweddion risg uwch yn ôl yr hyn a fesurir gan sgoriau credyd neu feini prawf eraill sy'n nodi perygl uwch nag arfer o ddiffygdalu.

Benthyciadau heibio'u dyddiad dyledus
Mae benthyciadau heibio eu dyddiad dyledus pan fo gwrthbarti wedi methu â gwneud taliad ar y dyddiad a nodir yn y contract.

Benthyciadau manwerthu
Benthyciadau i unigolion yn hytrach na sefydliadau, gan gynnwys morgeisi preswyl a gwasanaethau bancio i ddefnyddwyr.

BIPRU
Datganiad arferion gorau Pwyllgor Basel ar Oruchwylio Bancio sy'n diffinio'r dulliau y dylai cwmnïau eu defnyddio i gyfrifo eu gofynion cyfalaf rheoliadol er mwyn cadw digon o gyfalaf i ddiogelu'r system ariannol rhag colledion annisgwyl. Daeth Basel II yn gyfraith yng Nghyfarwyddeb Gofynion Cyfalaf yr UE ac fe'i rhoddwyd ar waith yn y DU trwy gyfrwng Llawlyfr yr FSA.

Bondiau gwarantedig
Gwarannau dyledion a gefnogir gan bortffolio o forgeisi a gedwir ar wahân i asedau eraill y dyroddwr, a hynny'n unig er budd deiliaid y bondiau gwarantedig.

Colled Ddisgwyliedig (EL)
Cyfrifiad Basel II i amcangyfrif y colledion posibl ar amlygiadau cyfredol o ganlyniad i achosion posibl o ddiffygdalu dros gyfnod o flwyddyn. Fe'i cyfrifir trwy luosi PD, LGD ac EAD.

Rhestr Termau (parhad)

Colled o Ystyried Diffygdalu (LGD)
Un o baramedrau Basel II a ddefnyddir i amcangyfrif y gwahaniaeth rhwng amlygiad ar adeg diffygdalu (EAD) a swm net yr hyn y disgwylir ei adennill, wedi'i fynegi fel canran o EAD.

Cyfalaf economaidd
Asesiad mewnol o swm y cyfalaf sydd ei angen i ddiogelu rhag colledion posibl, annisgwyl yn y dyfodol yn deillio o weithgareddau busnes, ar draws cyfnod amser a chyfnod hyder a ddiffiniwyd.

Cyfalaf gros
Crynswth y gronfa gyffredinol wrth gefn, y gronfa ailbrisio wrth gefn, y gronfa wrth gefn eitemau sydd ar gael i'w gwerthu, y cyfalaf wedi'i danysgrifio a'r rhwymedigaethau isradd.

Cyfalaf haen 1
Elfen o gyfalaf rheoliadol sy'n cynnwys cronfeydd cyffredinol wrth gefn o elw a gadwyd, cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (PIBS), namyn ewyllys da, asedau anniriaethol ac addasiadau rheoliadol eraill.

Cyfalaf haen 1 craidd
Cyfalaf haen 1 (gweler y diffiniad uchod) namyn cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (PIBS).

Cyfalaf haen 2
Elfen arall o gyfalaf rheoliadol sy'n cynnwys dyled isradd a'r lwfans lleihad mewn gwerth cyfunol (ar gyfer amlygiadau yr ymdrinnir â hwy ar sail Basel II wedi'i safoni), namyn rhai didyniadau rheoliadol penodol.

Cyfalaf rheoliadol
Y cyfalaf a ddelir gan y Grŵp, wedi'i bennu yn unol â rheolau a sefydlwyd gan yr FSA. Mae sylfaen y cyfalaf rheoliadol yn cynnwys cyfalaf Haen 1 a Haen 2 (gweler isod).

Cyfalaf rhydd
Crynswth y cyfalaf gros a'r darpariaethau ar gyfer lleihad mewn gwerth cyfunol ar fenthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid, namyn eiddo, offer trwm a chyfarpar ac asedau anniriaethol.

Cyfalaf wedi'i danysgrifio
Gweler Cyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog (PIBS).

Cyfnewid diffygdaliad credyd
Trefniant lle caiff risg credyd ased (yr ased cyfeirio) ei throsglwyddo o brynwr i werthwr y trefniant diogelu. Llunnir contract, wrth gyfnewid diffygdaliad credyd, lle mae gwerthwr y trefniant diogelu yn derbyn taliadau premiwm neu daliadau cysylltiedig â llog yn gyfnewid am gontractio i wneud taliadau i brynwr y trefniant diogelu ar adeg digwyddiad credyd penodol. Mae digwyddiadau credyd fel arfer yn cynnwys methdaliad, diffygdalu ar ased cyfeirio neu asedau cyfeirio, neu israddio gan asiantaeth asesu statws credyd.

Cyfradd Amrywiol Safonol (SVR)
Y gyfradd llog y seilir prisiad morgeisi arni.

Cyfradd Cyfnewidiadau Dros Nos ar Sail Mynegai (OIS)
Cyfradd sy'n adlewyrchu'r llog a enillir neu a delir dros nos mewn cysylltiad â gwarant gyfochrog a gyfnewidir. Gellir defnyddio OIS i brisio deilliadau cyfradd llog wedi'u gwarantu â gwarant gyfochrog, er nad yw'r Grŵp wedi mabwysiadu'r dull hwn hyd yma.

Cyfranddaliadau
Arian y mae unigolyn yn ei dalu i mewn i un o gyfrifon cynilo neu gyfredol manwerthu'r Gymdeithas. Cofnodir arian o'r fath fel rhwymedigaethau ar gyfer y Gymdeithas.

Cyfranddaliadau a benthyciadau
Cyfanswm y cyfranddaliadau, adneuon gan fanciau, adneuon eraill, symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid a gwarannau dyledion a ddyroddwyd.

Cyfranddaliadau Parhaol sy'n Dwyn Llog (PIBS)
Cyfranddaliadau gohiriedig y Gymdeithas nad ydynt wedi'u gwarantu ac sy'n fath o gyfalaf Haen 1. Daw PIBS y tu ôl i hawliadau deiliaid dyled israddi, adneuwyr, credydwyr ac aelodau o'r Grŵp sy'n buddsoddi. Fe'u gelwir hefyd yn gyfalaf wedi'i danysgrifio.

Cymhareb benthyciad a gwerth (LTV)
Cymhareb sy'n mynegi swm morgais fel canran o werth yr eiddo. Mae'r Grŵp yn cyfrifo LTV morgeisi preswyl ar sail mynegai (caiff gwerth yr eiddo ei ddiweddaru yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y mynegai prisiau tai (HPI)).

Cymhareb benthyciadau ac adneuon
Mae'r gymhareb hon yn cynrychioli benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid, wedi'u rhannu â chrynswth y cyfranddaliadau, yr adneuon eraill a'r symiau sy'n ddyledus i gwsmeriaid.

Cymhareb cost ac incwm
Cymhareb sy'n cynrychioli cyfran y treuliau rheoli (h.y. treuliau gweinyddol, dibrisiant ac amorteiddio) o'i chymharu â chyfanswm yr incwm.

Cymhareb cyfalaf haen 1
Cyfalaf haen 1 fel cyfran o'r asedau wedi'u pwysoli o ran risg.

Cymhareb cyfalaf haen 1 craidd
Cyfalaf haen 1 craidd fel cyfran o asedau wedi'u pwysoli o ran risg.

Cymhareb Cyllido Sefydlog Net (NSFR)
Cymhareb hylifedd, a gynigir ar hyn o bryd o dan Basel III, i gyfrifo cyfran yr asedau hirdymor a gyllidir gan ffynonellau cyllido sefydlog, hirdymor (adneuon cwsmeriaid a chyllid cyfanwerthu hirdymor).

Cymhareb darpariaeth
Lwfansau (darpariaethau) lleihad mewn gwerth fel canran o'r benthyciadau a'r blaensymiau y maent yn berthnasol iddynt.

Cymhareb diddyledrwydd
Elfen o gyfalaf rheoliadol sy'n mesur cyfanswm cyfalaf y Grŵp fel cyfran o asedau'r Grŵp wedi'u pwysoli o ran risg.

Cymhareb hylifedd craidd
Asedau hylifol sy'n gymwys i'w defnyddio fel byffer fel cyfran o gynilion, adneuon a benthyciadau.

Cymhareb Maint Hylifedd (LCR)
Fel y'i cynigir o dan Reolau Basel III ar hyn o bryd, metrig hylifedd yw hwn sydd â'r nod o sicrhau bod cwmni'n cadw lefel ddigonol o hylifedd i ddiwallu ei anghenion ar gyfer 30 diwrnod calendr mewn sefyllfa o straen difrifol.

Cymhareb treuliau rheoli
Treuliau rheoli fel cyfran o gyfanswm yr asedau cyfartalog.

Cymhareb trosoledd
Fel y'i cynigir o dan Reolau Basel III ar hyn o bryd, mesur ategol o'r gofynion cyfalaf wedi'u haddasu o ran risg yw'r gymhareb hon. Caiff ei diffinio fel cymhareb cyfalaf Haen 1 a chyfanswm yr amlygiadau. Mae cyfanswm yr amlygiadau yn cynnwys eitemau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol ac eitemau nad ydynt arno (ar ôl ystyried deilliadau).

Cynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS)
Cronfa iawndal cyfle olaf y DU ar gyfer cwsmeriaid cwmnïau gwasanaethau ariannol awdurdodedig. Fe allai'r FSCS dalu iawndal i gwsmeriaid os bydd cwmni yn methu, neu'n debygol o fethu, â thalu hawliadau yn ei erbyn, fel arfer oherwydd ei fod wedi rhoi'r gorau i fasnachu neu y datganwyd ei fod yn diffygdalu. Caiff yr FSCS ei ariannu gan y diwydiant gwasanaethau ariannol. Mae'n rhaid i bob cwmni a awdurdodir gan yr FSA dalu ardoll flynyddol sy'n mynd tuag at ei gostau rhedeg a thaliadau iawndal.

Rhestr Termau (parhad)

Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig
Cynllun sy'n diffinio'r buddiannau y bydd cyflogai yn eu derbyn ar ôl ymddeol, yn dibynnu ar ffactorau megis oed, hyd gwasanaeth a chyflog.

Cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig
Cynllun y mae'r Grŵp a'r cyflogai yn talu cyfraniadau penodol iddo heb unrhyw ymrwymiad i dalu cyfraniadau ychwanegol.

Cytundeb ailbrynu ('repo') / Cytundeb ailbrynu gwrthdro ('repo' gwrthdro)
Cytundeb ailbrynu sy'n caniatáu i fenthyciwr ddefnyddio gwarant ariannol fel gwarant gyfochrog ar gyfer benthyciad arian parod. Mewn 'repo', mae'r sawl sydd wedi cael y benthyciad yn cytuno i werthu gwarant i'r sawl a'i rhoddodd, yn amodol ar ymrwymiad i ailbrynu'r ased am bris penodedig ar ddyddiad penodol. Mae'n 'repo' i'r sawl sy'n gwerthu'r warant (ac sy'n cytuno i'w ailbrynu yn y dyfodol); mae'n gytundeb ailbrynu gwrthdro neu'n 'repo' gwrthdro i'r gwrthbarti (sy'n prynu'r warant ac yn cytuno i'w gwerthu yn y dyfodol).

Dros y Cownter (OTC)
Trafodion dwyochrog (e.e. deilliadau) nad ydynt yn cael eu masnachu trwy gyfnewidfa ac a gânt eu prisio gan ddefnyddio modelau prisio.

Dull Cyfradd Llog Effeithiol (EIR)
Y dull a ddefnyddir i fesur gwerth cario ased neu rwymedigaeth ariannol. Mae'r EIR yn dyrannu incwm neu draul llog cysylltiedig er mwyn darparu elw gwastad, naill ai hyd at y dyddiad aeddfedu neu'r dyddiad ailbrisio nesaf.

Dull wedi'i safoni
Y dull sylfaenol a ddefnyddir i gyfrifo gofynion cyfalaf risg credyd o dan Basel II. Yn y dull hwn, mae'r pwysoliadau risg a ddefnyddir yn y cyfrifiad cyfalaf yn cael eu pennu gan baramedrau goruchwylio'r FSA. Mae'r dull wedi'i safoni yn llai sensitif i risg nag IRB.

Dyled/rhwymedigaethau isradd
Math o gyfalaf Haen 2 sydd heb ei warantu ac sy'n dod y tu ôl i hawliadau'r holl adneuwyr, credydwyr ac Aelodau sy'n buddsoddi, ond cyn hawliadau deiliaid cyfranddaliadau parhaol sy'n dwyn llog (PIBS).

ECAI
Sefydliad Asesu Credyd Allanol. Sefydliad yw ECAI (e.e. Moody's, Standard and Poor's a Fitch) sy'n neilltuo graddfeydd credyd i ddyroddwyr mathau penodol o rwymedigaethau dyled yn ogystal â'r offerynnau dyled eu hunain.

Eiddo masnachol
Mae hyn yn cynnwys adeiladau swyddfa, eiddo diwydiannol, canolfannau meddygol, gwestai, siopau manwerthu, canolfannau siopa, adeiladau preswyl ar gyfer nifer o deuluoedd, warysau, modurdai ac eiddo diwydiannol.

Elw llog net
Incwm llog net fel cyfran o gyfanswm yr asedau cyfartalog.

Endidau Diben Arbennig (SPEs)
Endidau sy'n cael eu creu i gyflawni amcan penodol a ddiffiniwyd yn eglur. Ceir cyfyngiadau penodol yn aml ynglŷn â'u gweithgareddau parhaus. Mae'r Grŵp yn defnyddio SPEs a sefydlwyd o dan raglen warantiaeddio. Caiff yr endidau hyn eu cyfuno o fewn canlyniadau'r Grŵp pan fo gan y Grŵp reolaeth drostynt neu pan fo'n cadw'r risgiau a'r enillion sy'n gysylltiedig â hwy. Defnyddir y term hwn i olygu'r un peth ag SPV (Cyfrwng Diben Arbennig).

FSA
Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol. Y corff sy'n rheoleiddio'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn y DU.

GORC
Pwyllgor Risg Weithredol y Grŵp.

GRC
Pwyllgor Risg y Grŵp.

Gwarannau a Gefnogir gan Forgeisi Preswyl (RMBS)
Categori o warannau a gefnogir gan asedau ac sy'n cynrychioli buddiannau mewn grŵp o forgeisi preswyl. Mae gan fuddsoddwyr yn y gwarannau hyn yr hawl i arian a dderbynnir trwy daliadau morgais yn y dyfodol (llog a/neu brifswm).

Gwarannau dyledion
Asedau sy'n cynrychioli tystysgrifau gorddyled sefydliadau credyd, cyrff cyhoeddus neu fentrau eraill, ac eithrio rhai a ddyroddir gan fanciau canolog.

Gwarannau dyledion a ddyroddwyd
Tystysgrifau gorddyled y Grŵp i ddeiliad y tystysgrifau. Gellir trosglwyddo'r tystysgrifau hyn. Mae'r rhain yn rhwymedigaethau i'r Grŵp ac maent yn cynnwys tystysgrifau adneuon.

Gwarant
Cytundeb gan drydydd parti i warantu colled bosibl i sefydliad credyd pe byddai gwrthbarti penodedig yn diffygdalu.

Gwaranteiddio
Proses lle mae Grŵp o asedau, sef benthyciadau fel arfer, yn cael eu cyfuno mewn cronfa a ddefnyddir i warantu dyroddiad gwarannau newydd. Mae cwmni yn trosglwyddo asedau i endid diben arbennig (SPE) sydd wedyn yn dyroddi gwarannau a warentir gan yr asedau. Mae'r Grŵp wedi sefydlu strwythurau gwaranteiddio fel rhan o'i weithgareddau cyllido. Mae'r strwythurau gwaranteiddio hyn yn defnyddio morgeisi preswyl fel y gronfa asedau.

Gwerth yn ôl Risg (VaR)
Techneg sy'n amcangyfrif y golled a allai godi ar sefyllfaoedd risg o ganlyniad i symudiadau yn y dyfodol yng nghyfraddau'r farchnad a phrisiau dros gyfnod penodol o amser ac at lefel benodol o hyder ystadegol.

Gwerthoedd teg lefel 1
Gwerth teg yn deillio o brisiau heb eu haddasu a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union yr un fath, e.e. gwarannau llywodraeth G10.

Gwerthoedd teg lefel 2
Gwerth teg yn deillio o fewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd ac y gellir eu gweld ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (h.y. pris) neu'n anuniongyrchol (h.y. yn deillio o brisiau), e.e. y rhan fwyaf o fondiau gradd buddsoddiad a bondiau hylifol, gwarannau a gefnogir gan asedau, rhai rhwymedigaethau dyled wedi'u gwarantu â gwarant gyfochrog (CDOs), rhwymedigaethau benthyciad wedi'u gwarantu â gwarant gyfochrog (CLOs) a deilliadau OTC.

Gwerthoedd teg lefel 3
Gwerth teg yn deillio o fewnbynnau ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata'r farchnad y gellir ei weld (mewnbynnau na ellir eu gweld), e.e. buddsoddiadau ecwiti preifat, deilliadau sy'n cynnwys elfen o ecwiti, adneuon sy'n cynnwys elfen o ecwiti, rhai CDOs a rhai gwarannau a bondiau a gefnogir gan asedau.

Gwrthod talu
Gweler Ôl-ddyledion.

Incwm llog net
Y swm a enillwyd ar asedau (cyfuniad o fenthyciadau manwerthu, benthyciadau masnachol ac asedau hylifol) namyn rhwymedigaethau (cynhyrchion cynilo a symiau y cafwyd eu benthyg).

Rhestr Termau (parhad)

LIBOR
Cyfradd Gwerthu Rhwng Banciau Llundain.

LTV (cymhareb Benthyciad a Gwerth) ar sail mynegai
Cymhareb sy'n mynegi swm morgais fel canran o werth yr eiddo. Mae'r Grŵp yn cyfrifo LTV morgeisi preswyl ar sail mynegai (caiff gwerth yr eiddo ei ddiweddaru yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y mynegai prisiau tai (HPI)).

Lwfansau lleihad mewn gwerth
Darpariaethau a ddelir yn erbyn asedau ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol. Mae'r darpariaethau yn cynrychioli amcangyfrif gorau'r rheolwyr o golledion ym mhortffolio'r benthyciad ar ddyddiad y datganiad o'r sefyllfa ariannol.

Lwfansau lleihad mewn gwerth wedi'u hasesu'n unigol / ar y cyd
Caiff lleihad mewn gwerth ei fesur yn unigol ar gyfer asedau sy'n sylweddol yn unigol i'r Grŵp, ac ar y cyd pan fo portffolio yn cynnwys asedau tebyg i'w gilydd a phan fo technegau ystadegol priodol ar gael. Mae asesiad ar y cyd hefyd yn cynnwys colledion sydd wedi digwydd ond nad ydynt eto wedi eu nodi'n unigol ar fenthyciadau sy'n destun asesiad unigol.

Lleihad mewn gwerth benthyciadau
Ceir lleihad mewn gwerth benthyciad os gwelir tystiolaeth wrthrychol o ddigwyddiad lleihad mewn gwerth, a bod y digwyddiad yn cael effaith y gellir ei hamcangyfrif yn ddibynadwy ar lifau arian parod y benthyciad yn y dyfodol. Gallai un digwyddiad neu gyfuniad o ddigwyddiadau achosi lleihad mewn gwerth. Mae digwyddiadau lleihad mewn gwerth yn cynnwys diswyddiad neu briodas yn chwalu.

Lliniaru risg credyd
Technegau i leihau'r golled bosibl os bydd cwsmer (benthyciwr neu wrthbarti) yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau. Gallai hyn gynnwys cymryd gwarant ariannol neu ffisegol, clustnodi symiau derbyniadwy, defnyddio deilliadau credyd, gwarantau neu yswiriant credyd, gwrthbwyso neu setlo rhwymedigaethau yn ôl gwerth net.

Morgeisi ecwiti negyddol
Ceir ecwiti negyddol pan fo gwerth yr eiddo a brynwyd â'r morgais yn llai na'r balans sy'n weddill ar y benthyciad. Ecwiti negyddol yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol yr eiddo a'r balans sy'n weddill ar y benthyciad.

Morgeisi preswyl dethol
Benthyciadau preswyl prif ffrwd sydd fel arfer o ansawdd credyd gwell ac sy'n cyd-fynd â phrosesau gwarantu safonol yw morgeisi dethol. Fel y cyfryw, maent yn debygol o fod â hanes credyd da, a phasio asesiad fforddiadwyedd safonol ar bwynt eu tarddiad.

Mynegai IPD
Mae hwn yn mesur yr adenillion ar fuddsoddiadau eiddo yn y DU.

Nodion Ewro Tymor Canolig (EMTN)
Nodion ewro a ddyroddir gan gorfforaethau ar draws ystod o gyfnodau aeddfedu. Mae corfforaethau yn aml yn dyroddi EMTN o dan raglenni EMTN lle y cynigir nodion yn rheolaidd ac yn barhaus i fuddsoddwyr.

Ôl-ddyledion
Mae cwsmer mewn ôl-ddyledion pan fydd ar ei hôl hi o ran cyflawni ei rwymedigaethau gan olygu bod taliad sy'n ddyledus ar fenthyciad yn hwyr. Gellir dweud hefyd bod cwsmer o'r fath yn gwrthod talu.

Papur Masnachol (CP)
Nodyn addewid heb ei warantu a ddyroddir i gyllido angen am gredyd yn y tymor byr. Mae'n nodi'r swm enwol a delir i fuddsoddwyr ar y dyddiad y mae'n aeddfedu.

Parodrwydd i dderbyn risg
Mynegiad o lefel y risg y mae'r Grŵp yn fodlon ei derbyn (neu beidio â'i derbyn) er mwyn diogelu buddiannau aelodau'r Gymdeithas tra'n cyflawni amcanion busnes.

Prif Gytundeb y Gymdeithas Cyfnewidiadau a Deilliadau Ryngwladol (ISDA)
Contract safonol a ddatblygwyd gan yr ISDA ac a ddefnyddir i sefydlu trafodion deilliadau dwyochrog. Mae'r contract yn rhoi hawliau gwrthbwyso cyfreithiol ar gyfer trafodion deilliadol â'r un gwrthbarti. Mae hyn yn lleihau risg credyd y deilliadau i'r graddau y mae'r gwerthoedd negyddol yn gwrthbwyso'r gwerthoedd cadarnhaol.

Profi ar gyfer straen
Amryw o dechnegau a ddefnyddir gan y Grŵp i fesur i ba raddau y gallai fod yn agored i ddigwyddiadau anghyffredin ond nid amhosibl.

Proses Asesiad Mewnol o Ddigonolrwydd Cyfalaf (ICAAP)
Asesiad y Grŵp ei hun, fel rhan o ofynion Basel II, o faint o gyfalaf y mae arno angen ei ddal mewn cysylltiad â'i ofynion cyfalaf rheoliadol (ar gyfer risgiau credyd, risgiau'r farchnad a risgiau gweithredol) ac ar gyfer risgiau eraill gan gynnwys digwyddiadau straen.

Risg o ran credyd
Y risg y bydd benthyciwr neu wrthbarti yn peidio â thalu'r llog neu ad-dalu'r cyfalaf ar fenthyciad. Risg o ran credyd yw'r categori risg mwyaf y mae'r Grŵp yn agored iddo, a chaiff ei rannu fel a ganlyn: risgiau benthyciadau manwerthu, benthyciadau masnachol a chredyd y Trysorlys.

Risg hylifedd a chyllido
Y risg na all y Grŵp gyflawni ei rwymedigaethau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus, neu na all ond eu cyflawni am gost ormodol.

Risg weithredol
Risg o golledion oherwydd i brosesau, pobl a systemau mewnol fethu neu fod yn annigonol, neu oherwydd digwyddiadau allanol.

Risg y farchnad
Y colledion posibl neu'r lleihad yng ngwerth datganiad o sefyllfa ariannol y Grŵp o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y farchnad. Mae mathau penodol o risg y farchnad yn cynnwys risg cyfradd llog (llyfr bancio), risg amrediad cyfnewidiadau a risg arian cyfred.

Strategaethau ymatal rhag blaen-gau
Strategaethau i gynorthwyo benthycwyr sy'n cael anawsterau ariannol, megis ymestyn cyfnodau benthyciadau, trosi benthyciadau dros dro yn rhai lle y telir y llog yn unig, a chytuno i leihau taliadau dros dro. Nod y strategaethau hyn yw osgoi blaen-gau neu adfeddiannu, os oes modd.

Tebygolrwydd o Ddiffygdalu (PD)
Un o baramedrau Basel II a ddefnyddir i amcangyfrif pa mor debygol ydyw y bydd benthyciwr yn diffygdalu ar ei rwymedigaethau credyd o fewn y 12 mis nesaf.

Terfyn benthyca
Cyfran yr asedau busnes nad ydynt ar ffurf benthyciadau a warantwyd yn llawn ar eiddo preswyl.

Terfyn cyllido
Cyfran y cyfranddaliadau a'r benthyciadau nad ydynt ar ffurf cyfrifon cwsmeriaid a ddelir gan unigolion.

Trefniadau pensiwn cyflog terfynol
Trefniant pensiwn buddiannau diffiniedig lle mae'r pensiwn a delir i'r cyflogai yn seiliedig ar ei gyflog pensiynadwy terfynol cyn ymddeol.

Treuliau rheoli
Crynswth y treuliau gweinyddol, dibrisiant ac amorteiddio.

Cyfeiriadau'r Canghennau

Cymdeithas Adeiladu'r Principality
Canolfan Cymorth i Gwsmeriaid, Blwch Post 89, Adeiladau'r Principality, Heol y Frenhines, Caerdydd CF10 1UA
Rhif ffôn 029 2038 2000 www.principality.co.uk

ABERDÂR	10 Sgwâr Fictoria CF44 7LA	01685 872400
ABERGWAUN	29 Stryd y Gorllewin SA65 9AL	01348 873473
ABERTAWE	64-65 Ffordd y Brenin SA1 5HW	01792 655791
ABERTAWE	53 Heol Newton, Y Mwmbwls SA3 4BD	01792 360223
ABERTAWE	101 Stryd Woodfield, Treforys SA6 8AS	01792 795589
ABERYSTWYTH	15 Ffordd y Môr SY23 1NY	01970 612728
YR AMWYTHIG	2 The Square SY1 1LA	01743 353430
BANGOR	220 Stryd Fawr LL57 1NY	01248 364127
Y BARRI	1a Heol Tynewydd CF62 8HB	01446 733506
Y BONT-FAEN	28 Stryd Fawr CF71 7AG	01446 773954
CAER	14 Bridge Street CH1 1NQ	01244 323039
CAERDYDD (Birchgrove)	95 Heol Caerffili, Birchgrove CF14 4AE	029 2061 5928
CAERDYDD (Dewi Sant)	39 Town Wall, Canolfan Dewi Sant, CF10 2EW	029 2022 7788
CAERDYDD (Heol Albany)	105/107 Heol Albany CF24 3LP	029 2048 7030
CAERDYDD (Heol y Frenhines)	Adeiladau'r Principality, Heol y Frenhines CF10 1UA	0845 045 0007
CAERDYDD (Llandaf)	36/38 Stryd Fawr, Llandaf CF5 2DZ	029 2056 3094
CAERDYDD (Llanisien)	18 Heol yr Orsaf, Llanisien CF14 5LT	029 2076 4151
CAERDYDD (Tredelerch)	796 Heol Casnewydd, Tredelerch CF3 4FH	029 2079 4721
CAERDYDD (Treganna)	174 Cowbridge Road East, Treganna CF11 9NE	029 2037 3153
CAERDYDD (Yr Eglwys Newydd)	21 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd CF14 1DA	029 2062 4537
CAERFYRDDIN	13 Clos Mawr SA31 1PR	01267 235403
CAERFFILI	Y Twyn CF83 1JL	029 2086 9364
CASNEWYDD	33 Stryd Fawr NP20 1RU	01633 258206
CASTELL-NEDD	1-3 Green Street SA11 1DR	01639 635316
Y COED DUON	129 Stryd Fawr NP12 1AB	01495 224687
DINBYCH	11 Stryd-y-Dyffryn LL16 3AD	01745 814549
Y FENNI	68 Stryd Frogmore NP7 5AU	01873 856256
GLYNEBWY	2A The Walk NP23 6AY	01495 305569
GORSEINON	86 Stryd Fawr SA4 4BL	01792 896389
HENFFORDD	2 St. Peter's Square HR1 2PG	01432 273039
HWLFFORDD	5 Victoria Place SA61 2JX	01437 762147
LLANBEDR PONT STEFFAN	45 Stryd Fawr SA48 7BB	01570 422844
LLANDEILO	40 Stryd Rhosmaen SA19 6HD	01558 822638
LLANDRINDOD	Tŷ Carlton, Stryd Middleton LD1 5ET	01597 823511
LLANDUDNO	85 Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2PD	01492 876326
LLANELLI	Uned 13, Sgwâr St Elli SA15 1SH	01554 746950
LLANILLTUD FAWR	1 The Precinct CF61 1XA	01446 794238
MAESTEG	139 Commercial Street CF34 9DW	01656 737111
MERTHYR TUDFUL	Beacons Place CF47 8ED	01685 385421
PENARTH	1 Heol Stanwell CF64 2AB	029 2070 2094
PEN-Y-BONT AR OGWR	28 Stryd Caroline CF31 1DQ	01656 655120
PONTYPRIDD	93-94 Stryd Taf CF37 4SL	01443 404027
PONT-Y-PŴL	3 Commercial Street NP4 6JJ	01495 758577
PORTHCAWL	23 John Street CF36 3AP	01656 788257
PORT TALBOT	7 Riverside Walk SA13 1NY	01639 884055
PRESTATYN	99 Stryd Fawr LL19 9AP	01745 852531
PWLLHELI	55a Stryd Fawr LL53 5RT	01758 613331
TONYPANDY	30 Stryd Dunraven CF40 1AL	01443 422893
TREFYNWY	1 Monnow Street NP25 3EF	01600 717038
TREORCI	220 Stryd Fawr CF42 6AS	01443 772190
WRECSAM	20-22 Regent Street LL11 1SA	01978 261788
YR WYDDGRUG	39 Stryd Fawr CH7 1BQ	01352 756345

Cyfeiriadau Swyddfeydd Asiantaeth

ABERTEIFI	3 Heathfield, Pendre SA43 1JT	01239 615050
ABERTYLERI	11 Market Street NP13 1AH	01495 213958
BAE COLWYN	14 Ffordd Penrhyn LL29 8LG	01492 534676
Y BALA	87 Stryd Fawr, Gwynedd LL23 7AG	01678 520495
BARGOED	65 Hanbury Road, CF81 8QX	01443 831100
CAERNARFON	17 Y Maes LL55 2NE	01286 674500
MACHYNLLETH	Tŷ Maldwyn, Stryd Penrallt SY20 8AG	01654 703110
CASTELLNEWYDD EMLYN	Stryd y Coleg, SA38 9AJ	01239 710481
PORTHMADOG	103 Stryd Fawr, Gwynedd LL49 9EY	01766 512011
RHOSAN AR WY	8 Broad Street HR9 7EA	01989 763553
RHYDAMAN	6 Stryd Fawr, Sir Gaerfyrddin SA18 2LY	01269 591884
TONYSGUBORIAU	38 Talbot Road CF72 8AF	01443 224000
TREHARRIS	12 Fox Street CF46 5HE	01443 412097
YSTRADGYNLAIS	18 Heol yr Orsaf, Pant Glas, SA9 1NT	01639 842013

www.principality.co.uk